

Cynllun Datblygu Lleol
Mabwysiedig Bwrdeistref
Sirol Caerffili Tan 2021

# Adroddiad Adolygu

***1 Mehefin 2021***

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........................................ 1**

Yr Angen i Adolygu ........................................ 1

Y Sefyllfa Bresennol – Y CDLl Mabwysiedig ........................................ 2

A ddylid Diwygio'r CDLl Mabwysiedig? ........................................ 4

**2. Materion Allanol ........................................ 4**

Materion Allanol (Newid Deddfwriaethol a Materion eraill) ........................................ 4

*Deddfwriaeth ........................................ 5*

*Canllawiau a Pholisi Cenedlaethol ........................................ 8*

*Nodiadau Cyngor Technegol [NCT] ........................................ 11*

Materion Eraill ........................................ 12

Agenda Rhanbartholi ........................................ 14

*Tasglu'r Cymoedd ........................................ 14*

*Bargen Ddinesig a Metro De Cymru (Metro) ........................................ 15*

*Y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth ........................................ 16*

*Cynllun Datblygu Strategol ........................................ 16*

Casgliad ........................................ 17

**3. Monitro Blynyddol ........................................ 18**

Polisïau Strategol ac Amcanion CDLl ........................................ 18

Canfyddiadau Cyffredinol y gwaith Monitro Polisi ........................................ 20

Monitro AAS/AoG ........................................ 21

Materion yn Codi o'r gwaith Monitro Blynyddol ........................................ 21

**4. Y Dystiolaeth ........................................ 23**

Poblogaeth a Thai ........................................ 23

*Amcanestyniadau Poblogaeth ........................................ 23*

*Targedau Tai Fforddiadwy ........................................ 24*

*Agenda Rhanbartholi ........................................ 24*

Cyflogaeth ........................................ 25

*Datblygu Cyflogaeth ........................................ 25*

*Strwythur Economaidd ........................................ 26*

*Cymudo ........................................ 26*

*Agenda Rhanbartholi ........................................ 26*

Trafnidiaeth ........................................ 27

*Y Rhwydwaith Priffyrdd Strategol a Thagfeydd ........................................ 27*

*Ansawdd yr Aer ........................................ 28*

*Rheilffyrdd ........................................ 28*

*Bysiau ........................................ 28*

*Teithio Llesol ........................................ 28*

*Agenda Rhanbartholi ........................................ 28*

Treftadaeth Naturiol ........................................ 29

*Bioamrywiaeth ........................................ 29*

*Tirwedd ........................................ 29*

*Seilwaith Gwyrdd ........................................ 29*

*Daeareg a Geomorffoleg ........................................ 30*

*Agenda Rhanbartholi ........................................ 30*

Manwerthu ....30
*Agenda Rhanbartholi* .... *31*
Hamdden ....31
*Mannau Gwyrdd Naturiol* .... *32*
*Mannau Agored a Hamdden yn yr Awyr Agored* .... *32*
*Agenda Rhanbartholi* .... *32*
Cyfleusterau Cymunedol ....32
*Agenda Rhanbartholi* .... *33*
Gwastraff ....33
*Agenda Rhanbartholi* .... *34*
Ynni Adnewyddadwy ....34
*Agenda Rhanbartholi* .... *35*
Mwynau ....35
*Agenda Rhanbartholi* .... *36*
Covid 19 and Brexit ....36
*Pa Newidiadau y mae Gofyn eu gwneud i'r CDLl?* .... *36*
**5. Dewisiadau a Chasgliadau ....38**
A oes angen cynnal adolygiad o'r cynllun Mabwysiedig? ....38
Pa fath o adolygiad y dylid ei gynnal? ....39
Y Cwmpas er mwyn Cydweithio ....40
Casgliad ....42
**Atodiad 1: Perfformiad Polisi Strategol a Chamau Gweithredu ....43**
**Atodiad 2: Perfformiad Polisi Strategol yn Erbyn Amcanion CDLl ....56**
**Atodiad 3: Trosolwg Monitro AAS/AoG ....61**

# Rhestr Termau

AMB ............................................Adroddiad Monitro Blynyddol

AHTFf..........................................Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy

PRC ............................................Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Comisiwn .....................................Comisiwn Twf a Chystadleuaeth

Deddf CPA...................................Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

DDM............................................Datganiad Dylunio a Mynediad

Deddf yr Amgylchedd....................Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Papur Gwyrdd ...............................Dogfen Ymgynghori Papur Gwyrdd – Cryfhau Llywodraeth Leol:

Cyflawni dros ein Pobl.

GTAA ..........................................Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

Deddf HE .....................................Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

JHLAS..........................................Cyd-Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai

Cabinet ar y Cyd ...........................Cabinet ar y Cyd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

CDLl .............................................Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bwrdeistref Sirol Caerffili

tan 2021

Adolygiad CDLl .............................Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2016 tan 2031

Metro............................................Metro De Cymru

MYE .............................................Amcangyfrif Poblogaeth Canol-Blwyddyn ONS

FfDC.............................................Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

CSC .............................................Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol

ONS .............................................Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Deddf Cynllunio.............................Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

PCC .............................................Polisi Cynllunio Cymru

BGC .............................................Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili

Rheoliadau...................................Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol)

(Cymru) 2005: Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

rWFD............................................Cynllun Datblygu Strategol Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff

Ddiwygiedig UE (ar gyfer Prifddinas-Ranbarth

Caerdydd) ACA.............................Ardal Cadwraeth Arbennig

Cyfarwyddeb AAS.........................Cyfarwyddeb 2001/42/EC am asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd

AAS/AoG.......................................Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd

SEWSPG ......................................Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru

SBCN ............................................Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur

SoDdGA.........................................Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

NCT...............................................Nodyn Cyngor Technegol

Tasglu ...........................................Tasglu'r Cymoedd

Deddf Llesiant ................................Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

CLlLC ............................................Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

# 1. Cyflwyniad

1.1 Y ddogfen hon yw'r Adroddiad Adolygu ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Bwrdeistref Sirol Caerffili tan 2021 [CDLl]. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y cynnydd a gaiff ei sicrhau wrth weithredu'r CDLl ac mae'n trafod ac yn ystyried y materion sy'n cyfrannu at y penderfyniad ynghylch a oes angen diwygio'r CDLl ac yna, mae'n gwneud argymhellion ynghylch y camau priodol i'w cymryd. Mae'r Adroddiad hwn yn ystyried:

- Strategaeth y cynllun, ei nodau a'i amcanion;
- Unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn amgylchiadau o ganlyniad i newidiadau i'r dystiolaeth neu i'r fframwaith cyd-destunol;
- Y fframwaith polisi a'r dyraniadau yn y cynllun; a'r
- 8 Adroddiad Monitro Blynyddol [AMB].

1.2 Mae strwythur yr Adroddiad hwn fel a ganlyn:

**Adran 1: Cyflwyniad –** Mae'n nodi'r gofynion ar gyfer yr adolygiad o'r CDLl a'r sefyllfa mewn perthynas â'r CDLl Mabwysiedig.

**Adran 2: Materion Allanol a Monitro –** Mae'n ystyried goblygiadau newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol a chanfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol o ran y CDLl.

**Adran 3: Y CDLl** – Mae'n ystyried sut y caiff y cynllun ei weithredu ac mae'n nodi materion sy'n codi y mae angen rhoi sylw iddynt. Yn arbennig, mae'n ystyried Gweledigaeth, Nodau, Amcanion, Fframwaith Polisi a Dyraniadau CDLl. Yn ychwanegol i hyn, mae'n ystyried yr

Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Arfarniad Cynaliadwyedd hefyd, a'r gwaith o'i Fonitro dros gyfnod y cynllun.

**Adran 4: Y Dystiolaeth** – Mae'n nodi ble y mae gofyn gwneud gwaith diweddaru neu gael tystiolaeth newydd er mwyn diwygio'r cynllun.

**Adran 5: Dewisiadau a Chasgliadau** – Mae'n ystyried y dewisiadau er mwyn symud ymlaen ac mae'n argymell y camau gweithredu a ffefrir.

**Adran 6: Y Camau Nesaf a'r Trefniadau** – Mae'n amlinellu'r camau nesaf yn y broses adolygu, ynghyd ag unrhyw drefniadau gweithdrefnol y byddai modd eu canlyn.

## Yr Angen i Adolygu

1.3 Mae Adran 69 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 [Deddf CPA] yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn cynnal adolygiad o'u cynllun datblygu lleol ar adegau a ragnodir gan Lywodraeth Cymru [LlC]. Mae Rheoliad 41 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 [Rheoliadau] yn mynnu y dylai adolygiad o CDLl gychwyn "bob pedair blynedd o'r dyddiad y'i mabwysiadwyd yn wreiddiol".

1.4 Dylid nodi bod adolygiad o'r cynllun yn asesiad o a yw'r cynllun yn cael ei weithredu yn unol â'r strategaeth. Mae hyn yn wahanol i ddiwygiad o gynllun, sef y broses ffurfiol o greu fersiwn newydd neu ddiwygiedig o'r cynllun. Mae'r Rheoliadau'n mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn cynnal adolygiad o'u cynllun datblygu mabwysiedig o leiaf bob 4 blynedd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y caiff y cynllun ei ddiwygio bob 4 blynedd, oherwydd y bydd yr

adolygiad yn ystyried a oes angen diwygio'r cynllun neu beidio. Os na fydd yr adolygiad yn canfod unrhyw reswm dros ddiwygio'r cynllun, ni chaiff unrhyw newidiadau eu gwneud.

1.5 Mae'r Rheoliadau'n mynnu bod yn rhaid cyflwyno'r adolygiad i LlC ar ffurf adroddiad, ar ôl iddo gael ei adrodd i'r Cyngor ac ar ôl i'r Cyngor gytuno arno.

## Y Sefyllfa Bresennol – Y CDLl Mabwysiedig

1.6 Mabwysiadwyd y CDLl yn ffurfiol ar 23 Tachwedd 2010. Mae'r CDLl yn nodi strategaeth defnydd tir y Cyngor dros bymtheg mlynedd cyfnod y cynllun, h.y. 2006 – 2021. Mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r nodau a'r amcanion y byddent yn cyflawni'r weledigaeth. Yn bwysicaf oll, mae'r CDLl yn pennu'r fframwaith polisi i rheoli a llywio datblygiad yn ystod cyfnod y cynllun.

1.7 Fel prif strategaeth defnydd tir y Cyngor, mae'n bwysig ei bod yn cael ei diweddaru. Mae'n ofyniad statudol bod pob CDLl Mabwysiedig yn destun gwaith monitro blynyddol, er mwyn monitro a gaiff y strategaeth ei gweithredu, a bob 4 blynedd, neu cyn hynny os bydd y gwaith monitro blynyddol yn nodi hynny, bydd yn destun adolygiad.

1.8 Mae'r CDLl wedi bod yn destun 8 Adroddiad Monitro Blynyddol ers iddo gael ei Fabwysiadu yn 2010, a pharatowyd a chyhoeddwyd yr Adroddiad cyntaf yn 2012. Daeth yr ail AMB, a oedd yn ystyried y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, i'r casgliad y dylid diwygio'r CDLl Mabwysiedig am ddau reswm:

- Er mwyn neilltuo tir ar gyfer tai ychwanegol i fodloni anghenion tai a thai fforddiadwy y bwrdeistref sirol, ac
- Er mwyn gwneud dyraniadau priodol i hwyluso rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

1.9 Paratowyd Adroddiad Adolygu fel rhan o'r broses hon ym mis Tachwedd 2014. Paratowyd yr Adroddiad hwn, fodd bynnag, cyn y cyhoeddwyd y Rheoliadau.

1.10 Cychwynnwyd ar y gwaith o ddiwygio'r CDLl yn 2013 ac aeth ymlaen i'r Cam Adneuo yn 2016. Fodd bynnag, yn dilyn y Cyfnod Ymgynghori Adneuo, penderfynodd y Cyngor dynnu'r cynllun newydd hwn yn ôl, gan argymell y dylid paratoi Cynllun Datblygu Strategol [CDS] yn gynnar ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Y CDLl yw'r cynllun datblygu ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili o hyd.

1.11 Cynhaliodd Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru (SEWSPG) dau weithdy gydag Arweinwyr y Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cynllunio er mwyn trafod materion sy'n ymwneud â llywodraethu a chynnwys y CDS. Ym mis Ionawr 2018, cytunodd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd â'r egwyddor o baratoi'r CDS ar gyfer y rhanbarth, ac ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd y Cabinet adroddiad a oedd yn argymell y dylid cychwyn ar y CDS, a gyflwynwyd i'r 10 awdurdod lleol cyfansoddol er mwyn iddynt gytuno i'r cam o gychwyn y broses. Hyd yn hyn, mae 8 o'r awdurdodau wedi cyflwyno'r adroddiad i'w Cynghorau priodol ac mae'r 8 wedi derbyn yr argymhellion.

1.12 Roedd y penderfyniad i dynnu'r CDLl newydd yn ôl yn 2016 yn cynnwys pedwar argymhelliad, sef:

- Ystyried cynnwys yr adroddiad, ac yn arbennig, y goblygiadau sy'n gysylltiedig gyda'r dewisiadau amgen er mwyn bwrw ymlaen gyda'r gwaith ar y cynllun datblygu ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili.

- Gweithio gyda'r holl awdurdodau cynllunio lleol ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd er mwyn paratoi Cynllun Datblygu Strategol yn unol â'r Cytundeb Bargen Ddinesig a lofnodwyd cyn gynted ag y bo modd.
- Yn unol â Chymeradwyaeth gan Weinidogion, tynnu yn ôl Cynllun Datblygu Lleol Newydd Adneuo Bwrdeistref Sirol Caerffili tan 2031 yn ffurfiol.
- Ceisio cyfarfod ar fyrder gyda Gweinidog LlC i nodi'r bwriad i dynnu'r CDLl Newydd yn ôl, a cheisio cymorth i baratoi'r CDS yn ddi-oed.

1.13 Fel y gellir gweld, mae'r argymhellion yn ceisio sicrhau y caiff y CDS ei baratoi'n gynnar cyn cychwyn ar unrhyw waith pellach i ddiwygio'r CDLl. Ystyriodd y Cyngor adroddiad am y CDS yn ystod ei gyfarfod ar 23 Hydref 2019, a chytunodd gychwyn ar y gwaith o baratoi'r CDS ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. O ganlyniad, llwyddwyd i gyflawni'r argymhelliad a oedd yn gofyn am gychwyn ar y CDS yn gynnar. Felly, nid yw'r argymhelliad hwn yn cynnig rheswm dros oedi'r gwaith o ddiwygio'r CDLl mwyach.

1.14 Fel rhan o adolygiad o'r broses gynllunio, cynigiodd Llywodraeth Cymru gyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer rhanbarthau a nodwyd yng Nghymru, un o'i gyfrifoldebau fyddai paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Mae'r darpariaethau ar gyfer sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a ddeddfwyd ar 20 Ionawr 2021. Gan y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyfrifol am gyflawni'r CDS ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd cafodd unrhyw waith ar y cyd o ran symud ymlaen â'r CDS ei hatal tua diwedd 2019.

1.15 Mae pob AMB er 2013 wedi dod i'r un casgliad ynghylch gweithredu'r CDLl Mabwysiedig, h.y. y dylid adolygu'r cynllun er mwyn rhoi sylw i'r sefyllfa o ran y ddarpariaeth tai a hefyd, materion eraill a oedd yn berthnasol ar yr adeg y paratowyd pob AMB, gan gynnwys anghenion rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ac argaeledd tir ar gyfer datblygu economaidd. Daeth AMB 2019, a gymeradwywyd yn ystod Cyfarfod Llawn y Cyngor ar 23 Hydref 2019, i'r un casgliad.

1.16 Yn benodol, mae AMBau 2017 a 2018 wedi ystyried argymhellion y Cyngor wrth dynnu'r CDLl Newydd yn ôl, hynny yw ceisio paratoi'r CDS yn gynnar. O ganlyniad, nid oedd yr un o'r AMBau yn argymell y dylid cychwyn ar ddiwygiad o'r CDLl Mabwysiedig, oherwydd y byddai hyn yn amharu ar y gwaith o baratoi'r CDS yn gynnar. O ystyried y ffaith y bodlonwyd y gofyniad hwn erbyn hyn, argymhellodd AMB 2019:

**R1 Mae'r 8fed Cynllun Monitro Blynyddol wedi dynodi y llwyddwyd i wneud cynnydd sylweddol wrth weithredu Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Caerffili tan 2021.**

**R2 Gan gydnabod yr angen i nodi mwy o dir ar gyfer cyflogaeth a thai er mwyn cynorthwyo'r angen lleol a dyheadau rhanbarthol, mae'r 8fed Adroddiad Monitro Blynyddol yn argymell y dylid cychwyn ar adolygiad o'r CDLl Mabwysiedig.**

**R3 Yn ystod y cyfnod cyn mabwysiadu CDLl Newydd, bydd y Cyngor yn parhau i roi sylw i'r diffyg mewn cyflenwad tir ar gyfer tai dros 5 mlynedd, trwy gymryd camau rhagweithiol, gan gynnwys:**

- o Ystyried cynigion am ddatblygiadau preswyl newydd yn ôl eu priod haeddiant cynllunio fesul safle, gan roi ystyriaeth briodol i'r angen i gynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn unol â chanllawiau a pholisi cynllunio cenedlaethol;
- o Lobïo Llywodraeth Cymru i sefydlu mecanweithiau cyllid er mwyn cynnig cymhelliant i safleoedd mewn ardaloedd hyfywedd isel a hyrwyddo gwaith i adfer safleoedd tir llwyd addas i'w datblygu;

- o Defnyddio'r model cyllid arloesol er mwyn dwyn ymlaen safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt, y mae problemau hyfywedd gyda nhw;
- o Nodi cynlluniau trwy gyfrwng y Bwrdd Prosiect Adfywio, lle y byddai modd manteisio ar gyfleoedd cyllido er mwyn cyflawni prosiectau adfywio, gan gynnwys ar gyfer tai a chyflogaeth.
- o Blaenoriaethu tai Cyngor newydd a fforddiadwy ar safleoedd tir llwyd er mwyn helpu i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol Gweithio i sicrhau bod tai newydd yn cydymffurfio â safonau amgylcheddol uchel er mwyn helpu i roi sylw i'r argyfwng hinsawdd

1.17 Ar 7 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol lythyr yn nodi nifer o ymatebion a chamau gweithredu Covid-19, un ohonynt oedd dileu'r angen i awdurdodau cynllunio lleol baratoi AMB ar gyfer 2020, er y byddai angen AMB sy'n cwmpasu'r ddwy flynedd wedi hynny yn 2021. Mewn ymateb i'r llythyr hwn nid yw'r Cyngor wedi paratoi AMB ar gyfer 2020. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â mater allweddol tir tai, bu'r Cyngor yn ystyried ac yn cytuno ar Bapur Cyflenwi Tai, a nododd daflwybr cyflenwi tai arfaethedig ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, a gwnaeth yr un argymhellion hefyd mewn perthynas â'r CDLl a wnaed mewn AMB blaenorol.

### A ddylid Diwygio'r CDLl Mabwysiedig?

1.18 Fel yr amlinellwyd uchod, mae pob AMB er 2013 wedi dod i'r casgliad bod gofyn i adolygu'r CDLl. Fodd bynnag, roedd tynnu'r CDLl Newydd yn ôl yn ystod ei gam Adneuo wedi addasu'r sefyllfa i un a oedd yn ceisio paratoi CDS yn gynnar. Llwyddwyd i fodloni'r amod hwn bellach trwy benderfyniad y Cyngor ar 23 Hydref 2019. Gan bod y gofynion hyn wedi cael eu bodloni, nid oes unrhyw ffactorau eraill y byddent yn addasu canfyddiadau AMBau y Cyngor.

1.19 Er bod AMBau blaenorol wedi nodi'r angen yn gyson i roi sylw i ddarpariaeth tai a gwneud darpariaeth ar gyfer rhaglen ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, mae AMBau yn ddiweddar wedi gweld niferoedd cynyddol o'r polisïau strategol yn cyrraedd eu trothwyon er mwyn eu hystyried trwy'r AMB. O ystyried bod y CDLl yn ei flwyddyn olaf o gyfnod y cynllun, disgwylir y bydd polisïau yn cyrraedd eu trothwyon, oherwydd y bydd pethau wedi newid yn sylweddol ers eu drafftio a'u Mabwysiadu. O ganlyniad, mae'r angen am adolygiad yn ymestyn y tu hwnt i'r ddau fater a nodwyd ym mhenderfyniad y Cyngor a oedd yn tynnu'r CDLl Newydd yn ôl.

1.20 **Felly, mae'r Adroddiad Adolygu yn dod i'r casgliad y dylid rhoi blaenoriaeth i'r cam o gychwyn ar ddiwygiad llawn o'r CDLl Mabwysiedig.**

## 2. Materion Allanol

### Materion Allanol (Newid Deddfwriaethol a Materion eraill)

2.1 Mae deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn cyflawni rôl pwysig yn y system gynllunio. Pan gaiff CDLl ei fabwysiadu, mae'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau diweddaraf ar yr adeg honno. Fodd bynnag, ar ôl mabwysiadu'r CDLl, ni ellir ei newid ymhellach ac nid oes modd ystyried unrhyw newidiadau dilynol a wneir i ddeddfwriaeth neu ganllawiau ynddo. O ganlyniad, pan adolygir cynllun mabwysiedig, bydd y cwestiwn ynghylch a yw deddfwriaeth neu ganllawiau wedi newid mewn ffordd mor arwyddocaol fel y byddai'n golygu diwygio'r cynllun, yn ystyriaeth allweddol.

2.2 O ganlyniad, bydd angen i'r Adroddiad Adolygu ystyried y newidiadau i ddeddfwriaeth,

canllawiau ac unrhyw newidiadau perthnasol eraill i amgylchiadau, er mwyn pennu a yw'r cyd-destun ar gyfer y cynllun wedi newid mewn ffordd mor arwyddocaol fel bod angen diwygio'r cynllun.

**Deddfwriaeth**

2.3 Yn ystod y cyfnod ers y mabwysiadwyd y CDLl, gwelwyd newidiadau arwyddocaol i ddeddfwriaeth, wrth i ddeddfwriaeth newydd ddod i rym a deddfwriaeth bresennol gael ei hehangu neu ei diwygio. Rhestrir y pif newidiadau isod yn nhrefn gronolegol:

*Deddf Ynni 2013 a Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)*

2.4 Cyflwynwyd Deddf Ynni 2013 (Deddf Ynni) gyda dau brif nod, sef cyflwyno'r ddarpariaeth i lywodraeth bennu targedau datgarboneiddio a darparu'r fframwaith er mwyn diwygio a rheoli'r farchnad ynni.

2.5 Mae'r prif effeithiau ar y cynllun datblygu sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth hon yn ymwneud â thargedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy a bennir gan LlC. Yn 2017, nododd Ysgrifennydd Cabinet LlC dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yr uchelgais i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030, gan bennu targed y byddai 70% o'r ynni a ddefnyddir yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu gan adnodau adnewyddadwy.

2.6 Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, sef ymrwymiad Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hwn yn nodi 100 o bolisïau a chynigion a fydd yn lleihau allyriadau yn uniongyrchol, gan gynorthwyo twf yr economi carbon isel, a chan nodi'r sylfeini er mwyn trawsnewid i gymdeithas carbon isel yng Nghymru.

2.7 Yn ychwanegol i hyn, ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd, sef cynllun Cymru i roi sylw i addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Mae'n asesu risg y newid yn yr hinsawdd, gan nodi meysydd y mae gofyn cael tystiolaeth fwy cadarn ynddynt er mwyn ystyried y risg, ac mae'n nodi camau gweithredu mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd:

- Y maent eisoes wedi cael eu cymryd,
- Y mae gofyn eu cymryd yn y tymor byr, neu
- Y mae gofyn eu cymryd yn y tymor canolig.

2.8 Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol [FfDC] a Pholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 [PCC] yn rhan o'r fframwaith polisi er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a bydd angen i'r Diwygiad o'r CDLl hyrwyddo datblygu cynaliadwy a rhoi sylw i'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd weithredol.

*Deddf Tai (Cymru) 2014*

2.9 Un o nodau'r Ddeddf Tai oedd cynorthwyo i wella cyflenwad, ansawdd a safon tai newydd yng Nghymru. Yn ogystal, mae'n mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a theithwyr, trwy baratoi Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr [GTAA], a fyddai'n ystyried yr angen am ddarpariaeth barhaol a thramwyo newydd.

*Deddf Cynllunio Cymru 2015 [Deddf Cynllunio]*

2.10 Daeth y Ddeddf Cynllunio i rym yn dilyn adolygiad o'r system gynllunio yng Nghymru, ac roedd yn ceisio datblygu a gwella'r system bresennol yn hytrach na chyflwyno system newydd. Roedd y Ddeddf yn ceisio gwneud diwygiadau er mwyn sicrhau bod y system yn deg, yn gydnerth ac yn galluogi datblygiad, gan gryfhau'r dull gweithredu a arweinir gan gynllun. Cyflwynodd y Ddeddf nifer o newidiadau i'r system flaenorol, gan gynnwys y newidiadau allweddol canlynol:

- Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i baratoi a diwygio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru [FfDC].
- Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ddynodi rhannau o Gymru yn ardaloedd cynllunio strategol, lle y caiff CDS ei baratoi ynddynt.
- Mae'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried adolygiad o'u Cynlluniau Mabwysiedig ar ôl cyhoeddi'r FfDC neu'r CDS ar gyfer yr ardal.

2.11 Mae'r Ddeddf Gynllunio yn pennu'r sylfaen ar gyfer rhanbartholi cynllunio a thrafnidiaeth, trwy ei darpariaethau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a chydweithio. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn mynnu lefel gynllunio strategol er mwyn cyflawni ei nodau a'i hamcanion ac mae'r darpariaethau yn y Ddeddf Gynllunio yn caniatáu cydweithio rhwng yr awdurdodau lleol er mwyn cyflawni hyn.

2.12 Ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd Cabinet ar y Cyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Cabinet ar y Cyd) adroddiad pwyllgor a oedd yn argymell y dylid cychwyn ar y CDS, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth. Hyd yn hyn, adroddwyd yr adroddiad i 8 o'r 10 awdurdod lleol, ac mae pob un ohonynt wedi cytuno i'r argymhelliad i gychwyn ar y CDS. Disgwylir i'r 2 awdurdod sy'n weddill gyflwyno'r adroddiad i'w Cynghorau yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

2.13 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 [Deddf Llesiant] yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy newid y ffordd y mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn meddwl, yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau. Roedd yn ceisio sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Yr amcan cyffredinol yw creu Cymru lle'r ydym yn dymuno byw, nawr ac yn y dyfodol.

2.14 Mae'r Ddeddf yn nodi 7 nod sy'n sefydlu gweledigaeth ar y cyd i Gymru. Mae gofyn i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, weithio tuag at gyflawni'r 7 nod. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy sicrhau eu bod wedi ystyried y bum ffordd o weithio sy'n seiliedig ar 5 elfen.

2.15 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio mewn ffordd fwy holistig ac mae'n mynnu hefyd eu bod yn paratoi datganiadau neu gynlluniau Llesiant, sy'n nodi eu gweithredu ar y cyd ar gyfer y dyfodol.

*Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*

2.16 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 [Deddf yr Amgylchedd] yn nodi deddfwriaeth mewn perthynas â'r amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd, ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer amrediad o gamau gweithredu er mwyn sicrhau diogelwch effeithiol o'r amgylchedd ac er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Y prif fater i gynlluniau datblygu yw'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth.

2.17 Mae Deddf yr Amgylchedd yn gosod dyletswydd ar Adnoddau Naturiol Cymru i baratoi gweithrediad polisi adnoddau naturiol cenedlaethol. Y datganiad ardal a fydd yn sail i'r CDLl diwygiedig

*Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016*

2.18 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 [Deddf HE] yn diwygio dau ddarn o ddeddfwriaeth a oedd yn bodoli eisoes, sef Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Ddeddf yn nodi ystod eang o ddarpariaethau sy'n ceisio cyflawni ei thri phrif nod:

- rhoi diogelwch mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig;
- gwella rheolaeth gynaliadwy yr amgylchedd hanesyddol; a
- chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn penderfyniadau a wneir am yr amgylchedd hanesyddol.

2.19 Y mater allweddol ar gyfer cynlluniau datblygu yw'r gofyniad i ddarparu diogelwch mwy effeithiol ar gyfer Adeiladau Rhestredig a Henebion Cofrestredig.

*Deddf Cydraddoldeb 2010 – Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol*

2.20 Cyflwynwyd y Ddyletswydd *Economaidd-Gymdeithasol* mewn cymru ar 31 Mawrth 2021, o dan bwerau a roddwyd i Weinidog Cymru o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nod y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais gymdeithasol, trwy ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau:

- ystyried tystiolaeth ac effaith bosibl eu penderfyniadau
- gwneud penderfyniadau trwy ymgynghori ac ymgysylltu
- deall barn ac anghenion y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt, yn enwedig y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol
- croesawu her a chraffu
- sbarduno newid yn y ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'r ffordd y mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gweithredu

*Arwyddocâd y Newidiadau Deddfwriaethol*

2.21 Mae'r holl ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaethau ar gyfer camau i'w cymryd yn y dyfodol, ond nid ydynt yn gwneud unrhyw rai o'u darpariaethau yn berthnasol i ddogfennau presennol. O ganlyniad, nid ydynt yn cael unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar y CDLl. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn dwyn newidiadau i bolisi a gweithdrefnau y mae angen rhoi sylw iddynt fel rhan o'r broses gynllunio. Er nad oes unrhyw effeithiau uniongyrchol, efallai y bydd newidiadau i weithdrefnau a pholisi yn mynnu bod fframwaith Polisi CDLl yn cael ei ystyried mewn ffordd ychydig yn wahanol i'r ffordd a gafodd ei ystyried yn flaenorol, ac fe allai hyn arwain at ddryswch neu wrthdaro. Mae'r darpariaethau arbennig yn y ddeddfwriaeth y gallent arwain at y problemau hyn a'r meysydd allweddol fel a ganlyn:

- Mae'r Cyngor wedi cynnal ei GTAA, yn unol â'r Ddeddf Tai, ac er bod y canfyddiadau ar gyfer yr asesiad hwn yn debyg i'r rhai a ddefnyddir er mwyn cyfrannu at y CDLl, nid oes sicrwydd na fydd y sefyllfa hon wedi newid pan gaiff y GTAA ei adolygu. Gallai hyn arwain yn hawdd at ofynion ychwanegol nad yw'r CDLl wedi darparu ar eu cyfer.
- Mae'r Ddeddf Cynllunio wedi cyflwyno dogfennau newydd a fydd yn cael effaith ar y fframwaith polisi cenedlaethol. Bydd yr FfDC ar lefel Gymreig a CDSau ar lefel ranbarthol yn cynnwys darpariaethau polisi a strategaeth, y gallent wrthdaro â'r CDLl.
- Yn yr un modd, mae'r Ddeddf Llesiant yn mynnu bod Cynllun Llesiant yn cael ei baratoi. Er nad prif ddogfen defnydd tir yw hon efallai, mae angen i gynlluniau datblygu adlewyrchu cynnwys y cynlluniau hyn. Drafftiwyd y CDLl i gyd-fynd â Chynllun Cymunedol y Cyngor. Fodd bynnag, ers hynny, disodlwyd Cynlluniau Cymunedol gan Gynlluniau Integredig Sengl, a bellach gan Gynlluniau Llesiant. O ystyried y ffaith bod angen i gynlluniau datblygu gyd-fynd â'r cynlluniau hyn pan gânt eu paratoi, gallai anghysondebau posibl rhwng Cynllun Llesiant newydd a'r CDLl danseilio'r fframwaith polisi.
- Yn ychwanegol i'r uchod, mae'r Ddeddf Llesiant yn cyflwyno 7 nod a 5 elfen gwneud

penderfyniadau hefyd, y mae angen eu hintegreiddio yn y cynllun datblygu. Er bod CDLl yn bodloni'r holl ofynion hyn, ni ddangosir hyn yn y ddogfen ei hun. O ystyried y ffaith y bwriedir i 5 elfen gwneud penderfyniadau fod yn rhan hanfodol o'r gwaith o ddarparu datblygu cynaliadwy, gallai pryder gael ei fynegi ynghylch a yw'r CDLl yn darparu datblygu cynaliadwy yn unol â'r Ddeddf Llesiant.

- Mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth ar awdurdodau lleol, ar y cyd â'r sbardunau polisi ar gyfer datgarboneiddio sy'n torri ar draws deddfwriaeth, yn cynyddu pwysigrwydd ymarferoldeb amgylcheddol a fydd yn gofyn am fwy o weithgarwch rheoli gwasanaethau ecosystemau. Bydd angen adlewyrchu hyn mewn unrhyw ddiwygiad o'r CDLl.
- Ond mae Deddf yr Amgylchedd a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol yn ceisio darparu diogelwch effeithiol ar gyfer yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Er y caiff diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ei gynnwys yn y CDLl, nid yw'r cynllun yn cynnwys polisïau penodol am yr amgylchedd hanesyddol ar y sail bod polisi cenedlaethol yn nodi'r polisi er mwyn rhoi sylw i'r amgylchedd hanesyddol, a dylid peidio ailadrodd canllawiau cenedlaethol mewn cynlluniau datblygu.

2.22 Er bod newidiadau deddfwriaethol yn gofyn am wahanol ddulliau gweithredu wrth baratoi CDLlau, nid oes unrhyw newidiadau penodol y byddent yn gofyn am gynnal adolygiad o'r CDLl yn uniongyrchol.

**Canllawiau a Pholisi Cenedlaethol**

*Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd (2010)*

2.23 Mae'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd yn nodi'r prif egwyddorion er mwyn i LlC sicrhau economi carbon isel, cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i newidiadau yn ein hinsawdd. Mae'r prif oblygiad ar gyfer y CDLl yn ymwneud â'r nod o gynhyrchu cymaint o ynni carbon isel ac adnewyddadwy ag y bo modd. Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r CDLl.

*Chwyldro Carbon Isel – Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)*

2.24 Mae'r datganiad yn nodi'r hyn y bydd LlC yn ei wneud, a'r cyfraniad a'r camau y bydd angen i eraill eu cymryd, er mwyn cyflawni'r targedau cenedlaethol ynghylch ynni carbon isel. Mae'r ddogfen yn ymhelaethu ar Dargedau'r DU ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac mae'n cynnig targedau heriol yng nghyd-destun Cymru. Yn ogystal, mae'r ddogfen yn ystyried pob maes o ran cynhyrchu adnewyddadwy, gan asesu ei allu i gyfrannu at y targed cyffredinol. Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar gyfer y CDLl.

*Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (2012) a Diweddariad ar y Llif Prosiectau 2019*

2.25 Roedd Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012 yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i wella tryloywder a hyfywedd trefniadau ariannu prosiectau trwy adrodd yn rheolaidd ar lif prosiectau seilwaith. Hyd yn hyn, bu 8 Adroddiad ar y Llif Prosiectau, sydd wedi amlinellu'r cynnydd a phennu dyheadau ar gyfer y dyfodol, a chyhoeddwyd yr Adroddiadau diweddaraf ar Lif Prosiectau yn 2019.

2.26 Mae Adroddiad Llif Prosiectau 2019 yn nodi prosiectau cyllido mawr a phrosiectau ar raddfa lai ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Mae'r prif brosiectau a nodwyd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili fel a ganlyn:

- Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Caerffili;
- Coleg Y Cymoedd;
- Grant Tai Cymdeithasol;
- Gwella Priffyrdd;

- Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC);
- Adeiladau Corfforaethol;
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl Gorfodol;
- Grant Trwsio Cartrefi – unigolion agored i niwed (Tai preifat);
- Prosiectau Corfforaethol;
- Rhaglen goleuadau stryd Salix;
- Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) – Tŷ Du;
- ERDF – Ystad Ddiwydiannol Lawns – unedau.

*Cymru’r Dyfodol 2040, Chwefror 2021*

2.27 Cyhoeddwyd Cymru’r Dyfodol 2040, fersiwn derfynol y fframwaith datblygu cenedlaethol, ym mis Chwefror 2021. Mae'r ddogfen yn nodi'r persbectif cenedlaethol ar faterion cynllunio ledled Cymru ac yn nodi:

- 11 canlyniad ar gyfer Cymru’r Dyfodol 2040
- 7 cwestiwn i fonitro Cymru’r Dyfodol 2040 yn yr adolygiad cyntaf
- Ardal Twf Genedlaethol yng Nghaerdydd, Casnewydd a'r cymoedd
- Polisïau Strategol ar Wneud Lle, Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus, Cymunedau gwledig a'r economi wledig, Canol trefi, cartrefi fforddiadwy, Llifogydd, rhwydweithiau ecolegol gwydn, cysylltedd (rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol), seilwaith digidol, ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres, a choedwig genedlaethol. .
- Rôl a chylch gwaith cyrff rhanbarthol wedi’u goruchwylio gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol.
- Polisïau ar gyfer rhanbarth y de-ddwyrain gan gynnwys ardaloedd twf Cenedlaethol, Lleiniau Gwyrdd, Parc Rhanbarthol y Cymoedd a Metro'r De Ddwyrain.

2.28 Mae'n ofyniad statudol i'r CDLlR2 gydymffurfio'n gyffredinol â Dyfodol Cymru 2040 ac o'r herwydd bydd angen i'r cynllun newydd ystyried y fframwaith polisi ynddo wrth baratoi'r cynllun.

*Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol: Rhifyn 3, Awst 2015*

2.29 Diwygiwyd y Llawlyfr CDLl er mwyn ystyried y newidiadau i'r broses o baratoi CDLl, a nodwyd yn y Ddeddf Gynllunio. Y Llawlyfr CDLl yw'r canllaw i'r broses er mwyn paratoi'r Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru ac nid yw'n ddogfen bolisi. O'r herwydd, mae'r Llawlyfr yn berthnasol i gynlluniau sy'n dod i'r amlwg yn benodol, yn hytrach na chynlluniau a fabwysiadwyd yn barod, ac o'r herwydd, byddai angen ystyried y newidiadau yn y ddogfen mewn unrhyw adolygiad o'r CDLl.

2.30 Dylid nodi bod y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn cael ei ailysgrifennu er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth, a bu'n destun ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 30 Awst 2019.

*Polisi Cynllunio Cymru [PCC]: Rhifyn 11 (2021)*

2.31 Newidiwyd PCC 7 gwaith ers y mabwysiadwyd y CDLl yn 2010. Pan fabwysiadwyd y CDLl, roedd Rhifyn 3 PCC newydd gael ei gyhoeddi ac roedd wedi cynnwys newidiadau mewn perthynas â diwygiadau i'r Polisi Cynllunio Gwledig. Adlewyrchwyd y newidiadau hyn yn y CDLl. Mae'r newidiadau a wnaethpwyd i PCC ers y mabwysiadwyd y CDLl fel a ganlyn:

- Rhifyn 4 Chwefror (2011)

  - Mae'n cynnwys cyfeiriadau i Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.
  - Mae'n adlewyrchu Fersiwn 3 y cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy.
  - Newidiadau polisi yn dilyn ymgynghoriad ar ynni carbon isel ac adnewyddadwy.
- Rhifyn 5 (Hydref 2012)
  - Mae'n cynnwys y dybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.
  - Newidiadau i bolisi datblygu economaidd er mwyn adlewyrchu ymchwil LlC.
- Rhifyn 6 (Chwefror 2014)
  - Mae'n adlewyrchu newidiadau o ganlyniad i Gyfarwyddeb Fframwaith Gwasanaeth ddiwygiedig.
  - Diweddarwyd er mwyn adlewyrchu NCT23 Datblygu Economaidd a oedd newydd gael ei gyhoeddi.
- Rhifyn 7 (Gorffennaf 2014)
  - Newidiadau yn deillio o ddiwygiadau i Rhan L y Rheoliadau Adeiladu.
- Rhifyn 8 (Ionawr 2016)
  - Newidiadau i broses CDLl o ganlyniad i'r adolygiad o'r system gynllunio.
  - Diwygio'r adran ynghylch cynaliadwyedd er mwyn adlewyrchu gofynion y Ddeddf Llesiant.
  - Roedd pennod newydd ar fwynau yn cynnwys y cam o gynnwys MPPW blaenorol (2008).
- Rhifyn 9 (Tachwedd 2016)
  - Newidiadau ehangach er mwyn adlewyrchu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 [Deddf Cynllunio].
- Rhifyn 10 (Rhagfyr 2018)
  - Ailstrwythurwyd er mwyn adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Rhifyn 11 (chwefror 2021)
  - Wedi'i ddiwygio i ystyried Cymru’r Dyfodol 2040
  - Wedi'i ddiwygio i ystyried dirymu TAN 1, gan nodi'r gofyniad am daflwybrau cyflenwi tai mewn cynlluniau datblygu a monitro'r modd y caiff tai eu darparu yn erbyn y taflwybrau fel ffordd o fonitro'r modd y caiff tai eu darparu ledled Cymru.

2.32 Er y gwnaethpwyd newidiadau sylweddol i PCC ers y mabwysiadwyd y CDLl, nid yw'r newidiadau wedi cynnwys y fframwaith polisi o fewn y CDLl na'i weithrediad. O ganlyniad, nid yw'r newidiadau i PCC yn golygu bod angen cynnal adolygiad o'r CDLl.

*Canllawiau Arfer Da ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol*

2.33 Mae'r rhain yn gyfres o naw dogfen a gyhoeddwyd fel rhan o'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2016. Mae'r dogfennau yn nodi canllawiau arfer da am faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r canllawiau hyn ar lefel fanylach na'r fframwaith polisi yn y CDLl, gan gynnig canllawiau arfer da ar gyfer y broses o reoli'r amgylchedd hanesyddol o ddydd i ddydd. O ganlyniad, nid ydynt yn effeithio ar Fframwaith Polisi CDLl.

*Polisi Adnoddau Naturiol 2017*

2.34 Cyhoeddwyd yn unol â Deddf yr Amgylchedd, gyda ffocws ar reolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol Cymru, a chan gynyddu eu cyfraniad gymaint ag y bo modd tuag at gyflawni nodau llesiant. Mae'r PAN yn nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol:

- cyflawni datrysiadau sy'n seiliedig ar natur;
- cynyddu effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac adnoddau; a
- mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar le.

2.35 Mae'r PAN yn pennu'r cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal hefyd, y mae'n rhaid eu hystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn paratoi'r Datganiadau Ardal, nad ydynt wedi cael eu cwblhau eto, a bydd angen i unrhyw CDLl diwygiedig ystyried y rhain

2.36 Yn gyffredinol, wrth gyflwyno newidiadau gweithdrefnol sylweddol, nid yw'r newidiadau i'r Canllawiau a'r Polisi Cenedlaethol mor arwyddocaol fel eu bod yn golygu bod gofyn cynnal adolygiad o'r cynllun.

**Nodiadau Cyngor Technegol [NCT]**

*Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (Chwefror 2014)*

2.37 Roedd y diwygiad hwn yn cynnwys 4 prif newid:

- Dirymu Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol;
- Gofyniad i fonitro gweithgarwch gwastraff bob blwyddyn;
- Cyflwyno lefelau isaf gallu tirlenwi;
- Cyflwyno Asesiadau Cynllunio Gwastraff.

2.38 Mae'r newidiadau i NCT 21 yn ymwneud â'r wybodaeth gefndirol a ddefnyddir er mwyn paratoi cynlluniau datblygu, yn hytrach na chael effaith uniongyrchol ar y fframwaith polisi.

*Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd (Chwefror 2014)*

2.39 Cyhoeddwyd yr NCT hwn am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2014. Mae'r prif faterion yn yr NCT fel a ganlyn:

- Mae'n gofyn am dystiolaeth gadarn er mwyn cyfrannu at y gwaith o baratoi cynllun;
- Dylai Awdurdodau Lleol ddod ynghyd mewn grwpiau i baratoi asesiadau rhanbarthol/is-ranbarthol o'r marchnadoedd masnachol a diwydiannol;
- Mae'n nodi rhanddeiliaid i'w cynnwys wrth baratoi asesiadau a chynlluniau;
- Mae gofyn i awdurdodau lleol asesu budd economaidd dyraniadau a cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad economaidd;
- Mae'n pennu profion ar gyfer ceisiadau sy'n peri niwed i amcanion cymdeithasol neu amgylcheddol;
- Mae'n mynnu bod safleoedd yn cael eu dyrannu y byddant yn darparu datblygiad economaidd, ac ni ddylid dyrannu safleoedd presennol nad ydynt yn debygol o ddarparu datblygiad economaidd.

*Nodyn Cyngor Technegol 1 – Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai*

2.40 Ar 26 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol lythyr at Awdurdodau Cynllunio Lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio a’r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a oedd yn cynghori bod TAN 1 wedi’i ddirymu yn ei gyfanrwydd a gwnaed newidiadau i PPW i adlewyrchu'r gofyniad newydd i gynlluniau datblygu nodi taflwybrau cyflenwi tai clir ac y byddai cyflenwi tai yn cael ei fonitro yn erbyn y taflwybrau hynny. Fe wnaeth dirymu TAN 1 ddileu'r polisi a'r gofyniad cyflenwad tir 5 mlynedd. Bydd angen i'r cynllun sy'n dod i'r amlwg fynd i'r afael â'r gofynion newydd gan gynnwys nodi taflwybr cyflenwi tai yn y cynllun sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cyflenwi tai trwy gydol cyfnod y cynllun.

*Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (Mawrth 2016)*

2.41 Roedd y Ddeddf Cynllunio yn gwaredu'r gofyniad i gyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad [DDM] fel rhan o gais cynllunio. Diwygiwyd NCT 12 er mwyn cynnwys y gofyniad i gyflwyno DDM fel rhan o gais cynllunio, er mwyn sicrhau y cynhelir y gofyniad hwn yng Nghymru. Mae'r newid hwn yn effeithio ar weithgarwch rheoli datblygiad yn hytrach na pholisi cynllunio, felly nid yw'n cael unrhyw effaith ar y CDLl.

*Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiad Masnachol a Manwerthu (Tachwedd 2016)*

2.42 Mae'r diwygiad hwn yn darparu canllawiau manwl pellach am amrediad o faterion manwerthu, gan gynnwys:

- Strategaethau a hierarchaethau;
- Profion anghenion a chymalog;
- Asesiad effaith manwerthu, gan gynnwys y gofyniad i gyflwyno un fel rhan o gais cynllunio ar gyfer datblygiadau manwerthu;
- Newid defnydd;
- Lloriau mesanîn
- Dangosyddion bywiogrwydd a hyfywedd.

2.43 Nid yw'r diwygiad hwn yn cyflwyno unrhyw ddarpariaethau na chânt eu cynnwys yn y CDLl ar hyn o bryd.

*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017)*

2.44 Mae'r NCT newydd hwn yn pennu canllawiau mewn perthynas â darpariaethau a nodir yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol. Gan bod y CDLl yn dibynnu ar ganllawiau cenedlaethol ar gyfer ei fframwaith polisi er mwyn ystyried datblygiadau yn yr amgylchedd hanesyddol, er bod cyhoeddi'r NCT yn newid y fframwaith, nid yw'n newid y sefyllfa o ran y cynllun datblygu. O ganlyniad, nid oes gan y cam o gyhoeddi'r NCT hwn unrhyw oblygiadau arwyddocaol y byddent yn golygu y byddai angen adolygu'r cynllun.

*Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref 2017)*

2.45 Mae'r diwygiad hwn i NCT 20 wedi cynnwys newidiadau yr oeddent yn deillio o'r Ddeddf Cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys y ddarpariaeth i hyrwyddo lleoedd lle y gall bywyd cymunedol ddigwydd yn Gymraeg, gan geisio annog awdurdodau lleol i ystyried bod datblygiad o'r fath yn hanfodol i ddyfodol yr iaith Gymraeg.

2.46 Er ei fod yn ehangu canllawiau blaenorol, mae'r goblygiadau ar gyfer cynllun sy'n dod i'r amlwg yn bennaf, yn hytrach nag un mabwysiedig, felly nid yw'r goblygiadau o'r diweddariad hwn yn cyfiawnhau cynnal adolygiad o'r CDLl.

2.47 Yn gyffredinol, nid yw newidiadau i'r NCTau, er eu bod yn newid y fframwaith canllawiau polisi, yn cael effaith arwyddocaol ar y CDLl, felly nid ydynt ynddynt eu hunain yn cynnig rheswm dros sbarduno'r adolygiad

**Materion Eraill**

*Cyfrifiad 2011*

2.48 Wrth baratoi'r CDLl, seiliwyd y strategaeth ar dwf cymedrol ym maint y boblogaeth. Twf cymedrol oedd y man canol rhwng twf uchel, yn seiliedig ar y gyfradd fudo net ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili gan adlewyrchu'r cyfartaledd ar gyfer De Ddwyrain Cymru, a thwf isel, yn seiliedig ar fudo cytbwys gyda'r un nifer o bobl yn symud i mewn ac allan o'r bwrdeistref sirol.

2.49 Roedd Twf Cymedrol yn gweld cynnydd o 6,200 ym maint o boblogaeth, o 171,300 ar

ddyddiad sylfaenol y cynllun (2006) i boblogaeth o 177,500 ar ddiwedd cyfnod y cynllun (2021). Roedd y cynnydd blynyddol ym maint y boblogaeth yn cyfateb â 411 unigolyn, 165 o fewnfudo net a 246 trwy newid naturiol (genedigaethau o'u cymharu â marwolaethau). Er bod lefel y mewnfudo yn uwch na'r hyn a welwyd yn ystod y blynyddoedd cyn 2006, roedd yn lefel y byddai modd ei gyflawni yn rhesymol yn ystod cyfnod y cynllun.

2.50 Roedd cyhoeddi data o Gyfrifiad 2011 yn dynodi mai poblogaeth Bwrdeistref Sirol Caerffili oedd 178,806. Roedd y ffigwr hwn yn uwch na'r boblogaeth ragamcanol ar ddiwedd cyfnod y cynllun Mabwysiedig, ac yn llawer uwch na'r ffigwr a ragamcanwyd ar gyfer 2011 (173,400). Yn ogystal, roedd yn uwch nag amcangyfrifon canol blwyddyn [MYE] blaenorol yn enwedig, a phoblogaeth 2011 ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth LlC 2006 a 2008.

2.51 Yng ngoleuni'r gwahaniaethau rhwng ffigurau Cyfrifiad 2011 ac amcangyfrifon cynharach, diwygiwyd yr MYE ar gyfer 2002-2010 i Gymru. Yn achos Caerffili, codwyd yr MYE ar gyfer pob blwyddyn. Er bod y ffigurau mudo a newid naturiol wedi codi ychydig, y prif reswm dros y gwahaniaeth rhwng yr hen Amcangyfrifon Canol-Blwyddyn a'r rhai diwygiedig, yw 'newid na ellir ei briodoli'. Mae'r newid na ellir ei briodoli yn cyfateb â 5000 o bobl ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol [ONS] wedi dweud y gallai hyn fod oherwydd cyfuniad o anghywirdebau posibl mewn perthynas â:

- Mudo mewnol, yn enwedig o ganlyniad i broblemau wrth amcangyfrif symudiadau penodol, megis pobl ifanc yn gorffen cyrsiau addysg bellach;
- Mudo rhyngwladol, o ganlyniad i wahanol ddulliau o gyfrifo mewnfudo;
- Amcangyfrifon poblogaeth 2001, yr oeddent yn seiliedig ar gyfrifiad 2001;
- Amcangyfrifon Cyfrifiad 2011, fel amcangyfrif y mae angen ei wneud ar gyfer nifer y bobl na wnaethant ymddangos ar ffurflen Cyfrifiad;
- Diffiniadau carcharorion, a newidiwyd.

2.52 O ystyried y ffaith na ellir esbonio'r gwahaniaethau rhwng yr hen Amcangyfrifon Canol Blwyddyn a'r rhai diwygiedig yn llawn, mae angen bod yn ofalus gydag unrhyw ragdybiaethau a wneir mewn perthynas â newid yn y boblogaeth yn ystod cyfnod y cynllun, oherwydd y gallai'r cynnydd ym maint y boblogaeth fod wedi digwydd yn ystod y cyfnod 1991 – 2001 ac wedi cael ei dan-gyfrifo yng Nghyfrifiad 2001, yn hytrach na'r twf yn digwydd rhwng 2001 a 2011. Mae'r ansicrwydd hwn yn ei gwneud yn anodd ystyried goblygiadau Cyfrifiad 2011 yn llawn, ac a yw lefel ddisgwyliedig y twf ym maint y boblogaeth wedi cael ei gwireddu yn ystod cyfnod y cynllun.

2.53 Maint amcangyfrifedig y boblogaeth yn ôl MYE 30 Mehefin 2018 oedd 181,019. Mae'r cydrannau newid er Cyfrifiad 2011 yn dynodi:

- Bod twf trwy gyfrwng newid naturiol wedi bod yn gadarnhaol, gyda chynnydd o 256 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd;
- Mae'r twf oherwydd newid naturiol ychydig yn uwch na'r rhagdybiaethau yn y CDLl, sef 246 y flwyddyn;
- Mae ffigurau mudo net (gan gynnwys newid amhriodoladwy) wedi bod yn amrywiol, gyda'r ffigurau yn amrywio rhwng -180 (colli) a 305 (ennill) o fudwyr net y flwyddyn, ac mae'n rhoi cyfanswm o 63 o bobl yn unig yn ystod y cyfnod, o'i gymharu â ffigwr mudo net o 165 o bobl y flwyddyn yn y CDLl;
- Yn ystod sawl blwyddyn er 2011, mae mudo mewnol wedi bod yn negyddol (h.y. mwy o ddinasyddion a anwyd yn y DU yn symud o Gaerffili nag sy'n symud i mewn);
- Yn ystod rhan fwyaf y blynyddoedd, y duedd fu ffigurau mudo cadarnhaol ar gyfer mudwyr rhyngwladol.

2.54 Mae Llywodraeth Cymru yn mynd trwy'r broses o baratoi'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd sy'n seiliedig ar y sefyllfa yn 2018 a rhagwelir y cyhoeddir y rhain yn gynnar yn 2020. Bydd yr amcanestyniadau 2018 hyn yn rhan o'r dystiolaeth ar gyfer gofynion tai yn y dyfodol.

2.55 Yn gyffredinol, gwelwyd twf ym maint y boblogaeth yn ystod cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, mae'r MYE yn nodi bod grwpiau iau yn lleihau, a bod grwpiau hŷn, yn enwedig y rhai dros oedran ymddeol, yn cynyddu'n sylweddol. Mae colli'r grwpiau iau yn golygu y bydd y gweithlu yn lleihau yn ystod cyfnod y cynllun cyfredol ac yn ystod cynlluniau dilynol, ac mae niferoedd cynyddol o bobl sydd wedi ymddeol yn rhoi baich ychwanegol ar adnoddau, a ariannir gan y rhai sy'n economaidd weithgar. O ganlyniad, bydd mwy o bwysau ar niferoedd is y bobl mewn cyflogaeth i gynorthwyo nifer gynyddol o bobl nad ydynt yn gweithio. Mae hwn yn fater y bydd angen rhoi sylw iddo trwy gyfrwng unrhyw adolygiad o'r CDLl. Mae'r anhawster wrth benderfynu a yw'r twf ym maint y boblogaeth a nodir yn y CDLl yn cael ei gyflawni, a ffurf anghynaliadwy y twf a welir er Cyfrifiad 2011, yn codi pryder sylweddol ynghylch a yw'r CDLl yn cyflawni'r strategaeth o ran y twf disgwyliedig ym maint y boblogaeth a demograffeg. O ystyried hyn, bernir bod gofyn cynnal adolygiad o'r CDLl er mwyn ystyried y materion hyn a rhoi sylw iddynt.

*Cyfrifiad 2021*

2.56 Cynhaliwyd y Cyfrifiad Cenedlaethol ar 21 Mawrth 2021. Yn gyffredinol, nid yw data o'r Cyfrifiadau ar gael tan o leiaf 2 flynedd o ddyddiad y cyfrifiad. Ar y sail hon rhagwelir y bydd argaeledd data Cyfrifiad 2021 yn dechrau yn 2023, sydd yn ystod y cyfnod yn symud tuag at gam disgwyliedig yr Ymgynghoriad Adnau wrth baratoi'r cynllun.

2.57 Bydd data Cyfrifiad 2021 yn rhoi'r cipolwg diweddaraf ar ddemograffeg y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, dylid nodi bod y CDLlR2 yn ddogfen 15 mlynedd ac y bydd yn seiliedig ar dueddiadau ar draws y cyfnod 15 mlynedd. Er y gall data'r Cyfrifiad nodi newidiadau i'r wybodaeth sylfaenol mewn perthynas â sylfaen dystiolaeth y cynllun, gellir ystyried hyn fel rhan o'r broses baratoi a gellir ymgorffori'r newidiadau hyn â fframwaith cyffredinol y cynllun sy'n ceisio cyflawni hyd at 2035.

2.58 Er y bydd angen i'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg ystyried data Cyfrifiad 2021 yn llawn, ni ragwelir y byddai angen newid polisi yn sylweddol ar hyn o bryd.

## Agenda Rhanbartholi

2.59 Bu symud sylweddol tuag at ddull rhanbarthol er mwyn rhoi sylw i'r prif broblemau sy'n ymwneud â chynllunio a thrafnidiaeth. Ceir hanes o roi sylw i drafnidiaeth ar lefel ranbarthol, trwy gyfrwng cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol, a'r cyn gorff trafnidiaeth rhanbarthol, Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA) – a ddisodlwyd gan Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRCTA) fel rhan o Fargen Ddinesig. Fodd bynnag, deliwyd â chynllunio strategol ar lefel awdurdod lleol bron yn llwyr. O ganlyniad, mae ystyried cynllunio ar lefel ranbarthol fwy strategol yn newid arwyddocaol i'r sefyllfa pan fabwysiadwyd y CDLl. Mae darpariaethau er mwyn paratoi CDSau a chynnwys gwaith ar y cyd rhwng awdurdodau yn y Ddeddf Gynllunio yn cynorthwyo ac yn hwyluso rhanbartholi cynllunio.

2.60 Bu tair elfen yn ddiweddar a atgyfnerthodd y dull rhanbarthol tuag at gynllunio a thrafnidiaeth, a'r rhain yw:

**Tasglu'r Cymoedd**

2.61 Sefydlwyd Tasglu'r Cymoedd (Tasglu) gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2016 i adolygu a rhoi sylw i broblemau economaidd ar draws cymoedd De Cymru, a leolir yn fras rhwng Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a chyffordd M4, gan gynnwys holl ardaloedd

cymoedd De Cymru. Cylch gwaith y Tasglu yw ystyried y camau y mae angen eu cymryd er mwyn rhoi sylw i faterion economaidd ar draws y cymoedd i gyd, a gweithredu newid go iawn ynddynt. O ganlyniad, mae Tasglu'r Cymoedd yn gweithredu ar lefel strategol, a gellid dadlau bod hyn ar lefel ehangach na lefel ranbarthol, gan ystyried materion datblygu economaidd, cynllunio a thrafnidiaeth cysylltiedig ar draws yr ardal.

2.62 Wrth roi sylw i'w gylch gwaith, cyhoeddodd y Tasglu ei iteriad cyntaf o "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol" yn 2017. Ein Cymoedd, Ein Dyfodol yw cynllun y Tasglu, sy'n ymwneud â'r cyfnod tan 2021, ac sy'n rhoi sylw i'r materion trwy gyfrwng nifer o gamau gweithredu a roddwyd mewn grwpiau dan 3 maes blaenoriaeth:

- Blaenoriaeth 1: Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni
- Blaenoriaeth 2: Gwasanaethau cyhoeddus gwell
- Blaenoriaeth 3: Fy Nghymuned Leol

2.63 Mae'r cynllun cyflawni yn nodi camau gweithredu y bwriedir iddynt gael eu cyflawni o fewn cyfnod y cynllun (tan 2021) felly nid ydynt yn cynnwys popeth, oherwydd y bwriad yw diwygio'r cynllun gydag amser. Mae nodi Canolfannau Strategol, y byddant yn destun buddsoddiad â ffocws gan y sector cyhoeddus ac yn targedu denu buddsoddiad preifat a chreu swyddi ar y draws y rhanbarth, yn ganlyniad allweddol gwaith y Tasglu. Nodwyd Canolfannau Strategol mewn lleoliadau y mae modd i bobl yn y cymoedd eu cyrraedd o fewn 45 munud ar drafnidiaeth gyhoeddus.

2.64 Nodwyd bod Caerffili/Ystrad Mynach yn 1 o 7 Canolfan Strategol yn ardal Tasglu'r Cymoedd ac mae'n cynnwys cynigion ynghylch:

- Safle preswyl a chyflogaeth strategol;
- Canolfannau cyflogaeth sy'n gysylltiedig gyda gwelliannau strategol i'r seilwaith trafnidiaeth;
- Ailddatblygu canol tref;
- Twristiaeth a datblygiad diwylliannol;
- Datblygiad preswyl.

**Bargen Ddinesig a Metro De Cymru (Metro)**

2.65 Mae rhanbarth De Ddwyrain Cymru ar fin cychwyn ar gyfnod o newid sylweddol. Ym mis Chwefror 2016, cytunodd y Cyngor y dylai'r awdurdod (trwy gyfrwng yr Arweinydd) lofnodi ymrwymiad ffurfiol i gymryd rhan ym menter y Fargen Ddinesig, rhaglen sy'n werth £1.2 biliwn i adfywio sefyllfa economaidd rhanbarth De Ddwyrain Cymru. Yn dilyn hyn, ym mis Mawrth 2016, llofnodwyd cytundeb y Fargen Ddinesig gan ddeg Arweinydd yr awdurdodau lleol dan sylw, Prif Weinidog Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae'r Fargen Ddinesig yn nodi dull trawsnewidiol ar gyfer y ffordd y bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyflawni maint a natur y buddsoddiad sy'n angenrheidiol er mwyn cynorthwyo cynlluniau twf yr ardal, y mae cyflawni gwelliannau sylweddol i drafnidiaeth gyhoeddus a fydd yn hwyluso dyheadau'r Rhanbarth o ran twf economaidd, yn elfen allweddol ohonynt.

2.66 Mae'r Fargen Ddinesig yn ceisio twf economaidd sylweddol ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC), gyda'r ffocws ar Gaerdydd fel y peiriant economaidd ar gyfer y PRC. Un o'r elfennau allweddol yn y cynigion yw'r Metro, system drafnidiaeth newydd ar gyfer y rhanbarth, a fydd yn trawsnewid y ffordd y mae pobl yn teithio o gwmpas y rhanbarth, gan ddarparu gwasanaethau mwy cyson a chydgysylltiedig gan ddefnyddio trenau, bysiau a'r rheilffordd. Gyda'i gilydd, mae gan y Fargen Ddinesig a'r Metro y potensial i wireddu newidiadau arwyddocaol i'r bwrdeistref sirol yn y dyfodol agos, ac fe allent ddwyn newidiadau eang i economi'r bwrdeistref sirol, y byddai modd eu gwireddu dros gyfnod

cymharol byr.

**Y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth**

2.67 Sefydlwyd y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth (Comisiwn) fel rhan o gytundeb y Fargen Ddinesig rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r deg awdurdod lleol o fewn PRC. Nodwyd cylch gwaith y Comisiwn yng Nghytundeb y Fargen Ddinesig, fel a ganlyn:

- Adolygu'r dystiolaeth am yr ardal economaidd weithredol a rhoi cyngor ynghylch y ffordd orau o sicrhau twf Gwerth Ychwanegol Gros a chynorthwyo uchelgais rhanbarth prifddinas ddynamig mewn Economi Gymreig lwyddiannus.
- Archwilio'r sialensiau a'r cyfleoedd ar gyfer twf economaidd a chystadleuaeth a gwneud argymhellion ynghylch sut y gall PRC wireddu ei photensial llawn o ran sicrhau twf, a chyfrannu cymaint ag y gall i economi Cymru.

*2.68* Yn 2016, cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad a'r argymhellion. Ystyriodd y datblygiad gofodol ar draws rhanbarth y Brifddinas, gan ddod i'r casgliad "*nad yw Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn unffurf; mae'n cynnwys mannau amrywiol, y mae gan bob un ohonynt eu hanes, eu cryfderau, eu sialensiau a'u cyfleoedd arbennig eu hunain."*

*2.69* Argymhellodd ei ganfyddiadau "*Gyda gwahaniaethau mewn perfformiad economaidd a chanlyniadau ar draws y brifddinas-ranbarth, gwelir angen clir i sicrhau y caiff y rhanbarth ei drefnu mewn ffordd ofodol, ac mewn ffordd sy'n sicrhau cymaint o fudd ag y bo modd i breswylwyr*"

2.70 Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r Brifddinas-Ranbarth ddatblygu persbectif gofodol, gan gyd-fynd â'r strategaeth economaidd, sy'n diffinio rolau:

- Caerdydd a Chasnewydd fel canolfannau sefydledig busnes, masnach a sefydliadau, gyda phob un ohonynt yn manteisio ar eu cryfderau penodol;
- Maes Awyr Caerdydd a'r Ardaloedd Menter cysylltiedig;
- Y trefi sy'n codi drachefn megis Pen-y-bont ar Ogwr, Y Barri, Caerffili a Phontypridd, y maent yn newid er mwyn cynnwys gweithgarwch gwerth ychwanegol uchel, poblogaethau preswylwyr o'r newydd a gweithgarwch ehangu gan brifysgolion; a'r
- Cymoedd a threfi gwledig yn maent yn dod yn ganolfannau pwysig yn gynyddol ar gyfer gwasanaethau lleol, mwynderau a'r economi sylfaenol, ac y maent yn datblygu eu rolau ym maes twristiaeth a hamdden.
- Yr amgylchedd yn nhwf ac adfywio y cymoedd, a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau amrediad o fanteision hirbarhaol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a lles.

2.71 Ym mis Ionawr 2018, cytunodd y Cabinet ar y Cyd mewn egwyddor i'r cam o baratoi CDS ar gyfer ardal Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd adroddiad i'w gyflwyno i'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth, a oedd yn ceisio'u cytundeb i gychwyn ar y gwaith ar y CDS. Hyd yn hyn, mae 8 awdurdod lleol wedi cyflwyno'r adroddiad hwn i'w Cynghorau ac mae'r 8 wedi cytuno cychwyn ar y gwaith ar y CDS. Bydd y 2 awdurdod sy'n weddill yn cyflwyno'r adroddiad i'w cynghorau nhw yn gynnar yn 2020.

**Cynllun Datblygu Strategol**

2.72 Mater allweddol sy'n deillio o'r gwaith a gyflawnwyd mewn perthynas â'r Fargen Ddinesig yw'r potensial i gael cynllun datblygu ar lefel ranbarthol, CDS. Mae'r Ddeddf Gynllunio yn

gwneud darpariaeth ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

2.73 Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y darpariaethau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol [CbC] ar gyfer Rhanbarthau dynodedig yng Nghymru. Roedd y Rhanbarthau i gael eu diffinio gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (Cymru'r Dyfodol 2040) ac un o gyfrifoldebau'r CbC yw paratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer eu rhanbarth. Mae Cymru'r Dyfodol 2040 yn nodi De Ddwyrain Cymru fel un o'r rhanbarthau yng Nghymru ac, o'r herwydd, bydd CbC y rhanbarth yn gyfrifol am gyflawni'r CDS.

2.74 Er y bydd yn cymryd amser i sefydlu'r CbC a dechrau paratoi CDS, bydd angen i'r CDLlR2 sicrhau ei fod yn monitro'r sefyllfa gyda'r CDS a'i fod yn sicrhau, cyn belled ag sy'n ymarferol, ei fod yn cydymffurfio'n gyffredinol ag ef.

## Casgliad

2.75 Er y bu newidiadau sylweddol ers y mabwysiadwyd y CDLl, nid yw'r newidiadau wedi cael effaith uniongyrchol ar y fframwaith polisi presennol ac o ganlyniad, nid oes gofyniad i adolygu'r CDLl sy'n deillio o'r newidiadau polisi.

2.76 Mae'r Ddeddf Llesiant wedi gwneud newidiadau radical i'r ffordd y mae awdurdodau lleol, a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, yn gweithredu, yn rhyngweithio ac y darparu ei wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn seiliedig ar weithdrefnau yn gyffredinol, ac o ganlyniad, nid ydynt yn ôl-weithredol. O ganlyniad, nid yw'r Ddeddf Llesiant yn cael effaith uniongyrchol ar bolisi CDLl, ac mae'n effeithio ar y prosesau er mwyn ei gweithredu yn unig.

2.77 Fodd bynnag, er y nodir nad yw'r angen i adolygu'r CDLl yn deillio o'r newidiadau, mae'r sefyllfa wedi newid yn sylweddol ers y mabwysiadwyd y CDLl a bydd angen ystyried y newidiadau hyn a rhoi sylw iddynt trwy broses yr Adolygiad o CDLl.

## 3. Monitro Blynyddol

3.1 Mae'n ofyniad statudol bod pob awdurdod cynllunio lleol yn monitro cyflawniad eu CDLl trwy gyfrwng adroddiadau monitro blynyddol (AMBau). Prif nod yr AMB yw asesu'r graddau y cyflawnir y Strategaeth a Pholisïau Strategaeth y CDLl. Felly, mae ganddo ddau brif rôl; yn gyntaf, ystyried a gaiff y polisïau a nodir yn y broses fonitro eu gweithredu mewn ffordd lwyddiannus; ac yn ail, ystyried y cynllun yn ei gyfanrwydd yn erbyn yr holl wybodaeth a gasglwyd er mwyn pennu a oes angen cynnal adolygiad cyflawn neu rannol o'r cynllun.

3.2 Er mwyn ystyried a gaiff y strategaeth ei gweithredu mewn ffordd lwyddiannus neu beidio, caiff polisïau strategol CDLl, y dylent gyflawni yn erbyn y strategaeth, eu monitro trwy ystyried nifer o ddangosyddion sy'n ymwneud â phob polisi. Gan bod y polisïau strategol yn gymhleth, mae gofyn cael mwy nag un dangosydd er mwyn monitro pob polisi, gyda phob dangosydd yn monitro elfen benodol o fewn y cyd-destun polisi cyffredinol. Mae rhai o'r dangosyddion yn monitro cyflawniad y polisi dros gyfnod y cynllun ac a yw'n bodloni ei drywydd a ragwelwyd ac mae eraill yn monitro pa mor bell y caiff polisi ei gyflawni o'i norm disgwyliedig. Lle y mae polisïau wedi gwyro mewn ffordd sylweddol o'u norm disgwyliedig a chyrraedd eu trothwy, mae'r AMB yn cynnwys ystyriaeth o'r cwestiwn a yw'r polisi hwnnw yn cael ei gyflawni mewn ffordd briodol neu beidio, ac a yw'n ddigonol er mwyn mynnu adolygiad o'r CDLl. Yn ogystal, ceir gofyniad i fonitro effeithiau gweithrediad y CDLl ar yr amgylchedd dan ofynion y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Asesu Effeithiau Cynlluniau a Rhaglenni Penodol ar yr Amgylchedd [Cyfarwyddeb AAS]. Caiff hyn ei fonitro trwy ddangosyddion sy'n deillio o'r dangosyddion cynaliadwyedd a nodir yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd [AAS/AoG]. Caiff monitro AAS/AoG ei gynnwys yn yr AMB bob blwyddyn hefyd.

3.3 Bydd yr adran hon yn ystyried y materion sy'n deillio o'r AMB mwyaf diweddar, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019 ac a oedd yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Sylwch, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.17 yn flaenorol, hepgorwyd y gofyniad i baratoi adroddiad monitro ar gyfer 2020 gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae AMB 2019 yn parhau i fod yr adroddiad monitro blynyddol mwyaf diweddar ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a bydd yr adroddiad hwn yn adolygu monitro blynyddol ar sail yr AMB hwnnw. Dylid nodi bod y datganiad cyflenwi tai y cytunwyd arno gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2020 yn cynnwys yr un argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg mewn cyflenwi tai a oedd wedi'i gynnwys yn AMB 2019.

3.4 Dylid nodi hefyd, ar yr adeg y paratowyd AMB 2019, nad oedd y newidiadau i TAN1 a dirymiad y gofyniad a'r polisi cyflenwad tir 5 mlynedd wedi'u gwneud ac felly dyma'r ystyriaethau ar gyfer yr adroddiad hwnnw.

### Polisïau Strategol ac Amcanion CDLl

3.5 Er y bu 8 AMB blaenorol, yr AMB mwyaf diweddar (2019) yw'r un mwyaf perthnasol ar gyfer yr Adroddiad Adolygu gan ei fod yn cyfleu'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r CDLl Mabwysiedig. Dylid nodi bod AMB 2013, a gynhyrchwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013, wedi dod i'r casgliad, er bod Strategaeth Ddatblygu CDLl yn parhau i fod yn gadarn, byddai'r angen i roi sylw i'r cyflenwad tir ar gyfer tai a'r gofyniad am safleoedd newydd yn rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, yn golygu y byddai gofyn newid y polisi Mabwysiedig ac y dylid diwygio'r cynllun.

3.6 Cychwynnwyd ar y gwaith o adolygu'r Cynllun Mabwysiedig yn 2013 a chyhoeddwyd ac ymgynghorwyd am ddogfennau CDLl Newydd Adneuo a'r Strategaeth a Ffefrir. Yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ar 19 Gorffennaf 2016, penderfynodd y Cyngor dynnu'r CDLl Newydd yn ôl (yn unol â chymeradwyaeth Gweinidogion), a cheisio cefnogaeth i'r cam o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS) ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gynnar. O ganlyniad, tynnodd y cyngor y diwygiad o'r CDLl Mabwysiedig yn ôl, a chadwodd

y CDLl Mabwysiedig cyfredol er mwyn pennu'r defnydd o dir ac adeiladu yn y bwrdeistref sirol yn y dyfodol. Trwy wneud hyn, mae'n bwysig deall y polisïau hynny sy'n effeithiol a deall pa bolisïau nad ydynt yn effeithiol.

3.7 Mae'r CDLl Mabwysiedig yn nodi 22 o Bolisïau Strategol y bwriedir iddynt gyflawni strategaeth y cynllun a gwireddu gweledigaeth y cynllun. Y polisïau hyn a gaiff eu monitro er mwyn pennu a gaiff y strategaeth ei gweithredu. Canfu AMB 2019, am y tro cyntaf ers y'i mabwysiadwyd, y nodir bod dros hanner y polisïau strategol heb fod yn cyflawni fel y disgwyl. Nodwyd bod un ar ddeg o'r polisïau heb fod yn cyflawni fel y disgwyl, ond nad oe gofyn ymyrryd, a nodir bod 2 o'r polisïau yn methu cyflawni a bod gofyn ymyrryd. Mae Tabl 1 isod yn nodi perfformiad cymharol y Polisïau Strategol, ac mae Atodiad 1 yn nodi perfformiad y polisïau ac yn cynnig esboniad o'r camau y mae gofyn eu cymryd a pham.

| | **Polisi Strategol** | **Perfformiad** |
|---|---|---|
| SP1 | Datblygiad yn yr HOVRA | [green] |
| SP2 | Datblygiad yn yr NCC | [amber] |
| SP3 | Datblygiad yn yr SCC | [amber] |
| SP4 | Strategaeth Aneddiadau | [amber] |
| SP5 | Ffiniau Aneddiadau | [amber] |
| SP6 | Creu Lleoedd | [green] |
| SP7 | Rhwymedigaethau Cynllunio | [green] |
| SP8 | Diogelu Mwynau | [amber] |
| SP9 | Rheoli Gwastraff | [green] |
| SP10 | Cadwraeth Treftadaeth Naturiol | [amber] |
| SP11 | Hamdden yng Nghefn Gwlad | [green] |
| SP12 | Datblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd | [green] |
| SP13 | Canolfan Hamdden yn yr HOVRA | [green] |
| SP14 | Cyfanswm y Gofynion Tai | [red] |
| SP15 | Targed Tai Fforddiadwy | [red] |
| SP16 | Rheoli Twf Cyflogaeth | [amber] |
| SP17 | Hyrwyddo Datblygiad Masnachol | [amber] |
| SP18 | Diogelu'r Rhwydwaith Hamdden Strategol | [amber] |
| SP19 | Gwella'r Seilwaith Trafnidiaeth | [amber] |
| SP20 | Hierarchaeth Ffyrdd | [amber] |
| SP21 | Safonau Parcio | [green] |
| SP22 | Cyfleusterau Cymunedol, Hamdden ac Addysg | [green] |

**ALLWEDD**

| | |
|---|---|
| [green] | Cyflawnir neu rhagorir ar y polisi. Nid oes gofyn ymyrryd. |
| [amber] | Nid yw'r polisi yn cyflawni fel y disgwyl, ond mae'n cyflawni mewn ffordd ddigonol ac nid oes gofyn cynnal mesurau ymyrryd. |
| [red] | Mae'r polisi yn methu cyflawni fel y disgwyl a dylid ystyried mesurau ymyrryd. |

***Table 1: Perfformiad Polisïau (AMB 2019)***

3.8 Mae Tabl 1, uchod, yn nodi dau Bolisi Strategol nad ydynt yn cael eu gweithredu fel y disgwyl ac y maent yn gwyro i bwynt lle y dylid cynnal mesurau ymyrraeth. Mae'r polisïau, SP14 – Cyfanswm y Gofynion Tai ac SP15 – Targed Tai Fforddiadwy, yn ymwneud â darparu tai er mwyn bodloni'r anghenion i'r boblogaeth ragamcanol yn 2021. Mae'r polisïau hyn yn methu o ganlyniad i'r ffaith bod yr un ffactorau yn cronni, sef y canlynol yn benodol:

- cyfraddau adeiladu tai sy'n isel,
- buddsoddiad gwrth-risg, a
- ffigurau cyflenwi tir ar gyfer tai isel iawn.

3.9 Er mwyn ystyried yn llawn a yw strategaeth y cynllun yn cael ei gweithredu, mae angen ystyried hefyd a yw Amcanion y CDLl yn cael eu cyflawni. Mae Atodiad 2 yn nodi perfformiad y polisïau yn erbyn amcanion CDLl. Mae'r CDLl yn cynnwys 24 o Amcanion sy'n nodi'r hyn y bydd y CDLl yn ei gyflawni erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae Atodiad 2 yn nodi bod 14 o'r 24 Amcan yn cael eu cyflawni yn ôl y disgwyl, gan ddynodi bod y rhan fwyaf o strategaeth CDLl yn cael ei chyflawni yn ôl y disgwyl. Yna, mae'n nodi 7 Amcan nad ydynt yn cael eu cyflawni yn ôl y disgwyl, ond y bu cynnydd wrth geisio eu cyflawni. Nid oes gofyn cynnal mesurau ymyrryd ar gyfer yr Amcanion hyn oherwydd y gallai cynnydd parhaus wireddu eu cyflawniad erbyn diwedd cyfnod y cynllun.

3.10 Yn olaf, mae Atodiad 2 yn nodi 3 Amcan nad ydynt yn cael eu cyflawni fel y disgwyl. Nodwyd bod Amcan 9, sy'n rhoi sylw i ddarparu tai, heb fod yn cael ei gyflawni. Er y darparwyd ychydig dros 50% o gyfanswm y gofyniad tai hyd yn hyn, nid yw hyn mor uchel â'r gyfradd a ragwelwyd, gan mai dim ond dwy flynedd o'r cynllun sydd ar ôl. Ymhellach, nid oes gan y Cyngor y cyflenwad tir gofynnol am dai am bum mlynedd. Mae hon yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau tai ac mae wedi arwain at ganiatáu nifer o geisadau tai ar apêl, mewn lleoliadau sy'n mynd yn groes i'r CDLl.

3.11 Nodwyd hefyd nad yw Amcan 17, sy'n rhoi sylw i rôl Caerffili fel canolfan fasnachol a chyflogaeth, ac Amcan 18 ynghylch darparu a diogelu portffolio amrywiol o dir cyflogaeth ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd cyflogaeth, yn cyflawni, oherwydd cyfanswm bach y tir y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo at ddefnydd cyflogaeth a'r ffaith nad oedd unrhyw safleoedd cyflogaeth dynodedig wedi cael eu datblygu at ddefnydd cyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro.

## <u>Canfyddiadau Cyffredinol y gwaith Monitro Polisi</u>

3.12 Er mwyn ystyried yn llawn a gaiff y CDLl ei weithredu mewn ffordd briodol neu beidio, mae'r fframwaith monitro ar gyfer y CDLl yn monitro cynnydd wrth gyflawni'r polisïau a hefyd, mae'n monitro ffactorau y gallent ddynodi bod y dystiolaeth a gyfrannodd at y gwaith o baratoi'r CDLl wedi dyddio, ac y byddai angen ei hystyried eto, e.e. y dystiolaeth hyfywedd a gyfrannodd at y targedau ynghylch tai fforddiadwy. Ceir 80 o ddangosyddion yn y fframwaith monitro, a gyda'i gilydd, maent yn darparu trosolwg o'r sefyllfa bresennol o ran y CDLl. Mae prif ganfyddiadau AMB 2019 fel a ganlyn:

- Mae'r gyfradd adeiladu tai flynyddol yn yr AMB hwn wedi gostwng eleni o 284 uned i 190 uned (ar sail ffigurau Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018).
- Mae'r ffigwr cyflenwad tir ar gyfer tai wedi codi o 2.1 blwyddyn i 2.3 blwyddyn gan ddefnyddio'r dull gweddilliol, ar ôl i sawl cais tai mawr gael eu cymeradwyo. (Dylid nodi bod yr AMB yn defnyddio'r data o JHLAS y flwyddyn flaenorol, o ganlyniad i'r ffaith y cytunir ar y JHLAS ar ôl paratoi'r data ar gyfer Adroddiad AMB fel arfer. Felly, mae AMB 2019 yn defnyddio gwybodaeth JHLAS 2018 sy'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 mewn gwirionedd. Cytunwyd ar JHLAS 2019 yn ddiweddar ac mae'r cyflenwad tir ar gyfer tai wedi gostwng i 2.0 blwyddyn. Mae hwn yn parhau i fod lawer yn is na'r gofyniad 5 mlynedd. Adlewyrchir y ffigwr hwn yn AMB 2019)
- Roedd y pris tŷ cyfartalog ar gyfer y bwrdeistref sirol wedi codi 2% o £129,928 I £132,469.
- Roedd y gyfradd ddiweithdra flynyddol wedi gostwng o 6.2% i 5.2%.

- Roedd nifer y preswylwyr mewn cyflogaeth wedi codi o 80,700 i 81,900.
- Dyfarnwyd caniatâd cynllunio i 12 hectar pellach o dir cyflogaeth.
- O ran canol y prif drefi, dim ond yng Nghaerffili a Rhisga-Pont-y-meistr y gwelir cyfradd wacter sy'n is na 10% a gwelwyd y cyfraddau gwacter yn y ddwy dref yn gostwng i'r lefelau isaf a welwyd ers y mabwysiadwyd y CDLl. Gwelwyd cynnydd mewn cyfraddau gwacter yn y Coed-duon, Bargoed ac Ystrad Mynach.
- Yn y dair prif dref sy'n cynnwys peiriannau cyfrif nifer yr ymwelwyr (Caerffili, Coed-duon, Bargoed), gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yng Nghaerffili a'r Coed-duon. Fodd bynnag, roedd data blwyddyn yr AMB blaenorol yn cynnwys cyfnod o chwe wythnos pan nad oedd y peiriannau cyfrif yn gweithio, felly ni ellir cymharu'r data yn uniongyrchol. Mae'r ffigurau yn Bargoed wedi gostwng, ond roedd hyn i'w ddisgwyl gan mai un camera cyfrif nifer yr ymwelwyr sydd yn y dref nawr, yn hytrach na dau.
- Gwelwyd cynnydd pellach yn nifer yr ymwelwyr â chyfleusterau hamdden yng nghefn gwlad i 1.5 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn, ac mae'r ganran bodlonrwydd cwsmeriaid wedi codi o 75% i 85%.

## Monitro AAS/AoG

3.13 Mae'n ofyniad statudol bod y CDLl yn destun AAS/AoG fel rhan o'r gwaith o'i baratoi. Mae Cyfarwyddeb AAS yn mynnu bod y CDLl yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol ac mae deddfwriaeth genedlaethol yn mynnu bod CDLlau yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd. Yn ogystal â mynnu asesiad AAS o'r CDLl yn ystod y gwaith o'i baratoi, mae Cyfarwyddeb AAS yn mynnu hefyd bod effeithiau gweithredu'r cynllun ar yr amgylchedd yn cael eu monitro bob blwyddyn, a'i fod yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad AMB.

3.14 Mae monitro AAS yn wahanol i fonitro CDLl gan ei fod yn monitro cyflwr yr amgylchedd yn hytrach na pherfformiad y CDLl. Effeithir ar gyflwr yr amgylchedd gan gymaint o bethau, y mae dim ond rhai ohonynt o fewn cylch gwaith y CDLl. O ganlyniad, wrth baratoi'r CDLl, mae'r AAS/AoG yn cwmpasu cyflwr yr amgylchedd er mwyn nodi materion perthnasol. Yna, caiff y materion hyn eu trefnu yn gyfres o ddangosyddion sy'n darparu gwybodaeth am y materion a nodwyd, a nodir 25 o amcanion cynaliadwyedd, gan nodi'r targed i'w gyflawni erbyn dyddiad gorffen y CDLl. Defnyddir y dangosyddion i asesu'r CDLl, ac mae'r Amcanion Cynaliadwyedd yn cynnig sylfaen er mwyn monitro cyflwr yr amgylchedd yn ystod cyfnod y cynlln.

3.15 Wrth gynnal gwaith monitro AAS bob blwyddyn, ystyrir y dangosyddion yn erbyn eu targedau ac a oes cynnydd yn cael ei sicrhau er mwyn eu cyflawni. Felly, at ddibenion yr adroddiad hwn, y brif ystyriaeth yw sut y mae cyflwr yr amgylchedd yn yr AMB diwethaf yn wahanol i'r hyn ydoedd ar ddechrau'r cyfnod, gan bod hyn yn darparu'r newidiadau hirdymor a'r tueddiadau cyffredinol sy'n digwydd, yn hytrach na newidiadau blynyddol, y mae problemau gyda'r data yn gallu effeithio'n fawr arnynt.

3.16 Mae'r canlyniadau cyffredinol yn dangos canlyniad cytbwys – er bod nifer gyffredinol y negyddion dwbl wedi cynyddu ers y llynedd, ceir negyddion unigol nawr. Mae'r holl ddangosyddion a gofnodwyd fel rhai negyddol eleni wedi bod yn negyddol yn flaenorol mewn o leiaf un adroddiad AMB arall. Nid oes unrhyw rai wedi bod yn negyddol yn gyson ers dechrau cyfnod y cynllun; gwelwyd amrywiad arwyddocaol dros y blynyddoedd. Nodir y canlyniadau blynyddol yn y Tabl yn Atodiad 3.

## Materion yn Codi o'r gwaith Monitro Blynyddol

3.17 Ceir materion allweddol a nodwyd trwy'r broses AMB – methiant y polisïau tai i ddarparu tai,

gan gynnwys tai fforddiadwy, a'r pryderon sylweddol ynghylch argaeledd tir at ddibenion cyflogaeth yn y dyfodol er mwyn bodloni anghenion buddsoddwyr, sy'n gysylltiedig gyda'r dyheadau rhanbarthol ehangach ar gyfer ffyniant a thwf economaidd.

## 4. Y Dystiolaeth

4.1 Seiliwyd y CDLl ar wybodaeth helaeth, ac mae'n creu tystiolaeth y CDLl, sy'n nodi'r cefndir a'r rhesymau dros gael strategaeth CDLl a'i fframwaith polisi. Mae'r dystiolaeth yn dwyn gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau ac efallai nas adlewyrchir newidiadau yn y wybodaeth hon ym mherfformiad y CDLl yn uniongyrchol. Fodd bynnag, gallai newidiadau o'r fath gael goblygiadau mawr i'r fframwaith polisi, ac o ganlyniad, mae angen ystyried newidiadau i'r dystiolaeth er mwyn pennu a ydynt yn rhai arwyddocaol i'r CDLl, gan ystyried a oes gofyn Adolygu'r cynllun.

4.2 Gan bod y Cyngor wedi penderfynu cynnal adolygiad llawn o'r CDLl, bydd angen adolygu'r holl dystiolaeth a'i diweddaru. Er y bydd angen adolygu'r dystiolaeth gyfan, ystyrir y prif faterion sy'n ymwneud â'r pynciau defnydd tir isod, ynghyd â'r hyn y mae angen ei wneud perthynas â holl rannau perthnasol y dystiolaeth.

### Poblogaeth a Thai

**Amcanestyniadau Poblogaeth**

4.3 Amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-ranbarthol wedi'u seilio ar 2003 gan LlC oedd y 'man cychwyn' a gyfrannodd at y rhagdybiaethau ynghylch poblogaeth ac aelwydydd yn y CDLl. Fodd bynnag, ar yr adeg pan baratowyd sefyllfaoedd twf, dynododd PCC fod awdurdodau lleol yn gallu gwyro o'r amcanestyniadau hyn lle y gallent gyfiawnhau eu hamcanestyniadau eu hunain wedi'u seilio ar bolisi. Mae'r CDLl yn seiliedig ar sefyllfa lle y gwelir twf cymedrol.

4.4 Ers y paratowyd y CDLl, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o setiau eraill o amcanestyniadau – yn seiliedig ar 2006, 2008, 2011, ac yn fwyaf diweddar, ar amcanestyniadau poblogaeth a thai 2014.

4.5 Dylid nodi bod yr amcanestyniadau yn seiliedig ar dueddiadau, felly nid ydynt yn ystyried effeithiau polisïau llywodraeth leol neu ganolog neu ffactorau cymdeithasol-economaidd ar lefelau poblogaeth yn y dyfodol, dosbarthiad a newid neu gyfansoddiad aelwydydd, a dim ond yr hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol os bydd y rhagdybiaethau wedi'u seilio ar dueddiadau yn dod yn wir, y maent yn ei ddynodi.

4.6 O ran yr amcanestyniadau wedi'u seilio ar 2011, ysgrifennodd y Gweinidog Tai ac Adfywio ar y pryd at awdurdodau lleol yn amlygu'r angen i fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r amcanestyniadau, yn enwedig o ystyried y ffaith y byddai eu natur sy'n seiliedig ar dueddiadau yn cynnwys rhagdybiaethau wedi'u seilio ar y tueddiadau pum mlynedd blaenorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod egwyddorion y llythyr hwn yn berthnasol o hyd ar gyfer yr amcanestyniadau wedi'u seilio ar 2014, gan amlygu'r ffaith bod yn rhaid i'r gofynion tai yn y CDLl fod yn seiliedig ar yr holl ffynonellau gwybodaeth, yn hytrach na dibynnu ar yr amcanestyniadau yn unig.

4.7 Mae amcanestyniadau poblogaeth 2014 yn dangos lefel twf isel yn ystod y cyfnod tan 2030, cyn i faint y boblogaeth ddechrau lleihau. Disgwylir i'r twf ym maint y boblogaeth fod o ganlyniad i newid naturiol, gyda lefel fudo negyddol (disgwylir i fwy o fudwyr rhyngwladol a mewnol symud allan na symud i mewn). Ymhellach, mae'r amcanestyniadau yn dynodi y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n 65 oed a throsodd. I'r gwrthwyneb, disgwylir i faint y boblogaeth economaidd weithgar ac 15 oed ac iau leihau.

4.8 Mae'r amcanestyniadau yn dangos poblogaeth sy'n lleihau, a gostyngiad sylweddol ym maint y boblogaeth oedran gweithio. Mae hyn yn wahanol iawn i'r amcanestyniadau poblogaeth a ddefnyddiwyd i gyfrannu at y CDLl. Bydd angen i unrhyw adolygiad o'r CDLl ystyried y materion hyn a rhoi sylw iddynt.

4.9 Ers y mabwysiadwyd y CDLl, mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) wedi cael ei ddiwygio sawl gwaith mewn perthynas â Phoblogaeth a Thai. Mae PCC yn cydnabod bod yr amcanestyniadau ynghylch aelwydydd yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth. O bersbectif yr amcanestyniadau, mae'r pwyslais wedi newid o'r amcanestyniadau tai yn creu'r "man cychwyn er mwyn asesu gofynion tai" i "fod yn rhan sylfaenol o dystiolaeth y cynllun, gyda materion allweddol eraill megis yr hyn y mae'r cynllun yn ceisio'i gyflawni, cysylltiadau rhwng cartrefi a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, darpariaethau strategaethau corfforaethol a'r gallu i gyflawni'r cynllun." Bydd angen i unrhyw adolygiad o'r CDLl ystyried amrediad o ffactorau wrth bennu lefel y twf yn y dyfodol.

4.10 Dwy elfen allweddol o'r dystiolaeth y seilir pwnc tai arnynt yw'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr. Bydd angen diwygio'r ddau asesiad hwn er mwyn darparu'r dystiolaeth ddiweddaraf a thystiolaeth gadarn ar gyfer yr Adolygiad o CDLl.

**Targedau Tai Fforddiadwy**

4.11 Roedd Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy [AHVA] wedi cyfrannu at y polisïau tai fforddiadwy yn y CDLl, a oedd wedi profi safleoedd 1 hectar tybiannol mewn nifer o ardaloedd marchnad, gan lunio rhagdybiaethau ynghylch: cymysgedd y tai, y math o dai fforddiadwy, gwerthoedd gwerthu, costau datblygu, elw datblygwyr a gwerth tir. Dwy o'r prif elfennau yn yr asesiad hwn oedd gwerth tir, sy'n gost i hyfywedd datblygu, a phrisiau tai, y maent yn refeniw ar gyfer hyfywedd datblygu. Gall newidiadau i'r ddau werth hwn gael goblygiadau arwyddocaol iawn i hyfywedd datblygu ac ar gyfer lefel y tai fforddiadwy y gellir ei chyflawni trwy'r system gynllunio.

4.12 Yn hanesyddol, mae gwerth tir yn rhywbeth anodd i'w fonitro, gan na ddatgelir gwerthoedd prynu tir ac maent yn amrywiadwy o ganlyniad i nifer fawr o ffactorau. O ganlyniad, nid yw'r fframwaith monitro yn cynnwys dangosyddion sy'n ymwneud â gwerth tir. Mae prisiau tai, ar y llaw arall, yn hysbys ac yn cael eu cyhoeddi, ac mae'r fframwaith monitro yn cynnwys dangosydd am brisiau tai. Mae'n ddiddorol gweld bod prisiau tai wedi codi'n sylweddol, i'r pwynt lle y cyrhaeddwyd trothwy y Dangosydd am y tro cyntaf yn AMB 2017. Er mwyn sicrhau bod y targed ynghylch tai fforddiadwy yn rhesymol, cynhaliwyd profion sensitifrwydd ar yr AHTFf, yr oeddent yn pennu effeithiau amrywiadau yn y rhagdybiaethau y seilir yr asesiad arnynt. Roedd y profion sensitifrwydd yn cynnwys newid mewn prisiau tai a phennwyd y trothwy ar gyfer y dangosydd hwn wrth bennau y profion sensitifrwydd, lle nad oedd newidiadau i brisiau tai yn tanseilio'r targed. Mae'r ffaith bod y dangosydd hwn wedi cyrraedd ei drothwy ar ben uchel y raddfa yn golygu bod codiad mewn prisiau tai wedi digwydd, y gallent danseilio'r targed ynghylch tai fforddiadwy (h.y. mewn rhai ardaloedd, gallai swm y tai fforddiadwy y byddai'n hyfyw eu darparu, fod yn uwch na'r targedau yn y cynllun). Fodd bynnag, rhaid nodi bod nifer o ffactorau eraill y gallent liniaru yn erbyn y codiad mewn prisiau tai, sy'n golygu bod y targed yn briodol o hyd.

4.13 Bydd angen adolygu ac ail-asesu'r targed tai Fforddiadwy, ynghyd â'i dystiolaeth ategol ynghylch hyfywedd, fel rhan o unrhyw adolygiad o'r CDLl.

**Agenda Rhanbartholi**

*<u>Materion Rhanbarthol</u>*

4.14 O ystyried y ffaith mai dim ond rhan o'r dystiolaeth yw amcanestyniadau LlC, ac na fwriedir iddynt bennu lefelau twf, neu ddosbarthiad twf gofodol hyd yn oed, ceir cwmpas ar gyfer cyd-destun rhanbarthol a fyddai'n pennu paramedrau cyffredinol, y byddai angen i gynlluniau lleol eu gwireddu mewn ffordd gronnus. Byddai hyn yn caniatáu i'r lefel strategol ystyried dosbarthiad twf gofodol rhanbarthol, a fyddai'n ategu uchelgais y Fargen Ddinesig a Thasglu'r Cymoedd.

4.15 Mae PCC yn cynghori bod "Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn darparu'r dystiolaeth sy'n

cynorthwyo polisïau i ddarparu tai fforddiadwy trwy gyfrwng y system cynllunio defnydd tir". Mae canllawiau ynghylch cynhyrchu asesiadau o'r farchnad dai leol yn mynnu y dylai ystyriaeth o faterion tai fod yn seiliedig ar yr ardaloedd tai bras, yn hytrach na ffiniau gweinyddol awdurdodau lleol. Ni chaiff marchnadoedd tai eu cyfyngu i ffiniau awdurdodau lleol ac maent yn cynnwys ardaloedd mawr, yn aml wedi'u lleoli o fewn dau awdurdod neu fwy.

4.16 Byddai gweithredu ar lefel ranbarthol yn cynorthwyo i ystyried y marchnadoedd tai ar draws y PRC, a allai arwain at system fwy unffurf o dargedau tai fforddiadwy ar draws y rhanbarth. Gallai ystyriaeth o'r fath, fodd bynnag, gael ei thanseilio gan daliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol lleol, y gallent gael effaith fawr ar hyfywedd safleoedd rhwng ardaloedd awdurdodau lleol o fewn yr un ardal marchnad tai, oni bai bod CIL yn cael ei ranbartholi hefyd. Byddai hyn yn annhebygol, fodd bynnag, gan nad yw pob cyngor wedi symud i fabwysiadu Amserlenni Codi Tâl ar gyfer CIL, a byddai'n annhebygol y byddai'r awdurdodau hynny yn symud i CIL rhanbarthol nawr.

*Cydweithio*

4.17 Ar hyn o bryd, mae'r amcanestyniadau poblogaeth a thai y seiliwyd y cynlluniau mabwysiedig arnynt, yn seiliedig ar ragdybiaethau lleol y bydd amgylchiadau lleol a dyheadau gwahanol weinyddiaethau yn dylanwadu arnynt. Er bod cydweithio ar draws awdurdodau lleol yn bosibl, ceir materion arwyddocaol ynghylch cysondeb amcanion a nodau rhwng awdurdodau, y gallent beri problemau ar gyfer gwaith o'r fath, yn enwedig pan fydd gan awdurdodau safbwyntiau gwahanol ynghylch lefel y twf y dylid ei derbyn.

4.18 Mae'r sefyllfa yn debyg mewn perthynas â thai. Er bod ardaloedd marchnadoedd tai yn ymestyn ar draws ffiniau awdurdodau lleol, nid ydynt yn eu hadlewyrchu. O ganlyniad, er bod rhai awdurdodau cyfagos yn rhannu rhai ardaloedd marchnad tai efallai, maent yn rhannu eraill gydag awdurdodau eraill hefyd. Dim ond yn rhannol y bydd dull gweithredu ar y cyd yn gallu rhoi sylw i faterion trawsffiniol.

## Cyflogaeth

### Datblygu Cyflogaeth

4.19 Mae'r CDLl yn neilltuo 101.9 hectar o dir at ddefnydd cyflogaeth, y mae 25.7 hectar wedi cael eu datblygu at ddibenion cyflogaeth. Er mai dim ond 25.5% o'r tir a neilltuwyd sydd wedi cael ei ddatblygu, mae darpar ddeiliaid yn parhau i fynegi diddordeb yn Oakdale Plateau 1 ac mae Tŷ Du yn Nelson wedi sicrhau caniatâd cynllunio yn ddiweddar ar gyfer datblygiad defnydd cymysg, a disgwylir i'r gwaith gychwyn ar y safle yn gynnar yn 2020.

4.20 Mae'r CDLl mabwysiedig yn neilltuo tri safle ym Masn Caerffili. Hyd yn hyn, adeiladwyd un o'r safleoedd hyn (Ystad Ddiwydiannol y Gorllewin) ac mae safle pellach (Parc Busnes Caerffili) wedi cael ei ddatblygu'n rhannol. Felly, mae'r tir sydd ar gael ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd ym Masn Caerffili yn gyfyngedig iawn. Er bod cyfleoedd i ailddatblygu ar ystadau diwydiannol sy'n bodoli eisoes, mae diffyg unrhyw safleoedd arwyddocaol ar gyfer twf cyflogaeth yn bryder o bersbectif strategol, o ganlyniad i'r ffaith bod y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd De Cymru wedi nodi bod Caerffili ac Ystrad Mynach yn 'ganolfan strategol'.

4.21 Ceir tir cyflogaeth o hyd mewn rhannau eraill o'r Bwrdeistref Sirol, gan gynnwys Oakdale Plateaux 1, 2 a 4, Blaenau'r Cymoedd, Gogledd Parc Hawtin, De Duffryn a Trecenydd. Ceir tir ar gyfer datblygiadau ac ailddatblygiadau ar raddfa lai hefyd mewn ystadau diwydiannol sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, yng ngoleuni datblygiadau sydd wedi digwydd yn ystod cyfnod y cynllun hyd yn hyn, mae amrywiaeth ac amrediad y safleoedd neilltuedig sydd ar ôl yn gyfyngedig, a byddai'n amserol ailystyried a yw'r rhain yn parhau i fodloni anghenion y gymuned fusnes. Mae'r gostyngiad yn nifer yr achosion lle y rhoddwyd caniatâd ar gyfer cyflogaeth

B1/B2/B8 eleni, ynghyd â'r cyfraddau cyflawni isel dros y dair blynedd ddiwethaf, yn codi pryderon na cheir amrediad ac amrywiaeth y safleoedd mwyach er mwyn bodloni anghenion yn y dyfodol. Mae hyn yn hollbwysig mewn perthynas ag uchelgais ranbarthol, lle y mae'r Fargen Ddinesig yn ceisio darparu 25,000 o swyddi yn y rhanbarth; mae angen neilltuo tir er mwyn hwyluso hyn.

4.22 Mae asesiad mwy nag asesiad lleol o'r farchnad economaidd ac asesiad o dir cyflogaeth sy'n bodoli eisoes a rhagolygon ynghylch gofynion tir cyflogaeth yn y dyfodol, yn elfennau allweddol o'r dystiolaeth mewn perthynas â chyflogaeth. Bydd angen ailystyried y ddau fel rhan o'r Adolygiad o'r CDLl.

**Strwythur Economaidd**

4.23 O'i chymharu â'r PRC a Chymru gyfan, mae cyfran gymharol isel o breswylwyr y bwrdeistref sirol yn cael eu cyflogi mewn swyddi rheoli a phroffesiynol uwch. I'r gwrthwyneb, cyflogir canran uwch o breswylwyr y bwrdeistref sirol mewn swyddi lefel canol.

4.24 Cyflogir tri deg y cant o weithlu'r bwrdeistref sirol yn y sector cyhoeddus (gweinyddu cyhoeddus, addysg ac iechyd), sy'n is na'r gyfradd ar gyfer De Ddwyrain Cymru. Mae gweithgynhyrchu, ar y llaw arall, yn cyflogi 22.9% o'r gweithlu, sydd fwy na dwywaith y gyfradd ar gyfer De Ddwyrain Cymru. Mae gan y bwrdeistref sirol is-sectorau gweithgynhyrchu arbennig o gryf, sef bwyd, plastigau a chynhyrchion papur.

4.25 Bydd angen i unrhyw adolygiad o'r CDLl adlewyrchu'r strwythur economaidd wrth nodi a neilltuo safleoedd cyflogaeth cynaliadwy ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol.

**Cymudo**

4.26 Mae bwrdeistref sirol Caerffili yn cynnwys un o'r cyfraddau cymudo allan uchaf yng Nghymru, gydag ychydig yn llai na 41,000 o deithiau ar gyfer cyflogaeth y tu allan i'r bwrdeistref sirol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r car fel eu ffordd o deithio. Mae data monitro yn nodi tuedd gyffredinol lle y mae lefelau cymudo allan yn codi, gyda chymudo allan yn uwch na 50% o gyfanswm teithio preswylwyr i'r gwaith yn AMBau 2016, 2017 a 2019. Gwelir gweithgarwch cymudo i mewn sylweddol bob dydd hefyd, a'r ffigwr yn AMB 2019 oedd 17,400 o deithiau i mewn i'r bwrdeistref sirol o awdurdodau eraill.

4.27 Mae lefel y cymudo, a'r ffaith bod y mwyafrif helaeth yn defnyddio'r car, yn arwain at oblygiadau mawr i rwydwaith ffyrdd strategol y bwrdeistref sirol. Mae Basn Caerffili bron wedi cyrraedd sefyllfa lle y gwelir tagfeydd difrifol a'r posibilrwydd o weld y traffig yn dod i stop, a gwelir oedi a thagfeydd cynyddol ar lwybrau strategol Canol y Cymoedd trwy Faesycwmer.

4.28 O bersbectif cyflogaeth, ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar yr angen i deithio y tu allan i'r bwrdeistref sirol, yw nifer y swyddi sydd ar gael ar gyfer poblogaeth y preswylwyr sy'n economaidd weithgar. Mae AMB 2019 yn nodi dwysedd swyddi (nifer y swyddi y pen yn y boblogaeth economaidd weithgar) o 0.56 yn unig, sy'n golygu ychydig dros 1 swydd i bob 2 unigolyn i bob pwrpas. Mae'r prinder swyddi yn golygu bod gofyn i bobl economaidd weithgar y bwrdeistref sirol deithio y tu allan i'r bwrdeistref sirol am gyflogaeth.

4.29 Dylid nodi, fodd bynnag, bod y ffigwr dwysedd swyddi ar gyfer y bwrdeistref sirol wedi bod yn codi ers iddo gyrraedd y pwynt isaf y mae wedi bod, sef 0.47, yn 2003, sy'n dynodi bod y sefyllfa yn cael ei chywiro yn araf. Fodd bynnag, bydd gofyn sicrhau cynnydd pellach er mwyn cynorthwyo i leddfu'r problemau sy'n ymwneud â thraffig sy'n cymudo yn y bwrdeistref sirol a thu allan i'r bwrdeistref sirol. Bydd angen i unrhyw adolygiad o'r cynllun ystyried cynyddu'r ddarpariaeth tir cyflogaeth yn y bwrdeistref sirol trwy neilltuo safleoedd deniadol a hyfyw y gellir eu darparu yn ystod cyfnod y cynllun.

**Agenda Rhanbartholi**

*Materion Rhanbarthol*

4.30 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori “Mae cynllunio effeithiol ar gyfer yr economi yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol i weithio mewn ffordd strategol ac ar y cyd wrth lywio datblygiad a buddsoddiad i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ac effeithlon, waeth pa ardal awdurdod lleol y maent ynddo.”, ac mae NCT 23 – Datblygu Economaidd yn cynghori “Anogir awdurdodau cynllunio lleol, felly, i gydweithio mewn grwpiau rhanbarthol, y maent yn bodoli eisoes yn ddelfrydol, er mwyn paratoi tystiolaeth am yr economi ranbarthol, gan gynnwys dadansoddiad o ddynameg y farchnad eiddo masnachol a diwydiannol ranbarthol, a ddilynir gan strategaeth economaidd”. Mae'r ddau gyfeiriad hwn yn dynodi'r ffaith bod angen mabwysiadu dull mwy rhanbarthol tuag at ystyried anghenion datblygu economaidd yn y dyfodol, wrth baratoi cynlluniau yn y dyfodol.

4.31 Mae NCT 23 yn mynnu hefyd bod awdurdodau lleol yn cynnal astudiaeth sy'n ystyried “safbwynt awdurdodau cynllunio lleol unigol yn y rhanbarth ac yn genedlaethol ac sy'n cynnwys data ar lefel uchel hefyd am ddefnydd nad yw'n ddefnydd dosbarth B sy'n perthyn i gategorïau cyflogaeth eraill er mwyn sicrhau y cyflwynir darlun o'r economi gyfan.” Mae hyn yn golygu bod gofyn i strategaethau CDLl adlewyrchu'r patrwm economaidd rhanbarthol a phennu polisïau sy'n ei ystyried. O ystyried hyn, ceir gofyniad rhanbarthol yn barod ynghylch datblygu economaidd.

*Cydweithio*

4.32 Gan gyd-fynd â'r dull “mwy na lleol” tuag at gynllunio ar gyfer datblygu economaidd a weithredwyd gan NCT 23, mae SEWSPG wedi sefydlu methodoleg er mwyn cynnal adolygiadau o dir cyflogaeth ar draws De Ddwyrain Cymru, gan sicrhau dull gweithredu cyffredin ar gyfer arolygon cyflogaeth. Bydd hyn yn golygu y bydd modd creu tystiolaeth ranbarthol, gan asesu a gwerthuso safleoedd cyflogaeth yn unol â set unigol o baramedrau, a fydd â manteision clir o safbwynt paratoi CDS. Fodd bynnag, ceir gwahanol lefelau o ran adnoddau ar draws y deg ACLl, o ran lefelau staffio ac arbenigedd wrth gynnal gwaith o'r fath (nid yw rhai wedi cynnal arolygon cyflogaeth eto), a bydd hyn yn arwain at oblygiadau o ran creu tystiolaeth ac o ran amcanu cyflogaeth ar gyfer y rhanbarth, yn enwedig o gofio gofynion PCC 10, sy'n nodi bod yn rhaid i adolygiadau gynnwys asesiadau o'r newid a ragwelir mewn cyflogaeth fesul sector a defnydd tir, a thargedau ynghylch y ddarpariaeth tir at ddibenion cyflogaeth sy'n dangos newid net fesul sector.

4.33 Mae Caerffili, ar y cyd â Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a Blaenau Gwent, wedi caffael adolygiad economaidd mwy nag un lleol ar y cyd, a fydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer y dadansoddiad economaidd ehangach ar gyfer adolygiad CDLl.

## Trafnidiaeth

### Y Rhwydwaith Priffyrdd Strategol a Thagfeydd

4.34 Mae'r Papur Cefndir Trafnidiaeth ar gyfer y CDLl yn nodi *“. . . heb ymyrraeth ddeddfwriaethol neu gyflwyno mesurau cyllidol, teithio mewn car fydd y prif ddull trafnidiaeth i'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y bwrdeistref sirol o hyd*.” Mae hyn yn wir o hyd. Ar ôl gostyngiad bach yng nghyfanswm y traffig rhwng 2010 a 2013, mae'r lefelau traffig wedi parhau i godi unwaith eto, gan arwain at lefelau tagfeydd cynyddol a thagfeydd yw'r brif broblem drafnidiaeth o hyd ar gyfer y cynllun datblygu. Er mwyn cynllunio mewn ffordd briodol ar gyfer anghenion trafnidiaeth yn y dyfodol, mae'n bwysig bod dealltwriaeth drylwyr o'r sefyllfa bresennol a lle y mae gofyn gwneud ymyriadau.

4.35 Er mwyn cynllunio mewn ffordd effeithiol ar gyfer y dyfodol, mae gofyn cael tystiolaeth fwy cadarn. Er bod ceisiadau Cynllunio yn darparu asesiadau trafnidiaeth lleol, sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer y darlun strategol, mae dealltwriaeth lawnach a gwell o'r rhwydwaith strategol a'i gysylltiadau yn bwysig er mwyn cyfrannu at unrhyw gynllun yn y dyfodol.

**Ansawdd yr Aer**

4.36 Un o'r prif oblygiadau sy'n codi o'r ffaith bod mwy o draffig a thagfeydd yw'r ffaith bod ansawdd yr aer yn gwaethygu. Mae gan y Bwrdeistref Sirol ddwy Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer (AQMA) yn barod, ac mae mwy o draffig a thagfeydd yn debygol o gynyddu nifer yr ardaloedd lle y gwelir bod ansawdd yr aer yn mynd y tu hwnt i'r safonau gofynnol ar gyfer ansawdd yr aer.

4.37 Er y paratowyd Cynlluniau Gweithredu ar gyfer y ddwy AQMA, ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu, mae angen canlyn mesurau cyffredinol hefyd er mwyn rhoi sylw i reolaeth traffig a mesurau er mwyn ceisio lleihad yng nghyfanswm y traffig gan gerbydau, er mwyn gwireddu'r gwelliant gofynnol yn ansawdd yr aer yn gyffredinol. Mae gwneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn fesurau pwysig, ond hefyd, defnyddio cynlluniau rheoli traffig sy'n ceisio rhoi sylw i symudiadau traffig lle y maent yn arwain at broblemau o ran ansawdd yr aer.

**Rheilffyrdd**

4.38 LlC (Trafnidiaeth Cymru [TC]) a gweithredwr newydd y fasnachfraint rheilffyrdd, Keolis-Amey, sy'n gyfrifol am drafnidiaeth ar y rheilffyrdd. Fel rhan o'r Fargen Ddinesig a'r Metro, cynigir ehangu system drafnidiaeth y rheilffyrdd ymhellach... Dylid nodi y bydd y gwelliannau i'r gwasanaeth rheilffyrdd yn y bwrdeistref sirol yn cynyddu capasiti a lefelau gwasanaeth, ond nid yw'r cynnydd hwn yn ddigon ynddo'i hun i roi sylw i broblemau cymudo a thagfeydd y mae'r bwrdeistref sirol yn eu hwynebu, a bydd gofyn cymryd mesurau eraill hefyd er mwyn sicrhau newid ystyrlon.

**Bysiau**

4.39 Mae awdurdodau lleol yn elfen bwysig o'r gweithgarwch darparu gwasanaethau bws ar draws y rhanbarth, ac maent yn gyfrifol am weinyddu cymorthdaliadau ar gyfer llwybrau er mwyn cynorthwyo hyfywedd. Mae angen cynyddu'r cysylltedd rhwng gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd, gwella'r cysylltiadau rhyngddynt a darparu system drafnidiaeth sy'n fwy cynhwysfawr ac integredig, a bydd angen adlewyrchu hyn trwy unrhyw gynllun datblygu newydd.

**Teithio Llesol**

4.40 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Fap Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol, sy'n nodi'r llwybrau teithio llesol presennol ac arfaethedig. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio ar ddarparu'r llwybrau teithio llesol arfaethedig.

4.41 Gan symud ymlaen, bydd teithio llesol yn elfen allweddol o'r seilwaith trafnidiaeth. Er y bydd trafnidiaeth strategol ar y rheilffyrdd ac mewn bysiau yn darparu trafnidiaeth ar gyfer pellteroedd, ceir nifer o deithiau nad ydynt yn terfynu wrth safle bws neu drên. Y dull trafnidiaeth mwyaf effeithiol ar gyfer y teithiau hyn yw trwy gyfrwng teithio llesol. Gan symud ymlaen, bydd angen i unrhyw gynllun newydd ystyried sut i ddarparu cyfleoedd teithio llesol er mwyn parhau teithiau bysiau a rheilffordd i'w cyrchfan olaf.

**Agenda Rhanbartholi**

*Materion Rhanbarthol*

4.42 Ystyrir trafnidiaeth ar lefel ranbarthol trwy gyfrwng y Fargen Ddinesig a'r Metro, trwy'r Corff Trafnidiaeth Rhanbarthol a gaiff ei sefydlu i'w hwyluso. Bydd angen integreiddio dulliau teithio llesol a bysiau yn y system drafnidiaeth ranbarthol er mwyn sicrhau y cyflawnir yr amcanion ar gyfer y Fargen Ddinesig.

*Gwaith Rhanbarthol*

4.43 Ceir hanes o gydweithio yn Rhanbarth De Ddwyrain Cymru, trwy gyfrwng grwpiau swyddogion rhanbarthol ar gyfer y corff trafnidiaeth rhanbarthol blaenorol, SEWTA. Pan derfynwyd SEWTA yn 2014, gwaredwyd Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ac fe'u

disodlwyd gan Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol. Gan ymateb i hyn, aeth y Cyngor ati, ar y cyd â Chynghorau Bwrdeistref Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen, i baratoi a chyhoeddi Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd De Ddwyrain Cymru, sy'n nodi'r cynllun trafnidiaeth ar gyfer pob ardal awdurdod sy'n cyfrannu iddo.

4.44 Yn ychwanegol i hyn, mae'r 10 awdurdod o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi cytuno cydweithio i ddarparu'r Metro trwy gyfrwng corff rhanbarthol.

## Treftadaeth Naturiol

### Bioamrywiaeth

4.45 Ceir Dyletswydd Bioamrywiaeth sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn diogelu ac yn gwella bioamrywiaeth fel rhan o'u penderfyniadau. Mae hwn yn ysbardun allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy a lles, ac o'r herwydd, bydd angen iddo fod wrth wraidd unrhyw weithgarwch i ddiwygio'r cynllun.

4.46 Ceir hierarchaeth ddiffiniedig o safleoedd diogelu cadwraeth natur, a'r rhai a ddiogelir fwyaf yw dynodiadau Ewropeaidd, a ddilynir gan ddynodiadau cenedlaethol, a rhoddir y diogelwch lleiaf llym i ddynodiadau lleol.

4.47 Ardal Cadwraeth Arbennig [ACA] Glaswelltir Aberbargoed yw'r unig safle o bwysigrwydd cadwraeth natur Ewropeaidd ddynodedig yn y bwrdeistref sirol. Ceir 13 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig [SoDdGA] cenedlaethol dynodedig yn y bwrdeistref sirol; mae 8 o'r rhain yn rhai dynodedig oherwydd eu diddordeb mewn perthynas â chadwraeth natur ac mae 5 yn ymwneud â'u diddordeb daearegol. Caiff y safleoedd Ewropeaidd a chenedlaethol eu diffinio a'u nodi y tu allan i gylch gwaith y cynllun datblygu, felly nid ydynt yn cael unrhyw oblygiadau i'r dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad o'r cynllun.

4.48 Mae'r CDLl yn nodi ac yn dyrannu 190 Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur [SBCN]. Caiff SBCNoedd eu nodi a rhoddir diogelwch iddynt trwy fabwysiadu'r CDLl...O ystyried y ffaith mai SBCNoedd yw'r rhai a ddiogelir leiaf yn yr hierarchaeth ddiogelu, maent mewn perygl oherwydd gweithrediadau amaethyddol a datblygiad arfaethedig. O ganlyniad, gall SBNCoedd gael eu heffeithio mewn ffordd niweidiol yn hawdd, gan ostwng yn is na'r gofynion er mwyn eu dynodi yn ystod cyfnod y cynllun. Yn yr un modd, gall rhai safleoedd barhau i wella fel cynefinoedd, a byddant yn dod yn gymwys i gael eu dynodi gydag amser. Bydd angen cynnal adolygiad o statws ac ansawdd safleoedd er mwyn cyfrannu at unrhyw adolygiad o'r cynllun.

### Tirwedd

4.49 Mae'r CDLl yn neilltuo 6 Ardal Tirwedd Arbennig [ATA], sy'n ceisio diogelu tirweddau pwysig rhag niwed gan ddatblygiad. Gwelwyd tystiolaeth o'r dynodiadau hyn trwy ddefnyddio Landmap fel y sail ar gyfer y dynodiadau sy'n parhau i fod yn ddilys heddiw. Efallai y bydd adolygiad o'r CDLl yn gofyn am wneud newidiadau i ffiniau presennol aneddiadau ac efallai y bydd gofyn gwneud newidiadau i ATAoedd o ganlyniad. Bydd unrhyw newidiadau yn rhai mân ac ar ymylon yr ATAoedd.

4.50 Mae'r CDLl yn neilltuo 4 Tirwedd Lleol o Bwysigrwydd Gweledol [VILL] hefyd, sy'n bwysig ar gyfer eu gwerth esthetig fel tirwedd. Efallai y bydd adolygiad o'r CDLl yn golygu bod gofyn gwneud newidiadau i ffiniau aneddiadau presennol, ac efallai y bydd gofyn gwneud newidiadau i VILLs o ganlyniad.

4.51 Mae'r Cyngor yn mynd trwy'r broses o baratoi Strategaeth Tirwedd ar gyfer y fwrdeistref sirol a bydd hyn yn bwydo i mewn i unrhyw ddiwygiad o'r CDLl.

### Seilwaith Gwyrdd

4.52 Mae'r Cyngor yn mynd trwy'r broses o baratoi ei Strategaeth Seilwaith Gwyrdd, a fydd yn

rhoi sylw i faterion Seilwaith Gwyrdd. Yn ogystal, bydd angen ystyried mater lletemau gwyrdd a'r potensial i gyfuno aneddiadau. Bydd y ddau o'r rhain yn bwydo i mewn i unrhyw ddiwygiad o'r CDLl.

**Daeareg a Geomorffoleg**

4.53 Mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili bum safle sy'n gymwys i gael eu diogelu fel Safleoedd Daearegol o Bwys Rhanbarthol [RIGS]. Fodd bynnag, nid yw'r safleoedd hyn wedi cael eu dynodi fel safleoedd RIGS yn benodol, gan eu bod yn cael eu dynodi'n genedlaethol fel SoDdGAoedd hefyd, ac mae'r diogelwch ar gyfer y rhain yn fwy nag y byddai ar gyfer dynodiad RIGS. O ystyried natur hierarchaidd dynodiadau diogelu, mae'r dynodiad SoDdGA uwch yn cynnig mwy o ddiogelwch nag y byddai'r dynodiad RIGS, felly cedwir dynodiad SoDdGA ar gyfer y safleoedd hyn. Nid yw'r sefyllfa hon wedi newid ac ni fydd angen ei hailystyried fel rhan o unrhyw adolygiad.

**Agenda Rhanbartholi**

*Materion Rhanbarthol*

4.54 Gan na chaiff materion treftadaeth naturiol eu diffinio gan ffiniau gweinyddol, dylid rhoi sylw strategol iddynt, trwy ymgynghori a chydweithio gydag awdurdodau cynllunio cyfagos.

4.55 Mae cysyniad Parc Rhanbarthol y Cymoedd (PRhC) yn gyrru ac yn hyrwyddo gweithgareddau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a threftadaeth a gweithgareddau twristiaeth cysylltiedig ar draws Cymoedd De Cymru. Caiff ei weithgareddau eu cyflawni yn barod trwy gyfrwng dull rhanbarthol a chydweithredol trawsffiniol strategol. Yn ychwanegol i becyn gwelliannau a ariannir, mae PRhC yn cynorthwyo egwyddorion dylunio sy'n helpu i ddiogelu treftadaeth naturiol y Cymoedd, cynyddu ei gydnerthedd a gwella'r defnydd.

*Cydweithio*

4.56 Cynhaliwyd adroddiad yn ystyried y dewisiadau i'r dyfodol ar gyfer cam nesaf PRhC, a bydd hwn yn bwysig iawn ar draws PRC mewn perthynas â materion yn ymwneud â threftadaeth naturiol.

4.57 O ran treftadaeth naturiol, ceir hanes o gydweithio, trwy gyfrwng grwpiau swyddogion rhanbarthol a chenedlaethol. Ar lefel ranbarthol, mae dynodiad parhaus safleoedd bioamrywiaeth a meysydd y dychymyg yn ofynnol, fodd bynnag, mae gofyn cael meini prawf safonol ar gyfer dynodiadau o'r fath. Dylid ystyried polisïau Seilwaith Gwyrdd ar lefel ranbarthol a dylid cynnal a gwella nodweddion rhwydwaith gwyrdd lleol allweddol, a chysylltiadau yn arbennig, ar draws y rhanbarth.

## Manwerthu

4.58 Cynhelir yr Arolwg Agweddau Siopwyr (AAS) er mwyn pennu: ble a pha mor aml y mae preswylwyr yn siopa am eu bwyd (cyfleustra) a'r hyn y maent yn ei brynu ac eithrio bwyd (cymharol / cymharol swmpus); rhesymau dros ymweld â chanolfannau; eu hagwedd tuag at y canolfannau a'r dull trafnidiaeth a ddefnyddir'. Mae'r arolwg yn cynnwys arolwg dros y ffôn ac arolwg ar y stryd. (Rhennir bwrdeistref sirol Caerffili yn 6 dalgylch manwerthu a ddiffinnir trwy osod ffiniau ardaloedd bach y cyfrifiad i isocronau amser gyrru o 20 munud ar gyfer pob canolfan). Mae'r sampl yn yr arolwg yn cynnwys ardaloedd cod post o'r 6 dalgylch ledled y bwrdeistref sirol er mwyn gallu creu patrymau ymddygiad preswylwyr yn ôl aneddiadau unigol.

4.59 Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, defnyddir y data o'r AAS yn ychwanegol i'r data ynghylch poblogaeth a gwariant a brynwyd gan Experian (safon diwydiant a ddefnyddir gan ymgynghorwyr hefyd) i gynnal yr holl gyfrifiadau manwerthu mewn perthynas â chapasiti manwerthu. Bydd angen ailystyried y dadansoddiad manwerthu a'r Arolwg Agweddau Siopwyr fel rhan o'r Adolygiad o CDLl.

4.60 Mae Canolfannau Manwerthu a Masnachol yn dod yn 'ganolfannau' buddsoddiad yn gynyddol, wrth i gyllid ddod cyn bo hir o'r Fargen Ddinesig a'r Metro, yn ogystal â'r ffaith bod Tasglu'r Cymoedd wedi eu nodi fel lleoliadau buddsoddi. Mae natur canol trefi yn newid, gyda'u hamlygrwydd cynyddol fel canolfannau gwasanaeth, canolfannau datblygu economaidd a chyflogwyr mawr, ac i raddau llai, manwerthu. Mae bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi yn y dyfodol yn ddibynnol iawn ar eu gallu i addasu a bodloni anghenion eu dalgylchoedd uniongyrchol.

4.61 Ceir cwmpas ar draws y rhanbarth i gydweithio er mwyn creu tystiolaeth ranbarthol a chysoni methodoleg lleol er mwyn casglu tystiolaeth. Gan gydnabod hyn, penderfynodd SEWSPG gynnal gwaith a oedd yn ymwneud â materion penodol, y byddai'n sail i'r dystiolaeth ar gyfer unrhyw gynllun 'newydd' a fyddai'n dod i'r amlwg. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Manwerthu ar gais SEWSPG. Diben y grŵp hwn oedd bod ymarferwyr yn:

- Nodi arfer gorau;
- Cysoni tystiolaeth CDLl fel y mae'n ymwneud â manwerthu ar draws Ardaloedd y 10 Awdurdod Cynllunio Lleol;
- Pennu methodoleg gyffredin ar gyfer pob ACLl, i'w defnyddio wrth wneud gwaith monitro manwerthu, er mwyn pennu'r ddarpariaeth fanwerthu bresennol;
- Cynnig methodoleg er mwyn cynnal astudiaeth ynghylch capasiti manwerthu rhanbarthol;
- Nodi'r potensial ar gyfer cydweithio;
- Amlygu goblygiadau'r holl bethau uchod ar adnoddau.

4.62 Ym mis Mai 2017, cytunodd SEWSPG ar y papur manwerthu cyntaf a oedd yn cynnig methodoleg safonol ar gyfer arolygu'r ddarpariaeth fanwerthu bresennol. Bwriad yr ail bapur manwerthu oedd creu methodoleg er mwyn cynnal Asesiad o'r Capasiti Manwerthu ar gyfer y rhanbarth, ac nid yw'r goblygiadau ar adnoddau a'r arbedion posibl y byddai modd eu gwneud wrth gyflawni'r gwaith hwn ar y cyd, wedi cael eu hadrodd eto, ond gallent gael goblygiadau ar gyfer y gwaith hwn mewn perthynas â'r dystiolaeth ynghylch manwerthu.

**Agenda Rhanbartholi**

*Materion Rhanbarthol*

4.63 Mae arweinwyr o fewn PRC wedi ymrwymo i'r cam o greu CDS ar gyfer y rhanbarth er mwyn ysgogi twf mewn lleoliadau priodol ac er mwyn cynnig y màs critigol sy'n angenrheidiol er mwyn cynorthwyo economi gadarn ac amrywiol. Er nas pennwyd cwmpas y CDS eto, mae'n debygol iawn y bydd yn cynnwys diffinio Hierarchaeth Fanwerthu ar gyfer y rhanbarth.

*Cydweithio*

4.64 Er bod partneriaid SEWSPG wedi cytuno ar fethodoleg gyffredin er mwyn monitro'r ddarpariaeth fanwerthu bresennol a chysoni'r dystiolaeth ynghylch manwerthu ar draws PRC, mae angen symud ymlaen â gwaith pellach mewn perthynas â chynnal asesiadau o gapasiti manwerthu a rhinweddau cyflawni'r gwaith hwn ar y cyd.

## Hamdden

4.65 Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod awdurdodau lleol yn creu fframwaith er mwyn neilltuo tir digonol i ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Yr unig ffordd resymol o gyflawni hyn yw trwy gynnal asesiadau lleol o'r angen ac archwiliadau o'r ddarpariaeth bresennol.

4.66 Mae PCC yn cydnabod Safonau Meysydd Chwarae Cymru [Safonau MChC], a gyflwynwyd i ddisodli safon chwe erw Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae [NPFA], fel meincnod defnyddiol er mwyn asesu'r angen am ddarpariaeth chwaraeon a hamdden. Cynhaliwyd asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd Chwarae yn 2013 er mwyn cyfrannu at y CDLl Newydd a dynnwyd yn ôl erbyn hyn, fodd bynnag, bu newidiadau yn y cyfamser sy'n golygu y bydd angen diweddaru'r asesiad hwn.

**Mannau Gwyrdd Naturiol**

4.67 Datblygodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru (y mae bellach yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru), y "Pecyn Cymorth Man Gwyrdd" sy'n pennu targedau ynghylch mynediad i fan gwyrdd am bellteroedd penodedig o gartref rhywun.

4.68 Cynhaliodd y Cyngor, ar y cyd â 4 awdurdod arall, asesiad o'r bwrdeistref sirol a oedd yn nodi bod y bwrdeistref sirol yn gallu manteisio ar swm da o fannau gwyrdd mwy o faint o bell, gan adlewyrchu ardal fawr y tir comin a'r ucheldiroedd agored uwchben yr aneddiadau llinol ar hyd gwaelod y cwm, gyda llai o ddarpariaeth yn agosach, yn enwedig y ddarpariaeth o fewn 400m. Mae'r sefyllfa hon yn parhau i fod yr un peth ac mae'n annhebygol bod gofyn cynnal gwaith asesu pellach.

**Mannau Agored a Hamdden yn yr Awyr Agored**

4.69 Cynhaliwyd adolygiad o hamdden yn yr awyr agored ac archwiliad o fannau agored fel rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer y CDLl Newydd, a dynnwyd yn ôl erbyn hyn. Roedd y ddau asesiad wedi nodi ardaloedd lle y mae angen darpariaeth a lle y mae gweithgarwch i ddiogelu cyfleusterau yn fwy o ganlyniad i ddiffyg darpariaeth ddigonol. Cymeradwyodd y Cyngor ei Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden Egnïol Ddrafft ym mis Tachwedd 2018. Bydd angen i unrhyw ddiwygiad o'r CDLl ystyried y Strategaeth hon.

**Agenda Rhanbartholi**

*Materion Rhanbarthol*

4.70 Mae pob CDLl yn cynnwys polisïau er mwyn darparu a diogelu mannau agored a hamdden yn eu hardaloedd. Er y ceir ychydig anghysondeb o ran y dystiolaeth gefndirol a ddefnyddiwyd er mwyn pennu targedau, yn gyffredinol, defnyddir y safonau MChC.

4.71 Mae rhai ACLlau wedi defnyddio ymgynghorwyr, gan ystyried darpariaethau hamdden cyhoeddus a phreifat yn eu CDLlau, yn ogystal â chynnwys cyfleusterau Hamdden yn eu hastudiaethau Manwerthu, gan bod y ddau bwnc yn gallu gorgyffwrdd.

*Cydweithio*

4.72 Er bod rhywfaint o gydweithio yn digwydd er mwyn cynllunio ar gyfer darparu gweithgarwch corfforol a chwaraeon, yn gyffredinol, mae materion hamdden megis parciau chwarae, parciau sgrialu a chyfleusterau chwaraeon yn rhai lleol mewn cymunedau, yn hytrach nag ardaloedd poblogaeth mawr.

4.73 Fodd bynnag, mae gweithgareddau hamdden mwy megis canolfannau hamdden, sinemâu a chlybiau golff yn cael effaith lawer yn fwy, sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau awdurdodau lleol. Canolfannau Hamdden yw unig ddarpariaeth hamdden fasnachol y cyngor, er bod y Cyngor hefyd yn berchen ar atyniadau twristiaeth ac yn eu gweithredu, fel Sefydliad y Glowyr, Coed Duon, Llancaiach Fawr a'r Parciau Gwledig, sydd hefyd yn gweithredu ar sail fasnachol. Mae gweithgareddau hamdden mwy o faint eraill yn tueddu i gael eu darparu gan y sector preifat.

## Cyfleusterau Cymunedol

4.74 Mae Cyfleusterau Cymunedol yn cynnwys ystod eang o wasanaethau, y darparir rhai ohonynt gan y Cyngor, a darparir eraill gan gyrff cyhoeddus eraill (e.e. Bwrdd Iechyd

Aneurin Bevan) neu gan y sector preifat/trydydd partïon. O ganlyniad, mae'r dystiolaeth sy'n sail i elfen cyfleusterau cymunedol y CDLl yn ddibynnol iawn ar fewnbwn gan gyrff a sefydliadau eraill.

4.75 Er bod y Cyngor yn monitro darpariaeth ei gyfleusterau cymunedol, bydd angen i'r darparwr perthnasol nodi newidiadau yn yr angen am y cyfleusterau hynny nas darparir gan y Cyngor, a'u darpariaeth, gan ystyried lefel y twf a gynlluniwyd o ran maint y boblogaeth a nifer yr aelwydydd. O ganlyniad, bydd angen diweddaru'r dystiolaeth ynghylch yr elfennau hynny o'r ddarpariaeth cyfleusterau cymunedol.

**Agenda Rhanbartholi**

*Materion Rhanbarthol a Chydweithio*

4.76 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried effaith eu penderfyniadau yn y tymor hir, er mwyn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac er mwyn atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Yn bwysicaf oll, mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob corff cyhoeddus yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau, yn hytrach na gwneud hynny yn unigol ac ar wahân. Er mwyn cyflawni'r newid hwn, mae gofyn i bob awdurdod lleol o fewn PRC sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i oruchwylio darpariaeth integredig gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus. Mae pob BGC yn endid ar wahân ac nid yw'r ddeddfwriaeth yn mynnu eu bod yn cydweithio. Fodd bynnag, maent yn gweithio gyda'i gilydd ar faterion sydd yr un mor berthnasol iddynt. Mae ôl troed rhan fwyaf o sefydliadau partner BGC, ac eithrio'r awdurdodau lleol, yn ehangach nag ardal BGC unigol, ac mae hyn yn annog cydweithio. Yng Ngwent, mae'r 5 awdurdod lleol a'u partneriaid BGC yn cydweithio trwy gyfrwng Grŵp Asesu Lles Gwent (GSWAG), ac mae partneriaid ar draws Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gyfan yn cydweithio ar fentrau ar y cyd sy'n ymwneud â'r rhaglen waith strategol honno.

## Gwastraff

4.77 Caiff gwaith cynllunio rheoli gwastraff ei gyflawni dan drefniant rhanbarthol yng Nghymru, wrth i gonsortia rhanbarthol baratoi Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a chaffael cyfleusterau gwastraff newydd mawr. Mae'r ffaith y gellir bodloni gofynion awdurdod lleol unigol o fewn ardal awdurdod lleol arall, neu thrwy gyfrwng cyfuniad o gyfleusterau ar draws y rhanbarth, yn un o oblygiadau arwyddocaol y dull rhanbarthol tuag at y ddarpariaeth rheoli gwastraff.

4.78 Mae gan y system gynllunio rôl i weithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig UE [rWFD], sy'n ceisio atal a lleihau effeithiau gweithgarwch cynhyrchu a rheoli gwastraff, gan wella effeithlonrwydd adnoddau a'r defnydd ohonynt. Mae Erthygl 28 rWFD yn mynnu bod aelod-wladwriaethau yn paratoi cynlluniau rheoli gwastraff, a gyflawnir gan PPC ac NCT 21 Gwastraff, ac mae erthygl 16 yn mynnu bod rhwydwaith o gyfleusterau rheoli gwastraff yn cael ei sefydlu i roi sylw i weithgarwch ailgylchu a gwaredu a defnyddio gwastraff.

4.79 Mae PCC 10 yn nodi'r rôl ar gyfer yr economi gylchol wrth leihau gwastraff a'i phwysigrwydd yn yr hierarchaeth wastraff. Bydd angen i'r adolygiad o CDLl roi sylw i fater lleihau gwastraff gymaint ag y bo modd a rôl yr economi gylchol, yn ychwanegol i nodi'r gofynion rheoli gwastraff ar gyfer y bwrdeistref sirol.

4.80 Fel rhan o'r gwaith o hwyluso darpariaeth rheoli gwastraff cynaliadwy, dylid ystyried adnabod lleoliadau addas ar gyfer datblygiad o'r fath fel rhan o'r gwaith o baratoi cynllun, gan gydnabod mai'r lleoliadau mwyaf priodol fydd y rhai sy'n cael yr effaith leiaf niweidiol ar y boblogaeth leol a'r amgylchedd, ac y mae ganddynt y potensial gorau i gyfrannu at rwydwaith seilwaith eang. Mae NCT 21 Gwastraff yn darparu canllawiau pellach ynghylch

rhoi sylw i faterion gwastraff trwy gyfrwng cynlluniau datblygu.

**Agenda Rhanbartholi**

*Materion Rhanbarthol*

4.81 Fel yr amlinellwyd uchod, rhoddir sylw i reoli gwastraff eisoes ar lefel ranbarthol trwy gyfrwng consortia rhanbarthol.

*Cydweithio*

4.82 O ystyried y ffaith y rhoddir sylw i reoli gwastraff trwy gyfrwng consortia rhanbarthol, mae hyn yn golygu bod pob awdurdod lleol eisoes yn cydweithio gyda'r lleill yn ei ranbarth.

## Ynni Adnewyddadwy

4.83 Yn 2011, cwblhaodd y Cyngor 'Asesiad Sylfaenol o Ynni Adnewyddadwy' (ASYA), a oedd yn archwilio'r potensial yn y bwrdeistref sirol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol, mae'r awdurdod wedi diweddaru ei Asesiad Sylfaenol o Ynni Adnewyddadwy (ASYA) yn 2015, gan ddilyn y dull a nodwyd yn 'Ynni Adnewyddadwy: Pecyn cymorth i Gynllunwyr'. Mae Asesiad 2015 yn nodi:

- Y capasiti ynni adnewyddadwy cyfredol yn y Bwrdeistref Sirol; a'r
- Potensial yn y dyfodol i ddefnyddio ynni adnewyddadwy yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;

4.84 Roedd yr asesiad yn canolbwyntio ar y technolegau ynni adnewyddadwy canlynol:

- Gwynt ar y Tir;
- Biomas;
- Ynni gan Wastraff;
- Nwy Tirlenwi;
- Treulio Anaerobig (anifeiliaid a bwyd);
- Pŵer dŵr;
- Ynni Adeilad-Integredig (BIR); a
- Ffermydd Solar.

4.85 Mae astudiaeth ASYA 2015 a ddiweddarwyd yn nodi'r canlynol fel cyfleoedd posibl yng Nghaerffili:

- **Ynni gwynt**, fodd bynnag, mae'r effaith weledol gronnus yn debygol o gyfyngu ar y gweithgarwch i fanteisio ar yr adnodd hwn. Byddai gofyn cynnal gwaith dichonolrwydd manwl ar safleoedd penodol er mwyn cadarnhau hyfywedd safleoedd penodol.
- **Solar Ffotofoltaig**, wedi'i integreiddio mewn adeiladau ac ar y ddaear. Byddai gofyn gwneud gwaith arolygu pellach er mwyn nodi prosiectau hyfyw, yn ogystal ag astudiaeth capasiti a sensitifrwydd tirwedd. Unwaith eto, mae'r effaith gronnus yn debygol o gyfyngu ar y gweithgarwch i archwilio'r adnodd hwn.
- Ceir cyfleoedd posibl ar gyfer rhwydweithiau gwres o ran safleoedd datblygu mwy o faint arfaethedig ar draws y Bwrdeistref Sirol.

4.86 Fel rhan o waith rhanbarthol a gyflawnir er mwyn asesu gofynion datblygiadau Tyrbinau Gwynt ar draws y Bwrdeistref Sirol, comisiynwyd Gillespies LLP i gynnal astudiaeth capasiti

a sensitifrwydd tirwedd ar gyfer y bwrdeistref sirol. Mae'r ddogfen hon yn amlygu teipoleg amrywiol tyrbinau gwynt, yn erbyn yr asesiadau o fewn LANDMAP ac yn erbyn cyfyngiadau hysbys. Nid yw'r canllawiau, fodd bynnag, yn ystyried effaith amgylcheddol datblygiad. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r gofynion a'r safonau gwybodaeth gofynnol i'w cyflwyno gydag asesiad o'r effaith ar y tirwedd a'r effaith weledol (LVIA). Mabwysiadwyd y canllawiau fel Canllawiau Cynllunio Atodol i'r CDLl.

4.87 Ar 4 Mehefin 2019, penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddatgan argyfwng hinsawdd yn ffurfiol fel Hysbysiad Cynnig ac o ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn ddi-garbon net erbyn 2030. Ar ôl ymgysylltu â phreswylwyr a rhanddeiliaid allweddol, mae swyddogion yn datblygu 'Cynllun Di-garbon Net' ar hyn o bryd, a fydd yn canolbwyntio ar bedwar categori bras sef Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwyso a Phrynu. Bydd y Cynllun Di-garbon Net yn cynnwys cynllun gweithredu manwl hefyd, er mwyn galluogi'r Awdurdod i gyflawni'r targed ar gyfer 2030.

4.88 Bydd angen diweddaru'r dystiolaeth ynghylch ynni adnewyddadwy a bydd angen ystyried y FfDC Drafft hefyd, sy'n nodi Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy ac sy'n nodi'r polisi cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy

**Agenda Rhanbartholi**

*Materion Rhanbarthol*

4.89 Ar lefel ranbarthol, mae mwyafrif helaeth yr awdurdodau wedi cynnal astudiaeth ASYA, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn ei phecyn cymorth. Er bod dymuniad cryf i gynnwys polisïau ynni adnewyddadwy mewn CDLlau a pheidio rhwystro eu datblygiad trwy gyfrwng polisïau ynni adnewyddadwy generig, mae dynodi Ardaloedd Chwilio Strategol wedi canolbwyntio darpariaeth o'r fath. Fodd bynnag, ni cheir Ardaloedd Chwilio Strategol yng Nghaerffili, a gallai hyn gael effaith negyddol wrth symud y cynllun yn ei flaen. Mae'r FfDC Drafft wedi cynnig Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer cynhyrchu ynni solar a gwynt ar y tir, sy'n cynnwys ardaloedd o fewn y bwrdeistref sirol. Bydd angen i'r CDS ar gyfer y rhanbarth ystyried y rhain fel rhan o unrhyw strategaeth polisi rhanbarthol er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

*Cydweithio*

4.90 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ynghylch cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 10 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn nodi targedau ynghylch ynni adnewyddadwy yn eu cynlluniau datblygu. Fodd bynnag, byddai'n well rhoi sylw i dargedau ynni adnewyddadwy ar lefel ranbarthol.

4.91 Wrth baratoi tystiolaeth ranbarthol, gan bod angen i ACLlau gyfleu canfyddiadau ar fap, byddai gweithio ar lefel ranbarthol yn helpu i galedu'r lleoliadau o ran ble y byddai gweithgarwch cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn digwydd.

4.92 Er y ceir consensws cyffredinol ar draws pob ACLl ynghylch yr angen i gynyddu gweithgarwch cynhyrchu ynni adnewyddadwy trwy fynigion a dyraniadau priodol, byddai'n gofyn am adnabod ardaloedd chwilio strategol ar draws y rhanbarth. Byddai tystiolaeth ranbarthol sy'n sefydledig ac sydd wedi sicrhau ymrwymiad rhanbarthol, yn cynorthwyo i sicrhau safleoedd y gallent fod yn rhai posibl.

## Mwynau

4.93 Mae mwynau ynni wedi cael eu hystyried i raddau helaeth trwy Gynlluniau Datblygu Lleol, a baratowyd yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae agregau, ar y llaw arall, wedi cael eu hystyried ar lefel ranbarthol ers dechrau'r 1970au, pan sefydlwyd y Gweithgorau Agregau Rhanbarthol (RAWP) i gynghori'r llywodraeth ynghylch materion yn ymwneud â'r galw am agregau a'u cyflenwad. Mae Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) yn

cynnwys De Cymru gyfan, gan gynnwys Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae SWRAWP yn cynnal arolwg blynyddol o werthiant agregau a'r cronfeydd wrth gefn, gan gynhyrchu'r Datganiad Technegol Rhanbarthol, sy'n nodi sut y bodlonir y galw am agregau dros y 15 mlynedd nesaf, er yr adolygir hyn bob 5 mlynedd.

4.94 Yn ystod y cyfnod pan baratowyd y CDLl, roedd gweithgarwch mwynau yn uchel, o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd ffyniannus. Adlewyrchwyd hyn yn yr holl angen rhagamcanol am fwynau ynni ac agregau yn y dyfodol, a fu'n sail ar gyfer y gwaith o baratoi'r polisiau ynghylch mwynau o fewn y CDLl. Er nad oedd y CDLl Mabwysiedig wedi cynnig unrhyw ofynion o ran mwynau ynni, roedd y gweithgarwch cynhyrchu rhagamcanol ar gyfer agregau yn tua 800,000 o dunelli y flwyddyn. Ers yr Adroddiad AMB cyntaf, mae Polisi SP8 Diogelu Mwynau wedi cyrraedd ei drothwy yn gyson gan bod gweithgarwch cynhyrchu mwynau blynyddol wedi lleihau i ychydig dros 400,000 tunnell y flwyddyn. Fodd bynnag, nododd arolygon blynyddol SWRAWP bod y galw am agregau wedi lleihau'n sylweddol a dyma pam bod gweithgarwch cynhyrchu agregau wedi lleihau hefyd, gan mai'r unig adeg y cloddir am agregau yw pan fydd y galw amdanynt yn bodoli. Yn ogystal, nododd arolygon blynyddol SWRAWP bod y galw am agregau ar draws de ddwyrain Cymru yn cael ei fodloni. O ganlyniad, mae lefel y gweithgarwch cynhyrchu wedi gostwng trwy gydol cyfnod y cynllun ar gyfer y CDLl, ond mae hyn yn adlewyrchiad uniongyrchol o'r lleihad yn y galw, a fodlonir fel arall.

**Agenda Rhanbartholi**

*Materion Rhanbarthol*

4.95 Rhoddir sylw i faterion rhanbarthol trwy gyfrwng RAWP a bu'r ail Ddatganiad Technegol Rhanbarthol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2019. Bydd angen i'r Adolygiad o CDLl ystyried hyn.

*Cydweithio*

4.96 Fel yr amlinellwyd uchod, mae awdurdodau lleol, ynghyd â rhanddeiliaid eraill, eisoes yn cydweithio ac yn gweithio mewn ffordd flaengar trwy'r RAWP.

## Covid 19 and Brexit

4.97 Whilst these two issues are not currently part of the evidence base, they both have the potential for very significant economic and social impacts that would have implications for all policy areas. In accounting for these issues, the main problem stems from a lack of evidence and information to substantiate the extent and nature of the impacts that these issues will have. It is highly likely that the information surrounding these issues will increase during plan preparation. However there is also likely to be significant wealth of short-term trends and actions that seek to address the immediate issues, but the emerging plan will need to take a long term view of the position and resist the potential to be drawn by short term trends.

**Pa Newidiadau y mae Gofyn eu gwneud i'r CDLl?**

4.98 Mabwysiadwyd y CDLl Mabwysiedig ym mis Tachwedd 2010 ac o'r herwydd, mae'r fframwaith polisi a'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r fframwaith yn 10 oed. Er y symudwyd y CDLl Newydd ymlaen i'r cam Adneuo, ni fu'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cynllun hwn na'r fframwaith polisi yr oedd yn ei gynnig, yn destun gweithgarwch craffu trwy gyfrwng Archwiliad. Mae tynnu'r CDLl Newydd yn ôl yn golygu, er bod y dystiolaeth wedi cael ei diweddaru, mae'r fframwaith polisi wedi dyddio o hyd a bydd gofyn ailystyried yr holl agweddau ar y polisi ar gyfer unrhyw ddiwygiad o'r CDLl Mabwysiedig yn y dyfodol. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd:

- Bod y fframwaith polisi cenedlaethol yng Nghymru wedi newid yn sylweddol ers y Mabwysiadwyd y CDLl yn 2010, gan gyflwyno nifer o ofynion newydd ac

ychwanegol wrth baratoi cynlluniau;

- Mae'r Ddeddf Llesiant wedi cyflwyno ffyrdd newydd o weithio i gyrff cyhoeddus ac mae angen cynnwys hyn mewn unrhyw adolygiad o'r CDLl;
- Bydd angen i'r gofyniad i ddarparu datblygiad cynaliadwy fod wrth wraidd unrhyw adolygiad o'r cynllun, yn unol â'r Ddeddf Llesiant
- Bydd y pwysau cynyddol i gydweithio yn effeithio ar y ffordd y caiff y dystiolaeth ei diweddaru, a bydd yn cynnwys mwy o asesiadau sy'n fwy na rhai ar draws awdurdodau;
- Mae Deddf yr Amgylchedd yn nodi dyletswydd bioamrywiaeth ar gyfer awdurdodau lleol y mae'n rhaid ei hystyried trwy'r CDLl. Yn sail i hyn bydd Datganiadau Ardal y mae'n ofynnol i CNC eu paratoi.
- Mae demograffeg y cynllun blaenorol yn seiliedig ar ffigurau Cyfrifiad sy'n 20 oed. Bydd unrhyw adolygiad o'r cynllun yn golygu y bydd angen diweddaru'r ffigurau hyn yn sylweddol, y maent wrth wraidd unrhyw gynllun datblygu;
- Mae'r amgylchiadau economaidd wedi newid mewn ffordd ddramatig o'r cyfnod pan fabwysiadwyd y cynllun. Bydd angen i unrhyw adolygiad o'r CDLl ystyried yr amgylchedd economaidd presennol ac yn y dyfodol;
- Gadael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd angen i unrhyw adolygiad o'r CDLl ystyried effeithiau posibl Brexit, ac nid y lleiaf, yr effeithiau y bydd hyn yn ei gael ar gynllunio defnydd tir, yn benodol: mudo, arallgyfeirio gwledig ac ar ffrydiau cyllido y gallai cynigion datblygu fod yn ddibynnol arnynt;
- Bydd angen i unrhyw adolygiad ystyried agenda rhanbartholi, ac yn arbennig:
    - o Y goblygiadau a'r cyfleoedd sy'n deillio o'r Fargen Ddinesig, Y Metro a Thasglu'r Cymoedd.
    - o Y goblygiadau sy'n deillio o'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

4.99 O ystyried yr uchod, bydd angen ailystyried **HOLL** gynnwys y CDLl o ganlyniad i newidiadau mewn amgylchiadau a gofynion polisi sydd wedi digwydd ers y mabwysiadwyd y CDLl yn 2010. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweledigaeth, Materion ac Amcanion CDLl: Roedd Gweledigaeth, Materion ac Amcanion y CDLl yn deillio o Gynllun Cymunedol y Cyngor. Fodd bynnag, ers hynny, disodlwyd Cynlluniau Cymunedol gan Gynlluniau Integredig Sengl, ac mae'r rhain wedi cael eu disodli gan Gynlluniau Llesiant. Gan nad yw'r sail a ddefnyddiwyd ar gyfer Gweledigaeth, Materion ac Amcanion CDLl yn bodoli mwyach, mae angen ailystyried y rhain mewn ffordd sylfaenol fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl.

## 5. Dewisiadau a Chasgliadau

5.1 Mae'r penodau blaenorol wedi amlinellu'r sefyllfa mewn perthynas â'r CDLl, sut y mae'n perfformio a beth y byddai angen i dystiolaeth ar gyfer unrhyw adolygiad o'r cynllun ei ystyried. Gan symud ymlaen, mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn pennu pa gamau sy'n briodol ar gyfer y Cyngor. Ceir tri maes bras y mae angen eu hystyried, sef:

- A oes angen cynnal Adolygiad o'r Cynllun Mabwysiedig;
- Pa fath o adolygiad y dylid ei gynnal;
- Y cwmpas er mwyn cydweithio;

### A oes angen cynnal adolygiad o'r cynllun Mabwysiedig?

*Adroddiad Monitro Blynyddol 2019*

5.2 Mae AMB 2019 yn nodi'r sefyllfa lawn o ran y sefyllfa bresennol ar gyfer y CDLl Mabwysiedig, ac a oes gofyn cynnal adolygiad o'r cynllun neu beidio. Mae AMB 2019 wedi nodi nad yw 2 bolisi tai, sef: SP14 Cyfanswm y Gofyniad am Dai; ac SP15 Targed Tai Fforddiadwy, ei Amcan cysylltiedig (9) a dau amcan cyflogaeth (17 ac 18), yn cael eu cyflawni.

5.3 Er 2013, mae'r dangosyddion tai wedi nodi bod nifer annigonol o dai wedi cael eu datblygu yn y bwrdeistref sirol. Roedd hwn yn un o ddau reswm dros gychwyn ar adolygiad o'r CDLl yn 2013, a dynnwyd yn ôl wedi hyn. Er y cymeradwywyd rhai cynigion ynghylch tai ar apêl, mae hyn yn annigonol er mwyn rhoi sylw i'r diffyg o ran nifer y tai. Derbynnir bod gofyn cynnal adolygiad o'r CDLl er mwyn rhoi sylw llawn i'r sefyllfa hon.

5.4 Mynegwyd pryder am yr Amcanion Cyflogaeth yn AMB 2019. Mae'r pryder yn ymwneud â'r ffaith bod y Fargen Ddinesig a'r Metro a Thasglu'r Cymoedd wedi nodi Caerffili ac Ystrad Mynach fel ffocws ar gyfer buddsoddiad a thwf rhanbarthol, ond mae'r tir cyflogaeth yn y ddwy dref yn gyfyngedig iawn. Mae diffyg unrhyw safleoedd arwyddocaol ar gyfer twf cyflogaeth yn destun pryder o safbwynt strategol, gan bod y Tasglu Gweinidogol wedi nodi bod Caerffili ac Ystrad Mynach yn 'ganolfan strategol' ar gyfer Cymoedd De Cymru.

5.5 Er bod tir cyflogaeth yn bodoli mewn rhannau eraill o'r bwrdeistref sirol, nid yw'n cynnig y llwyfan i wireddu potensial y canolfannau strategol yng Nghaerffili ac Ystrad Mynach, ac o'r herwydd, byddai'n peryglu'r gallu i gyflawni'r ddau Amcan. O ystyried y materion hyn, daeth AMB 2019 i'r casgliad bod gofyn cynnal adolygiad o'r CDLl.

*Y Sefyllfa mewn Perthynas â'r CDS ar gyfer y Rhanbarth*

5.6 Pan benderfynodd y Cyngor dynnu'r CDLl Newydd yn ôl ym mis Gorffennaf 2016, gan gadarnhau'r cam o dynnu'r cynllun yn ôl ym mis Hydref 2016, gwnaethpwyd hynny ar sail y ddealltwriaeth y byddai'r Cyngor yn ceisio paratoi CDS yn gynnar. O ganlyniad, er bod pob AMB er AMB 2013 wedi nodi bod gofyn cynnal adolygiad o'r CDLl, roedd y penderfyniad i ganlyn gweithgarwch i gychwyn ar y CDS yn gynnar yn drech na'r angen honno.

5.7 Ym mis Ionawr 2018, cytunodd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar yr egwyddor o baratoi CDS ar gyfer y rhanbarth ac ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd y Cabinet adroddiad a oedd yn argymell y dylid cychwyn ar y CDS, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r 10 awdurdod lleol cyfansoddol er mwyn sicrhau eu cytundeb i gychwyn ar y broses. Hyd yn hyn, mae 8 o'r awdurdodau wedi cyflwyno'r adroddiad ac mae'r 8 wedi derbyn yr argymhellion. Bydd y 2 awdurdod sy'n weddill yn cyflwyno'r adroddiad i'w Cynghorau yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Cyflwynwyd yr adroddiad i Gyngor Caerffili ar 23 Hydref 2019 a chytunodd y Cyngor i'r argymhellion.

5.8 Gan bod y Cyngor wedi cytuno cychwyn ar y gwaith o baratoi CDS ar gyfer y rhanbarth,

bodlonwyd y cynnig o'r penderfyniad a wnaethpwyd yn 2016 i dynnu'r CDLl Newydd yn ôl. O ganlyniad, nid yw'r penderfyniad i ganlyn gweithgarwch i gychwyn ar y CDS yn gynnar yn rheswm dros gychwyn ar adolygiad o'r CDLl mwyach.

5.9 Wrth gyhoeddi Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ym mis Ionawr 2021, mae bellach yn ofyniad statudol i'r CbC ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd baratoi CDY ar gyfer y rhanbarth.

*Dyddiad Dod i Ben CDLl*

5.10 Un o'r prif faterion sy'n ysgogi'r angen i adolygu'r CDLl yw'r ffaith bod y CDLl yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2021 (nodwch: mae gan 7 o blith 10 awdurdod lleol y rhanbarth CDLlau sy'n dod i ben yn 2021). Effaith hyn, dan y Ddeddf Cynllunio, yw na fydd y CDLl yn ffurfio cynllun datblygu lleol yr ardal ar ôl y dyddiad dod i ben, ac na fydd unrhyw gynllun mewn grym os na chynhelir adolygiad neu os na fydd cynllun newydd yn ei le. Er bod SEWSPG a CLlLC wedi ymgyrchu droeon i LlC ymlacio'r dyddiad dod i ben er mwyn caniatáu i'r fframweithiau polisi gynnal darpariaeth tra bod y CDS yn cael ei baratoi a'i fabwysiadu, nid yw LlC wedi diwygio'r safbwynt.

5.11 O ganlyniad, ni fydd y CDLl yn weithredol mwyach, ac ni roddir unrhyw bwys iddo mewn penderfyniadau cynllunio, ar ôl 31 Rhagfyr 2021. O ganlyniad, mae gofyn cynnal adolygiad o'r CDLl er mwyn sicrhau bod cynllun mewn grym ar gyfer y bwrdeistref sirol ar ôl y dyddiad dod i ben.

*A oes gofyn cynnal adolygiad o'r CDLl Mabwysiedig – Casgliad*

5.12 O ystyried yr uchod, daeth AMB 2019 i'r casgliad bod gofyn cynnal adolygiad o'r CDLl ac y dylid cychwyn arno ar unwaith. Dylid nodi bod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cynghori awdurdodau cynllunio lleol, a oedd â chynlluniau wedi'u mabwysiadu cyn cyflwyno'r Ddeddf Gynllunio yn 2015, nad yw eu cynlluniau'n dod i ben ar ddiwedd cyfnod eu cynllun. Yn hytrach maent yn parhau i ddarparu fframwaith polisi ar gyfer ystyried cynigion datblygu. Er bod hyn yn dileu un o'r rhesymau dros symud tuag at adolygiad o'r CDLl, nid yw'n tanseilio'r angen i gynnal adolygiad llawn a llawn o'r CDLl.

## Pa fath o adolygiad y dylid ei gynnal?

5.13 Ceir 2 ffurf bosibl o adolygiad y byddai modd eu cynnal mewn perthynas â'r cynllun.

*CDLl Ysgafn*

5.14 Mae Deddf Cynllunio Cymru 2019 yn nodi'r darpariaethau er mwyn paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Yn ychwanegol i hyn, mae'r Ddeddf yn nodi'r darpariaethau ar gyfer awdurdodau lleol yn yr ardal y mae ganddynt CDS i gynnal ffurf fer o adolygiad CDLl a enwir yn CDLl Ysgafn. Byddai'r CDLl Ysgafn yn cael budd o'r strategaeth gyffredinol a'r polisïau strategol a gyflwynir yn y CDS. O ganlyniad, byddai CDLl Ysgafn yn cynnwys polisïau rheoli datblygiad lleol a dyraniadau.

5.15 O ystyried y ffaith bod llai o gynnwys ac na fyddai gofyn i'r CDLl Ysgafn fynd trwy gam y Strategaeth a Ffefrir, o ganlyniad i Strategaeth CDS, byddai'n gyflymach paratoi CDLl Ysgafn nag adolygiad llawn. Fodd bynnag, ceir cyswllt uniongyrchol rhwng CDLl Ysgafn a'r CDS, felly byddai angen ei baratoi ar ôl y CDS, er y gallai fod yn bosibl cychwyn ar y broses o baratoi CDLl Ysgafn ar ôl i'r CDS gyrraedd statws o sicrwydd cymharol, h.y. cyflwyno i'w archwilio. Trwy gychwyn ar y gwaith o baratoi CDLl Ysgafn cyn y caiff y CDS ei fabwysiadu, ceir perygl y gellir canfod nad yw CDLl Ysgafn yn cyd-fynd â'r CDS os gwneir newidiadau i'r CDS fel rhan o'r broses archwilio. Byddai hyn yn gofyn am waith ychwanegol er mwyn rhoi sylw i'r mater, a byddai'n cynyddu'r amser paratoi ar gyfer CDLl Ysgafn.

5.16 Er y byddai'r broses o baratoi'r CDLl Ysgafn yn fyrrach, mae'r ffaith y byddai angen oedi'r gwaith o baratoi CDLl Ysgafn nes y byddai'r CDS wedi cyrraedd cam datblygedig, yn golygu

y byddai'r CDLl Ysgafn yn cael ei fabwysiadu yn 2026 ar y cynharaf, neu hyd yn oed ar ôl hynny os bydd oedi wrth baratoi'r CDS. Byddai hynny yn golygu y byddai'r bwrdeistref sirol heb ddarpariaeth CDLl am o leiaf 5 mlynedd.

*Adolygiad CDLl Llawn*

5.17 Mewn cymhariaeth, byddai adolygiad llawn o'r CDLl Mabwysiedig yn gofyn am y broses lawn, gan gynnwys cam y Strategaeth a Ffefrir. Mae'r broses o gynnal adolygiad llawn yn ddrytach ac yn cymryd yn hirach na'r broses CDLl Ysgafn ac mae LlC yn disgwyl i Ddiwygiadau CDLl gymryd tair blynedd a hanner i'w paratoi a'u mabwysiadu.

5.18 Dylid nodi y byddai angen bod yn ofalus wrth baratoi adolygiad llawn o'r CDLl er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r CDS wrth iddo gael ei ddatblygu, er y byddai ychydig y tu ôl i'r CDLl. Os na fydd y CDLl Newydd yn cydymffurfio â'r CDS mabwysiedig yn gyffredinol, byddai gofyn cynnal adolygiad pellach o'r CDLl, er y byddai hynny ar ffurf CDLl Ysgafn.

*Ffurf yr Adolygiad – Casgliad*

5.19 Y prif fater mewn perthynas â ffurf yr adolygiad yw bod y CDLl Mabwysiedig yn agosáu at ddiwedd cyfnod y cynllun, ac er na fydd y cynllun yn colli ei bwys, mae'r ffaith yn parhau y byddai'r cynllun yn gweithredu y tu allan i gyfnod y cynllun ac mae yna faterion sydd wedi codi mewn perthynas â thai a thir cyflogaeth y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae'n hanfodol bod y rhain yn cael sylw fel mater o flaenoriaeth a byddai hyn yn golygu bod angen adolygiad llawn gan fod cyflogaeth a darpariaeth tir tai wrth wraidd unrhyw strategaeth yn y dyfodol.

5.20 O ganlyniad, dylid cynnal adolygiad llawn o'r CDLl Mabwysiedig.

## Y Cwmpas er mwyn Cydweithio

5.21 Mae'n ofyniad yn yr Adroddiad Adolygu ei fod yn ystyried y potensial ar gyfer:

- paratoi CDLl ar y cyd gydag awdurdodau eraill, a/neu
- Gydweithio i sicrhau tystiolaeth

*Paratoi CDLl ar y Cyd*

5.22 Ceir cefnogaeth gyffredinol gan bob awdurdod yn y Rhanbarth PC tuag at y cam o gydweithio er mwyn paratoi CDS. Fodd bynnag, ceir sawl mater sy'n effeithio ar y potensial er mwyn cynnal adolygiadau ar y cyd yn lleol.

5.23 Yr egwyddor y seiliwyd y gwaith o baratoi Cyd-gynlluniau arni yw bod dull cynhwysfawr a chydgysylltiedig yn cael ei fabwysiadu tuag at faterion trawsffiniol. Byddai hyn yn mynnu y byddai angen bod gan y ddau awdurdod y byddent yn gallu paratoi cyd-gynlluniau, ffin gyffredin a fyddai'n creu materion trawsffiniol. Er ei bod yn ddigon posibl y gallai fod gan ddau awdurdod a wahanir mewn ffordd ffisegol faterion cysylltiedig, mae'r ffaith y byddai awdurdod(au) pellach na fyddent yn rhan o'r cyd-gynllun, yn golygu na fyddai modd rhoi sylw priodol i'r materion, o ganlyniad i'r diffyg cyffredinol o ran darpariaeth. O ganlyniad, byddai'n amhriodol ystyried awdurdodau heb ffin ffisegol gyda'r bwrdeistref sirol ar gyfer y gwaith o baratoi Cyd-gynllun. Byddai hyn yn golygu na fyddai modd ystyried Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg na Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

5.24 Mater allweddol wrth ystyried y 6 awdurdod sy'n weddill ac sy'n rhannu ffin gyda Chaerffili, yw eu bod i gyd wedi cyrraedd gwahanol gamau yn y broses o baratoi cynllun. Mae gan Gynghorau Casnewydd a Dinas Caerdydd gynlluniau Mabwysiedig ac ni fydd eu cynlluniau nhw yn dod i ben tan 2026, er bod y ddau yn cynnal adolygiadau, er ar wahanol adegau yn y broses baratoi i Caerffili.

5.25 Mae'r 5 awdurdod sy'n weddill wedi cychwyn adolygiad o'u cynllun. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau Covid a mater ymgynghoriadau maent i gyd ar bwyntiau ychydig yn wahanol yn y broses oddi wrth ei gilydd. Mae Tabl 2 isod yn nodi sefyllfaoedd priodol pob awdurdod o ran eu gweithgarwch paratoi cynllun.

| Awdurdod | Mabwysiadu | Adolygu | Dod i ben | Cam Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 2012 | 2016 | 2021 | Oedi wedi'i achosi gan gyfyngiadau Covid, ail alwad am safleoedd ymgeiswyr wedi'u canslo. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2013 | 2017 | 2021 | Ymgynghoriad am Adneuo yn gynnar yn 2021 |
| Caerffili | 2010 | 2014 | 2021 | Daeth Ymgynghoriad DA i ben ar 29 Mawrth 2021, i'w gyflwyno i LlC yn gynnar ym mis Mehefin 2021 |
| Caerdydd | 2016 | 2020 | 2026 | Daeth Ymgynghoriad DA i ben ar 29 Mawrth 2021, i'w gyflwyno i LlC yn gynnar ym mis Mehefin 2021 |
| Merthyr Tudful | 2011 | 2015 | 2021 | Mabwysiadwyd y CDLl yn ddiweddar. |
| Sir Fynwy | 2014 | 2019 | 2021 | Dechreuodd yr ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir yn gynnar yn 2021 er bod cyfyngiadau Covid yn effeithio ar y broses. |
| Casnewydd | 2015 | 2019 | 2026 | Cwblhawyd yr ymgynghoriad ar DA a'r Adroddiad Adolygu. |
| RhCT | 2011 | 2015 | 2021 | Cytunodd DA ym mis Medi 2020, gan weithio tuag at y Strategaeth a Ffefrir |
| Torfaen | 2012 | 2016 | 2021 | Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn mynd rhagddo |
| Bro Morgannwg | 2013 | 2017 | 2021 | Adolygiad yn cychwyn Mehefin 2021 |

***Tabl 1: Tabl 2: Statws CDLlau a'r sefyllfa bresennol mewn Perthynas ag Adolygiad***

Er bod potensial i Caerffili a RhCT ymgymryd â chynlluniau ar y cyd pan ysgrifennwyd yr Adroddiad Adolygiad Drafft, mae pethau wedi newid ers hynny ac, oherwydd gwahanol effeithiau Covid ar yr awdurdodau, maent bellach ar wahanol adegau yn y broses. Byddai oedi un awdurdod rhag parhau i ganiatáu i'r llall ddal i fyny a pharhau fel cynlluniau ar y cyd nid yn unig yn achosi oedi gormodol i un awdurdod (gan roi eu hamserlen gyflawni o bosibl yn y fantol) aeth y ddau awdurdod ati i baratoi eu cynllun eu hunain ac o'r herwydd byddai'n amhriodol iddyn nhw uno nawr.

5.26 Yn yr un modd, mae'r 5 awdurdod arall sy'n ffinio â Chaerffili ar wahanol adegau yn y broses ac fe'u paratowyd fel dogfennau annibynnol, a fyddai'n achosi problemau sylweddol pe byddent yn cael eu halinio a'u paratoi ar y cyd. O ystyried hyn nid oes lle i baratoi

cynlluniau ar y cyd ag un o'r awdurdodau eraill.

*Cydweithio*

5.27 Mae Caerffili wrthi'n edrych ar weithio ar y cyd â'r awdurdodau hynny sydd wedi ymrwymo i Adolygiad CDLl. Ar adeg drafftio'r Adroddiad Adolygu hwn roedd Caerffili wedi gweithio, ac yn parhau i weithio, gydag awdurdodau eraill ar amryw o faterion trawsffiniol, megis yr astudiaeth economaidd 'Mwy na Lleol' a'r asesiadau ynni adnewyddadwy. Mae Caerffili wedi gweithio gyda chynghorau Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent a RhCT i baratoi tystiolaeth ac fel cyd-gaffael ar gyfer datrysiad cronfa ddata ar gyfer y broses CDLl.

5.28 Yn ychwanegol i hyn, mae SEWSPG yn ystyried cyfleoedd i gydweithio ar draws y rhanbarth ar ystod eang o feysydd tystiolaeth posibl.

5.29 Bydd SEWSPG a Chaerffili yn ceisio gwneud y defnydd mwyaf o'r cyfleoedd i gydweithio wrth i'r broses o baratoi'r cynllun fynd rhagddi.

## Casgliad

5.30 Mae'r Adroddiad Adolygu hwn yn dod i'r casgliad:

I. Yn unol ag Adroddiad AMB 2019, bod gofyn cynnal adolygiad o'r CDLl Mabwysiedig

II. Gan gytuno â phenderfyniad y cyngor a wnaethpwyd ar 23 Hydref 2019, y dylid cymeradwyo adolygiad llawn o'r CDLl ar unwaith

III. Byddai'n amhriodol cynnal cynllun ar y cyd gydag awdurdod lleol arall o ganlyniad i'r gwahaniaeth sylweddol o ran y cynnydd a sicrhawyd ar y gwaith o baratoi cynllun ac mewn perthynas â'r materion a'r strategaethau ar gyfer y broses adolygu.

IV. Y dylai Caerffili a SEWSPG barhau i fanteisio ar y cyfleoedd i ddefnyddio cydweithio wrth symud ymlaen gyda'r gwaith o baratoi'r cynllun.

# Atodiad 1: Perfformiad Polisi Strategol a Chamau Gweithredu

Sylwch, o ganlyniad i hepgor y gofyniad i baratoi AMB ar gyfer 2020, mae'r tabl hwn yn adlewyrchu canfyddiadau AMB 2019

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| **SP1** | | | | Cyflawnir y polisi yn ôl y disgwyl | Nid oes angen gweithredu |
| **SP2** | Ffactor 3 | Cymudo allan fel canran o gyfanswm y gweithgarwch cymudo gan breswylwyr y bwrdeistref sirol. | Y trothwy ar gyfer y ffactor hwn yw bod cymudo allan yn codi dros 50%. Y gyfradd gyfredol yw 52.7%, sy'n gynnydd o 4.7% o'i chymharu â'r sefyllfa y llynedd. Ysgogwyd y polisi dair gwaith yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf. | Tynnir y ffigurau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, sy'n darparu gwybodaeth am batrymau cymudo fesul awdurdod lleol yng Nghymru. Mae hwn yn arolwg sampl sy'n destun amrywiadau naturiol. Mae hyn yn arwain at amrywiadau naturiol yn y canlyniadau, y gallent esbonio pam mai dim ond 3 blwyddyn o'r 8 sydd wedi cyrraedd y trothwy. Gan bod y flwyddyn flaenorol yn is na'r trothwy a bu amrywiad sylweddol, ni ystyrir bod hwn yn fater y mae gofyn cymryd camau yn ei gylch ar unwaith, a dylid ei fonitro ymhellach. | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau ar unwaith. Bydd angen ei ystyried ymhellach os bydd AMB y flwyddyn nesaf yn cyrraedd y trothwy hefyd. |
| **SP3** | Ffactor 2 | Canran cyfanswm y datblygiad tai newydd sydd ar dir Llwyd. | Dim ond 61% o ddatblygiadau tai newydd oedd ar dir llwyd, a oedd yn is na'r trothwy, sef 88%. | Bu gostyngiad yn nifer y tai a gaiff eu cwblhau ar safleoedd llwyd o'i chymharu â'r sefyllfa yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r datblygiad ar ddau safle maes glas a neilltuwyd yn y CDLl. Roedd y gwaith arall a gwblhawyd ar | Nid oes angen cymryd unrhyw gamau ar unwaith. Bydd angen ei ystyried ymhellach os bydd AMB y flwyddyn nesaf yn cyrraedd y trothwy hefyd. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | feysydd glas ar safleoedd bach yn bennaf (llai na 5 annedd), yr oeddent yn safleoedd mewnlenwi o fewn y ffin anheddiad diffiniedig, sy'n cyd- fynd â nod y strategaeth o gysoni datblygiad o fewn ffiniau aneddiadau presennol.<br><br>Er bod y polisi wedi cyrraedd y trothwy, mae'r ffaith bod y safleoedd maes glas wedi cael eu datblygu o fewn terfynau aneddiadau yn golygu nad yw'r polisi ei hun yn methu. Fodd bynnag, bydd AMBau yn y dyfodol yn cofnodi gwaith a gaiff ei gwblhau ar safleoedd maes glas, a ganiateir ar apêl. | |
| **SP4** | Ffactor 1 | Nifer yr ymwelwyr â chanol y 3 phrif dref bob blwyddyn. | Mae nifer yr ymwelwyr â Bargoed wedi gostwng ac mae'n is na'r targed. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â Chaerffili a'r Coed- duon dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae Caerffili yn parhau i fod yn is na'r targed. | Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â Bargoed, ond mae hyn i'w ddisgwyl gan bod y dref yn cofnodi nifer yr ymwelwyr mewn un lleoliad yn unig nawr, yn hytrach na mewn dau leoliad, fel yr oedd yn arfer digwydd yn flaenorol. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r Coed- duon a Chaerffili, ond mae hwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan nad oedd data ar gael am 6 | Nid oes angen gweithredu pellach. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wythnos oherwydd rhaglen i ddisodli peiriannau monitro nifer yr ymwelwyr. | |
| **SP4** | Ffactor 2 | Cyfraddau Gwacter yng nghanol y 5 prif dref. | Mae cyfraddau gwacter ym Margoed dros 20% am y 5ed flwyddyn yn olynol. Maent wedi codi 2.1% yn uwch na chanlyniadau y llynedd. | Mae'r gyfradd gwacter ym Margoed yn parhau i fod yn uwch nag 20%, gan godi 2.1% i 22.9% o'i chymharu â ffigurau 2018. Gwnaethpwyd gwaith adfywio sylweddol ym Margoed ac mae wedi dioddef o ganlyniad i'r dirwasgiad. Fodd bynnag, mae datblygwyr yn parhau i ddangos diddordeb yn y dref, a allai olygu y bydd Bargoed yn dychwelyd i fod yn is na'r trothwy, ond efallai na fydd hyn yn digwydd yn fuan.<br>Bu cynnydd bach mewn cyfraddau gwacter yn Ystrad Mynach a'r Coed-duon yn ystod y cyfnod monitro, er bod y ffigwr yn y ddwy dref dan 15%, felly mae o fewn lefel fonitro dderbyniol. | Nid oes angen gweithredu pellach. |
| **SP4** | Ffactor 3 | Canran y preswylwyr sy'n fodlon gyda chanol eu trefi. | Caerffili yn unig (5ed blwyddyn ond nid yw wedi cael ei ddiwygio ers 5 mlynedd). Mae 3% yn is na'r trothwy | Caerffili yw'r unig ganolfan i gyrraedd y trothwy ac mae hyn heb os yn ymwneud â'r diffyg ailddatblygu sydd wedi digwydd yng nghanol y dref o ganlyniad i'r dirywiad economaidd. Ni ddiweddarwyd y | Nid oes angen gweithredu pellach. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | data ers 5 mlynedd, felly mae wedi dyddio erbyn hyn | |
| **SP4** | Ffactor 4 | Canran yr arian a gaiff ei wario yng nghanolfannau manwerthu y Bwrdeistref Sirol o'i chymharu â chyfanswm y gwariant. | Nwyddau nad ydynt yn rhai swmpus yn unig (5ed blwyddyn ond 5 mlynedd ers y diwygiwyd y data y tro diwethaf). Mae hwn lawer yn is na'r trothwy. | Mae'r gwariant manwerthu wedi gostwng ar draws y bwrdeistref sirol, yn unol â'r dirwasgiad. Gwaethygwyd y sefyllfa hon gan y gwaith adfywio a wnaethpwyd ym Margoed a'r diffyg ailddatblygu yng Nghaerffili. Ni ddiweddarwyd y data ers 5 mlynedd felly mae wedi dyddio erbyn hyn. Er y bydd angen monitro'r mater hwn yn ofalus yn y dyfodol, nid yw'n fater eto a fyddai'n golygu bod gofyn adolygu'r cynllun. | Dim gweithredu ar hyn o bryd. |
| **SP5** | Ffactor 1 | Nifer y ceisiadau am ffurfiau datblygu trefol (heb eu diffinio gan faen prawf C, Polisi CW15) wedi'u lleoli y tu allan i ffiniau aneddiadau a gymeradwywyd gan CBSC neu a ganiatawyd ar apêl | Hon yw'r drydedd flwyddyn o gyrraedd y trothwy ar gyfer y Ffactor hwn. Eleni, mae wedi cael ei gyrraedd mewn perthynas â nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn fonitro (5 cais), a'r trothwy o weld tair blwyddyn o'r bron pan | Mae nifer y ceisiadau a gymeradwywyd ar gyfer ffurfiau datblygiad trefol y tu allan i'r anheddiad wedi gostwng o 20 y llynedd i 5 eleni. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo ceisiadau materion neilltuol mewn perthynas â 2 safle tai mawr a gymeradwywyd ar apêl a 3 safle tai bach (aneddiadau | Nid oes angen gweithredu pellach. Bydd angen ei ystyried ymhellach os bydd AMB y flwyddyn nesaf yn cyrraedd y trothwy hefyd. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gymeradwywyd datblygiad trefol y tu allan i ffiniau'r anheddiad. | unigol mewn lleoliadau priodol). Gallai'r newid o ran safiad y polisi i ddatgymhwyso'r "pwys sylweddol" a roddir i ddiffyg cyflenwad tir 5 mlynedd newid ystyriaeth ceisiadau yn y dyfodol, felly fe allai ostwng nifer y ceisiadau tybiannol y tu allan i aneddiadau a gymeradwyir yn y dyfodol, a bydd angen monitro hyn mewn AMBau yn y dyfodol. | |
| **SP6** | | | | Cyflawnir y polisi yn ôl y disgwyl | Nid oes angen gweithredu |
| **SP7** | | | | Cyflawnir y polisi yn ôl y disgwyl | Nid oes angen gweithredu |
| **SP8** | Ffactor 2 | Defnydd blynyddol cyfartalog o agregau gan y diwydiant adeiladu (swm cyfartalog dros y 3 flwyddyn flaenorol) | Cyrhaeddwyd y trothwy ym mhob blwyddyn pan wnaethpwyd y gwaith monitro, ac eithrio pan nad oedd data ar gael. | Ceir cyswllt allweddol rhwng gweithgarwch cynhyrchu mwynau a defnyddio mwynau (ni chynhyrchir mwynau os nad oes marchnad ar eu cyfer). Gwelwyd y defnydd a wneir o fwynau yn lleihau mewn ffordd dramatig o ganlyniad i'r dirywiad economaidd ac nid yw wedi adfer | Nid oes angen gweithredu pellach. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | mewn unrhyw ffordd sylweddol eto. O ganlyniad, mae gweithgarwch cynhyrchu mwynau wedi lleihau mewn ffordd ddramatig er mwyn adlewyrchu hyn. Nid oes angen gweithredu. O ystyried y ffaith nad oes diffyg cynhyrchu o'I gymharu â'r defnydd, nid yw'r ffaith bod y Ffactor yn cyrraedd y trothwy yn arwyddocaol. | |
| **SP9** | | | | Cyflawnir y polisi yn ôl y disgwyl | Nid oes angen gweithredu |
| **SP10** | Ffactor 2 | Nifer y ceisiadau a gymeradwyir sy'n arwain at golli Ardal SBCN/LNR i ddatblygiadau | Cyrhaeddwyd y trothwy am y bumed blynedd o'r bron, ond oherwydd ei fod yn seiliedig ar drothwy cronnus 3 blynedd, mae wedi methu am y 7 mlynedd ddiwethaf mewn gwirionedd. Mae nifer y ceisiadau a gymeradwywyd wedi gostwng o 12 i 3. | Mae'r Ffactor hwn, fel nifer o rai eraill, yn seiliedig drothwy absoliwt nad yw'n ystyried natur y ceisiadau a ganiateir. Er bod 3 chais wedi cofnodi colli tir SBCN/LNR, nid oes unrhyw ddisgrifiad ynghylch a yw'r ceisiadau yn arwain at unrhyw niwed i'r tir hwn. Mae'r tri chynnig y rhoddwyd caniatâd iddynt mewn SBCNau yn cynnwys dau gynllun un annedd | Nid oes angen unrhyw weithredu ar hyn o bryd, er y dylid ystyried unrhyw achos dilynol o gyrraedd y trothwy yn ofalus, ac efallai y bydd gofyn ystyried gweithgarwch adferol. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | – un o fewn cwrtil annedd presennol ac un ar ymyl annedd, a defnydd diwydiannol. Ym mhob achos, barnwyd nad oedd unrhyw niwed i'r SBCN. Mae dau Ddangosydd yn rhoi sylw i ddynodiadau tirwedd. Mae un yn ymwneud â VILLs ac mae'r llall yn ymwneud ag ATAoedd, ac nid oes un ohonynt wedi cyrraedd y trothwy eleni, er bod y ddau wedi cyrraedd y trothwy yn ystod blynyddoedd blaenorol | |
| **SP11** | | | | Cyflawnir y polisi yn ôl y disgwyl | Nid oes angen gweithredu |
| **SP12** | | | | Cyflawnir y polisi yn ôl y disgwyl | Nid oes angen gweithredu |
| **SP13** | | | | Cyflawnir y polisi yn ôl y disgwyl | Nid oes angen gweithredu |
| **SP14** | Ffactor1 | Cyfradd adeiladu flynyddol | Mae'r dangosydd hwn wedi cyrraedd y trothwy am y drydedd flwyddyn o'r bron, gan bod cyfanswm cyfartalog y gwaith adeiladu a gaiff ei gwblhau lawer yn is na 50% o'r gofyniad blynyddol cyfartalog. | Mae canlyniad 2019 lawer yn is na lefel y trothwy, sef 288 uned ar gyfer y Ffactor hwn. Mae'r ffigwr cwblhau tai wedi gostwng o'i gymharu â'r sefyllfa y llynedd (284 o'i gymharu â 190) ac mae'n destun pryder bod gwaith cwblhau lawer yn is na 50% o'r gofyniad blynyddol. Mae lefel isel y gwaith | Mae gofyn gweithredu er mwyn gwella'r ddarpariaeth tai yn gyffredinol. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cwblhau yn rhannol oherwydd effeithiau'r dirwasgiad economaidd, lle'r oedd nifer y ceisiadau tai a gyflwynwyd wedi gostwng yn sylweddol. Ceir materion hyfywedd o hyd ynghylch datblygu mewn rhannau penodol o'r Bwrdeistref Sirol | |
| **SP15** | Ffactor 1 | Niferoedd yr unedau tai fforddiadwy blynyddol a ddarparwyd trwy'r system gynllunio fel canran o gyfanswm yr unedau tai (yn seiliedig ar yr unedau a adeiladwyd) | Cyrhaeddwyd y trothwy am y 7fed blwyddyn o'r bron ar gyfer yr ardaloedd 10% a 25%, ac mae'r ffigurau lawer yn is na lefel y trothwy. Roedd wedi cyrraedd y trothwy yn yr ardal 40% eleni hefyd | Ni ddarparir tai fforddiadwy yn unol â'r cyfraddau gofynnol, ond mae hyn yn ganlyneb y ffaith bod gweithgarwch adeiladu tai yn gyffredinol yn is o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd. Mae lefelau isel hyfywedd datblygu yn cael effaith ar lefel y tai fforddiadwy a ddarparir hefyd, ac fe allai hyn, ar y cyd â gostyngiadau posibl mewn cyllid grant cyfalaf, arwain at leihad pellach o ran y ddarpariaeth tai fforddiadwy. | Mae gofyn gweithredu er mwyn gwella'r ddarpariaeth tai fforddiadwy. |
| **SP15** | Ffactor 2 | Pris Tŷ Cyfartalog (dros lefel sylfaenol Astudiaeth Hyfywedd 2009) | Cyrhaeddwyd y trothwy am y drydedd flwyddyn wrth i brisiau tai barhau i godi. | Mae'r Ffactor wedi cyrraedd y trothwy am y trydydd tro. Bellach, mae bron £13,500 yn uwch na'r prawf sensitifrwydd uchaf a ddefnyddir i osod y targedau tai fforddiadwy. | Nid oes gofyn gweithredu ar hyn o bryd. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mewn theori, dylai'r codiad mewn prisiau tai olygu y dylai datblygiad fod yn fwy hyfyw, a bod mwy o dai fforddiadwy yn cael eu darparu, ond ceir nifer o ffactorau y mae angen eu hystyried fesul safleoedd unigol sy'n dylanwadu ar hyn. Yn gyffredinol, mae angen gwella darpariaeth tai fforddiadwy, a byddai'r cynnydd mewn prisiau tai cyfartalog yn cynorthwyo hyn, yn hytrach na bod yn destun pryder. | |
| **SP16** | Ffactor 3 | Nifer y cyflogeion mewn cyflogaeth rhan-amser fel canran o gyfanswm y cyflogeion mewn cyflogaeth | Cyrhaeddwyd y trothwy am y seithfed tro o'r bron. | Mae hwn wedi cael ei gyrraedd bob blwyddyn i bob pwrpas, ac eithrio'r flwyddyn gyntaf pan oedd diffyg data wedi golygu na fu modd ei fonitro.<br><br>Pennwyd y fframwaith monitro cyn y dirywiad economaidd ac mae'n nodi trothwyon y maent yn fwy adlewyrchol o'r hinsawdd economaidd fwy ffyniannus. Heb os, y dirywiad economaidd fu'r rheswm dros weld canran y gweithwyr rhan-amser yn | Nid oes gofyn gweithredu ar hyn o bryd. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | cynyddu (gyda llai o weithwyr amser llawn a nifer gynyddol o weithwyr rhan- amser). O ganlyniad, mae'r ffactor sbarduno yn adlewyrchu'r amodau economaidd y maent y tu hwnt i reolaeth y cynllun datblygu ar y cyfan, ac felly, nid yw'n dynodi bod y polisi yn methu | |
| **SP17** | Ffactor 3 | Ardal o ddefnydd cyflogaeth Dosbarth B1 a ganiateir o fewn Ardaloedd Cyfle Masnachol, fel canran o gyfanswm yr ardal ddynodedig | Mae'r Coed-duon a Chaerffili wedi cyrraedd y trothwy, gan na fu unrhyw ddatblygiad swyddfa B1 yn yr ardaloedd diffiniedig gyda 5 mlynedd (Coed-duon) a 3 blynedd (Caerffili). Hon yw'r chweched blwyddyn o'r bron lle y cyrhaeddwyd y trothwy yng Nghaerffili a'r bedwaredd blwyddyn o'r bron ar gyfer y Coed- duon. | Mae'r dangosydd yn ymwneud â rhoi caniatâd ar gyfer defnydd swyddfa dosbarth B1 yn yr Ardaloedd Cyfle Masnachol a nodwyd ym mhob prif dref. Cyrhaeddwyd y trothwy yn y Coed-duon a Chaerffili. Gwelir cyfraddau gwacter cymharol isel yn yr Ardaloedd Cyfle Masnachol yn y ddwy dref a gwelir amrediad o ddefnydd ohonynt, er nad defnydd swyddfa B1. Bu datblygiadau swyddfa mewn rhannau eraill o'r ddwy dref hefyd, sy'n rhywbeth cadarnhaol. Felly, ni ystyrir bod y diffyg datblygiad swyddfa ynddo'i hun yn arwydd o fethiant y polisi hwn. | Nid oes gofyn gweithredu ar hyn o bryd. |
| **SP18** | Ffactor 2 | Niferoedd y ceisiadau cynllunio sy'n | Cyrhaeddwyd y trothwy am y | Pennwyd y fframwaith monitro pan oedd lefelau | Nid oes gofyn gweithredu ar hyn o bryd. |

| Polisi | | Mater | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | darparu lleoedd chwarae ffurfiol newydd trwy gyfrwng cytundebau A106 | seithfed tro o'r bron. | datblygu yn uchel a phennwyd lefel y trothwy ar gyfer y Ffactor hwn yn erbyn lefelau lles cynllunio uchel. Ers y dirywiad economaidd, mae nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd wedi lleihau'n sylweddol, ac fel canlyneb, mae nifer y cyfleusterau a sicrhawyd trwy gyfrwng cytundebau A106 sydd ynghlwm â'r ceisiadau hynny, wedi gostwng yn yr un modd.<br><br>Felly, mae'r Ffactor yn cyrraedd y trothwy o ganlyniad uniongyrchol i'r dirywiad economaidd, a byddai disgwyl iddo godi pan fydd yr economi yn dechrau adfer. Mae'r amodau economaidd y tu hwnt i reolaeth y cynllun datblygu i raddau helaeth, felly nid yw cyrraedd trothwy y Ffactor yn arwydd arwyddocaol o'r ffaith bod y polisi yn methu. | |
| **SP19** | Ffactor 1a | Nifer y Cynlluniau a nodwyd ym Mholisi TR5 a gyflawnwyd trwy gyfrwng | Cyrhaeddwyd y trothwy am y tro cyntaf. | Mae'r dangosydd hwn yn ystyried nifer y cynlluniau a gyflawnwyd mewn perthynas â Chynlluniau Gwella Trafnidiaeth Polisi | Nid oes gofyn gweithredu ar hyn o bryd. |

| Polisi | | Mater | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhwymedigaethau a chytundebau. | | TR5 yng Nghoridor Cysylltiadau'r Gogledd. Nid oes unrhyw un o'r pum cynllun a nodwyd yn y CDLl wedi cael eu cyflawni am gyfnod o 7 mlynedd. Nid yw hyn ynddo'i hun yn fethiant o ran y cynllun, ond mae'n ymwneud â'r adnoddau ariannol cyfyngedig i ariannu cynlluniau. Y cynlluniau y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt yw'r rhai lle y gwelir y problemau mwyaf sylweddol o ran tagfeydd. | |
| **SP20** | Ffactor 2 | Nifer y Cysylltiadau a gaiff eu Monitro y maent yn Uwch na lefel CRF, nad oes gwelliannau wedi'u cynllunio ar eu cyfer | Cyrhaeddodd y trothwy am yr ail dro, ond mae wedi cyrraedd bob blwyddyn mewn gwirionedd, ond ni chofnodwyd hynny o ganlyniad i'r ffaith bod y trothwy dros gyfnod o 3 blynedd ac nid oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer AMB 2014. | Mae pedwar o'r 17 cyswllt a gaiff eu monitro yn uwch na'u capasiti dylunio enwol, ond mae gan 3 o'r cysylltiadau gynigion yn y CDLl er mwyn rhoi sylw i'r mater.<br><br>Nid yw un o'r cysylltiadau yn destun cynigion gwella, felly mae'n cyrraedd trothwy y polisi.<br><br>Roedd gwelliannau yn parhau wrth gylchfan Pwllypant yn ystod y cyfnod monitro a byddai hyn wedi cael effaith ar rwydwaith priffyrdd Strategol ehangach Caerffili. Mae'r cynllun gwella wedi cael ei gwblhau erbyn hyn a bydd angen ystyried effeithiau hwn trwy gyfrwng | Nid oes gofyn gweithredu ar hyn o bryd. |

| Polisi | Mater | | Sylw | Ystyriaeth | Gweithredu sy'n Ofynnol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwaith monitro yn y dyfodol oherwydd ei bod yn debygol y bydd y tagfeydd yn lleihau yn gyffredinol. Felly, ni ystyrir bod cyrraedd trothwy y dangosydd hwn yn dynodi bod y polisi yn methu | |
| **SP21** | | | | Cyflawnir y polisi yn ôl y disgwyl | Nid oes angen gweithredu |
| **SP22** | | | | Cyflawnir y polisi yn ôl y disgwyl | Nid oes angen gweithredu |

# Atodiad 2: Perfformiad Polisi Strategol yn Erbyn Amcanion CDLl

Sylwch, o ganlyniad i hepgor y gofyniad i baratoi AMB ar gyfer 2020, mae'r tabl hwn yn adlewyrchu canfyddiadau AMB 2019

| | Amcan CDLl | Sylwebaeth | Perfformiad |
|---|---|---|---|
| 1 | Ymaddasu i lefelau. cynaliadwy o dwf mewn poblogaeth. | Nododd Cyfrifiad 2011 bod y Bwrdeistref sirol eisoes wedi ymaddasu i'r lefelau poblogaeth a ragwelwyd ar gyfer diwedd cyfnod y cynllun. Er y llwyddwyd i fodloni'r lefelau poblogaeth rhagamcanol, nid yw'r datblygiad tai cysylltiedig sy'n ofynnol er mwyn sicrhau y bodlonir y lefel hon mewn poblogaeth yn y ffordd fwyaf gynaliadwy, wedi cael ei gyflawni fel y disgwyl. | |
| 2 | Sicrhau y caiff y Bwrdeistref Sirol ei wasanaethu'n dda gan le agored cyhoeddushygyrch a lle gwyrdd naturiol hygyrch. | Mae'r polisïau sy'n diogelu ac yn gwella mannau gwyrdd naturiol ac agored yn perfformio'n dda a bodlonir yr amcan. | |
| 3 | Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau naturiol ac adeiledig gan atal adnoddau y mae pen draw iddynt rhag cael eu sterileiddio mewn ffordd ddianghenraid trwy gyfrwng datblygiad amhriodol. | Mae'r fframwaith polisi yn darparu datblygiad priodol. Er bod polisi SP10 yn codi materion ynghylch datblygiad mewn SBNCoedd, ATAoedd a VILLs, mae graddfa'r datblygiad hwn yn gyfyngedig iawn ac at ei gilydd, mae'n dderbyniol yn yr ardaloedd hynny. O'r herwydd, bodlonir yr amcan yn gyffredinol. | |
| 4 | Sicrhau bod effaith amgylcheddol pob datblygiad newydd yn cael ei leihau i'r eithaf. | Mae gwaith monitro AAS/AoG o'r amgylchedd yn gweld effeithiau cadarnhaol cyffredinol sylweddol o'r cynllun. Mae polisïau diffyndollol a gwella ar gyfer yr amgylchedd naturiol yn gweithio hefyd, ac mae'r amcan yn cael ei fodloni. | |
| 5 | Gwella effeithlonrwydd ynni, gwastraff a dŵr tra'n hyrwyddo ynni adnewyddadwy sy'n dderbyniol ar lefel amgylcheddol er mwyncynnal amgylchedd glanach a helpu i leihau ein heffaith ar y newid yn yr hinsawdd. | Mae nifer o'r mesurau a ddefnyddir er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn y tu hwnt i gwmpas y CDLl. Fodd bynnag, mae'r fframwaith polisi yn cyfrannu at yr amcan cyffredinol ac mae gwaith Monitro AAS/AoG yn gweld effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â'r materion hynny sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd, er y gallai'r gyfradd sicrhau gwelliant fod yn isel. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | Annog gweithgarwch rheoli gwastraff sy'n seiliedig ar hierarchaeth lleihau, ailddefnyddio, adfer (gan gynnwysailgylchu deunyddiau, adfer ynni a chompostio) a gwaredu diogel. | Mae nifer o'r mesurau a ddefnyddir i wireddu'r hierarchaeth y tu hwnt i gylch gwaith y CDLl. Fodd bynnag, mae'r fframwaith polisi yn cynorthwyo wrth ddarparu gweithgarwch rheoli gwastraff cynaliadwy ac mae'r gwaith Monitro AAS/AoG yn sicrhau effeithiau cadarnhaol mewn perthynas ag elfennau penodol o wastraff. | |
| 7 | Annog ailddefnyddio a / neu adfer tir llwyd a thir halogedig priodol ac atal halogi a dadfeilio pellach | Mae mwyafrif y safleoedd tir llwyd a neilltuwyd yn yr NCC a'r SCC wedi cael eu hadfer a'u hailddatblygu. Mae'r fframwaith polisi yn rheoli datblygiad er mwyn sicrhau na fydd halogi pellach yn digwydd. Bodlonir yr amcan. | |
| 8 | Canolbwyntio datblygiad newydd mewn lleoliadau priodol ar hyd rhwydweithiau seilwaith arfaethedig ac sy'n bodoli eisoes, y maent yn hygyrch i gerddwyr, beicwyr ac i drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cynnal a chyfannu rôl a swyddogaeth aneddiadau unigol. | Mae'r egwyddor hon yn cynnig sylfaen i'r strategaeth datblygu ar gyfer y CDLl ac mae'r dyraniadau wedi ystyried y mater hwn yn llawn. Ystyrir y mater hwn hefyd wrth iddo gael ei nodi yn y fframwaith polisi, yr ystyrir cynigion datblygu yn eu herbyn. Bodlonir yr amcan hwn. | |
| 9 | Sicrhau bod amrediad digonol a phriodol o safleoedd tai ar gael ar draws y Bwrdeistref Sirol yn y lleoliadaumwyaf addas er mwyn bodloni gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth. | Fel yr amlinellwyd yn amcan 1, cyrhaeddwyd maint y boblogaeth rhagamcanol ar gyfer cyfnod y cynllun yn barod ond dim ond ychydig dros 50% o'r ddarpariaeth tai ofynnol sydd wedi cael ei darparu. Er y gellir priodoli'r lefelau datblygiad tai isel hyn i'r hinsawdd economaidd a arweiniodd at gyfraddau datblygu isel yn ystod rhan gynnar cyfnod y cynllun, dim ond dwy flynedd sydd ar ôl o'r cynllun ac nid oes digon o amser i roi sylw i'r diffyg sylweddol. Ymhellach, ni chaiff tai fforddiadwy eu darparu ar y lefelau gofynnol ychwaith. O ganlyniad, nid yw'r amcan hwn yn cael ei fodloni. | |
| 10 | Sicrhau y caiff yr holl ddatblygiad newydd ei ddylunio yn dda a'i fod. yn ystyried yr ardal o'i gwmpas er mwyn lleihau'r cyfleoedd i droseddu ddigwydd. | Mae dylunio yn ystyriaeth allweddol mewn perthynas â chynigion datblygu ac mae'n elfen bwysig o'r fframwaith polisi. Nid yw gwaith monitro AAS/AoG yn codi unrhyw faterion mewn perthynas â dylunio ac mae dangosyddion sy'n ymwneud â throseddu yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Bodlonir yr amcan hwn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Nodi, diogelu a phan fo hynny'n briodol, gwella tirweddau gwerthfawr a nodweddion tirwedd a'udiogelu rhag datblygiad annerbyniol. | Mae'r cynllun wedi neilltuo tirweddau i'w diogelu a chaiff y rhain eu diogelu trwy'r fframwaith polisi. Mae'r gwaith monitro AAS/AoG yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i rai dangosyddion tirwedd, ond ceir meysydd sy'n peri pryder mewn perthynas â rhai o elfennau'r tirwedd ac mae angen monitro hyn yn y dyfodol. | |
| 12 | Nodi, diogelu a gwella safleoedd cadwraeth natur ac o ddiddordeb gwyddor daear, gan sicrhau y caiffbioamrywiaeth y Bwrdeistref Sirol ei wella. | Mae Polisi SP10 – Cadwraeth Treftadaeth Naturiol wedi cyrraedd y trothwy fel rhan o'r asesiad monitro hwn. Er bod swm y tir a gollir yn fach iawn, mae hyn yn parhau i fod yn broblem ar gyfer y cynllun yn y dyfodol er, o ystyried darnau bach y tir dan sylw, ni chaiff yr amcan ei fodloni fel y cynigiwyd ar hyn o bryd. | |
| 13 | Creu nodweddion tirwedd ac ecolegol priodol newydd fel rhanannatod o ddatblygiad newydd pryd bynnag y bo hynny'n briodol. | Gwelwyd rhai canlyniadau cadarnhaol yn hyn o beth, yn y prosesau monitro AAS/AoG a'r CDLl. Bodlonir yr amcan hwn. | |
| 14 | Rheoli, diogelu a gwella ansawdd a chyfanswm yr amgylchedd dŵr a gostwng cyfanswm y dŵr a ddefnyddir. | Nid yw'r mater hwn wedi dioddef unrhyw effeithiau negyddol gan y gwaith monitro AAS/AoG yn ystod rhan gynnar cyfnod y cynllun, er nad yw'r data wedi bod ar gael ar gyfer y 3 AMB blaenorol. | |
| 15 | Lleihau effaith llifogydd trwy sicrhau y caiff datblygiad agored i niwed mawr iawn ei gyfeirio i ffwrdd o ardaloedd risg pryd bynnag y bo modd. | Mae gwaith monitro AAS/AoG wedi gweld canlyniadau negyddol ar gyfer y mater hwn dros flynyddoedd dilynol. Fodd bynnag, seiliwyd y dangosyddion yn erbyn cymhariaeth sero ac mae ardaloedd bychain yn gallu cael eu heffeithio gan ddatblygiad a bod yn dderbyniol gan mai'r defnydd o'r tir sy'n pennu a ddylid defnyddio safle neu beidio. Er bod darnau bach o dir y maent yn debygol o ddioddef llifogydd yn destun datblygiad, nid yw'r datblygiad arfaethedig yn annerbyniol, ac er bod y canlyniadau monitro yn negyddol, bodlonir yr amcan ar y cyfan (gan na chaniateir datblygiad agored i niwed mawr iawn yn y parthau llifogydd). | |
| 16 | Lleihau tagfeydd trwy leihau'r angen i deithio gymaint ag y bo modd, gan hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy a gwneud ydefnydd mwyaf effeithlon o'r seilwaith trafnidiaeth sy'n bodoli eisoes. | Mae'r anghydbwysedd rhwng poblogaeth a datblygiad preswyl/cyflogaeth yn cael effeithiau cynyddol ar gyfer y mater hwn, y mae wedi gweld canlyniadau negyddol yn ddiweddar. Mae cymudo allan fel cyfran o gyfanswm y teithio sy'n gysylltiedig â gwaith wedi cynyddu eleni ac mae'r ffigwr bellach yn uwch na'r trothwy. Mae dangosyddion eraill, megis nifer yr ysgolion y mae ganddynt gynlluniau teithio, yn dangos rhai symudiadau cadarnhaol tuag at gyflawni'r amcan hwn. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17 | Manteisio ar sefyllfa strategol Caerffili, gan ddatblygu ei rôl ymhellach fel canolfan fasnachol a chyflogaeth yng nghanol Rhanbarth Ddinesig y Cymoedd sydd â chysylltiadau cryfgydag ardal Blaenau'r Cymoedd ac fel y dewis deallus amgen yn lle lleoli datblygiad yng Nghaerdydd a Chasnewydd. | Mae datblygiad cyflogaeth wedi bod yn arafach na'r disgwyl o ganlyniad i amodau economaidd yn ystod rhan gynharach cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, mae AMB 2019 yn dynodi cyfraddau datblygiad is eleni o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Ni fu unrhyw ddatblygiad ar dir cyflogaeth EM1 wedi'i neilltuo at ddefnydd cyflogaeth yn ystod y flwyddyn fonitro hon. Ymhellach, mae swm y tir y rhoddwyd caniatâd iddo ar dir EM1 wedi bod ar ei isaf er 2012. O ran safleoedd cyflogaeth a ddiogelir, mae datblygiad arwynebedd llawr wedi gostwng yn sylweddol ers y llynedd ac mae wedi bod ar un o'r cyfraddau isaf a welwyd yn ystod cyfnod y cynllun. Er bod yr arwynebedd llawr a gafodd ganiatâd ar dir cyflogaeth EM2 wedi cynyddu ychydig o'i gymharu ag y llynedd, ceir pryder sylweddol am lefel y datblygiad economaidd sy'n digwydd yn y Bwrdeistref Sirol ac argaeledd safleoedd deniadol. | |
| 18 | Darparu a diogelu. portffolio amrywiol o dir cyflogaeth ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd cyflogaeth, gan ganolbwyntio yn arbennig ar safleoedd a chyfleoedd cyflogaeth sy'n werth mwy er mwyn bodloni'r angen lleol, gan gynnwys cyfleusterau rheoli gwastraff. | Er y datblygwyd nifer o safleoedd cyflogaeth yn ystod cyfnod y cynllun, mae'n bwysig bod portffolio amrywiol o safleoedd ar gael o hyd er mwyn bodloni'r galw. Fel yr uchod, ceir pryder am y cyfraddau manteisio ar dir cyflogaeth yn y Bwrdeistref Sirol, gan bod cyfraddau manteisio isel yn codi pryderon am addasrwydd y safleoedd yn y CDLl, nad ydynt wedi cael eu datblygu o hyd. | |
| 19 | Annog datblygiad atyniadau twristiaeth o ansawdd uchel ac y maent ar agor yn ystod. pob tymor, a llety i dwristiaid sy'n cyd-fynd ag amgylchedd naturiol ac adeiledig y Bwrdeistref Sirol. | Cyflawnwyd cyfanswm o 6 o blith y 9 dyraniad, o leiaf yn rhannol. O'r herwydd, cyflawnir yr amcan hwn. | |
| 20 | Gwneud cymaint o ddefnydd effeithlon ag y bo modd o'r seilwaith presennol ac annog y gwelliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith er mwyncynnal lefelau datblygu angenrheidiol mewn lleoliadau priodol ar draws y Bwrdeistref Sirol. | Mae datblygiadau ar y rheilffyrdd wedi sicrhau cynnydd da. Ni chyflawnwyd gwelliannau i'r priffyrdd fel y disgwyl, er bod hyn o ganlyniad i lefelau isel y datblygiad sy'n digwydd, sy'n darparu cyllid ar gyfer y gwelliannau hyn. Caiff cynnydd cyffredinol ei sicrhau, ond ni chyflawnir yr amcan fel y disgwyl. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 21 | Diogelu a darparu ystod eang o gyfleusterau cymunedol ac iechyd y maent mewn lleoliad priodol ac yn hawdd troiatynt, ac sy'n bodloni anghenion pob rhan o'r boblogaeth. | Mae mwyafrif y dyraniadau yn y CDLl naill ai wedi cael eu cyflawni neu maent wedi sicrhau caniatâd cynllunio. Cyflawnir yr amcan hwn. | |
| 22 | Cynnal bywiogrwydd, hyfywedd a chymeriad canol trefi a phentrefi y Bwrdeistref Sirol a'u. hail-sefydlu fel ffocws ar gyfer balchder cymunedol a gweithgarwch economaidd. | Mae Polisi SP4, sy'n canolbwyntio ar ganol y prif drefi, wedi cyrraedd y trothwy fel rhan o'r asesiad hwn mewn perthynas â'r pedwar ffactor. Er bod hyn yn arwydd o'r ffaith nas cyflawnir yr amcan mor dda a'r disgwyl, yn enwedig ym Margoed, lle y gwelir cyfradd wacter uchel, mae data anghyflawn ac sydd wedi dyddio wedi dylanwadu ar y dangosyddion. | |
| 23 | Cynnal, gwella a datblygu hierarchaeth i ganol trefi a phentrefi y mae'n hawdd troi atynt, ac y maent yn bodloni anghenion holl rannau'r boblogaeth | Mae Polisi SP4, sy'n canolbwyntio ar ganol y prif drefi, wedi cyrraedd y trothwy fel rhan o'r asesiad hwn mewn perthynas â'r pedwar ffactor. Er bod hyn yn arwydd o'r ffaith nas cyflawnir yr amcan mor dda a'r disgwyl, yn enwedig ym Margoed, lle y gwelir cyfradd wacter uchel, mae data anghyflawn ac sydd wedi dyddio wedi dylanwadu ar y dangosyddion | |
| 24 | Diogelu a gwella ansawdd cyffredinol. amgylchedd naturiol ac adeiledig hanesyddol y Bwrdeistref Sirol | Mae gwaith monitro AAS/AoG wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol a chadarn ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn gyson, gyda'r fframwaith polisi yn diogelu asedau a nifer yr adeiladau sydd mewn perygl yn lleihau yn gyffredinol. Bodlonir yr amcan. | |
| | **Allwedd** | | |
| | | Bodlonir yr Amcan | |
| | | Ni chyflawnir yr Amcan fel y disgwyl ond caiff cynnydd ei sicrhau tuag at ei gyflawni | |
| | | Ni chyflawnir yr Amcan | |

# Atodiad 3: Trosolwg Monitro AAS/AoG

Sylwch, o ganlyniad i hepgor y gofyniad i baratoi AMB ar gyfer 2020, mae'r tabl hwn yn adlewyrchu canfyddiadau AMB 2019

| Amcan | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleihau cyfraddau defnyddio adnoddau cyfartalog pob preswylydd | X | DNA | NM | NM | NM | NM | NM | NM | NM |
| Gwella cyflwr tai a sicrhau bod amrediad y mathau o dai yn hygyrch er mwyn bodloni anghenion preswylwyr. | + | + | + | + | ++ | XX | + | XX | XX |
| Lleihau nifer y troseddau a gyflawnir | + | XX | XX | + | + | + | + | XX | O |
| Gwella cyflawniad addysgol | XX | X | + | + | X | X | O | XX | XX |
| Caniatáu cyfle cyfartal i bawb | NM | NM | NM | NM | NM | NM | NM | NM | NM |
| Cynyddu canran y bobl oedran gwaith sydd mewn cyflogaeth | XX | ++ | O | O | XX | + | + | X | + |
| Cynyddu cyfoeth unigolion yn CBSC | DNA | X | X | + | O | O | X | X | + |
| Sicrhau bod amrediad ddigonol o safleoedd cyflogaeth ar gael | DNA | X | X | ++ | O | O | DNA | + | X |
| Gwella iechyd unigolion | XX | X | O | ++ | O | + | XX | O | + |
| Cynnal poblogaeth y bwrdeistref sirol ar lefelau cyfredol o leiaf a denu strwythur demograffig mwy cytbwys? | DNA | + | + | ++ | X | X | O | X | O |
| Caniatáu mynediad hawdd i'r holl breswylwyr i gyfleusterau hamdden | DNA | + | ++ | + | ++ | ++ | ++ | + | O |
| Lleihau llygredd aer, sŵn, golau ac arogleuon a sicrhau bod ansawdd yr aer yn gwella. | + | O | O | X | + | + | XX | O | XX |

| Amcan | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelu gwerth tirwedd y tirweddau pwysicaf yn y bwrdeistref sirol a chynnal amgylchedd glân a hygyrch er mwyn annog mwy o ymdeimlad o berthyn. | DNA | X | O | O | X | + | ++ | O | X |
| Diogelu hunaniaeth ddiwylliannol y bwrdeistref sirol | DNA | + | X | O | + | + | O | ++ | + |
| Diogelu a gwella asedau hanesyddol pwysig | + | ++ | ++ | O | + | + | + | ++ | + |
| Diogelu dyfrhaenau a gwella ansawdd a chyfanswm y dŵr yn ein hafonydd a lleihau'r defnydd o ddŵr | ++ | O | DNA | O | ++ | + | DNA | DNA | DNA |
| Lleihau nifer y datblygiadau sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd gymaint ag y bo modd | X | O | O | + | X | X | X | X | X |
| Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a lleihau halogi a diogelu cyfanswm, ansawdd a hydreiddedd y pridd. | + | X | O | O | XX | O | X | X | X |
| Diogelu safleoedd o bwysigrwydd daearegol a gwella eu hygyrchedd | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ |
| Lleihau swm y gwastraff a gynhyrchir a chynyddu'r arfer o ailddefnyddio deunyddiau | + | + | + | + | DNA | ++ | + | O | + |
| Gwella bioamrywiaeth y bwrdeistref sirol | O | O | O | + | O | O | X | + | + |
| Lleihau cyfanswm y $CO_2$ a gynhyrchir yn y bwrdeistref sirol bob blwyddyn | X | DNA | X | NM | NM | NM | NM | NM | NM |
| Lleihau tagfeydd trwy leihau'r angen i deithio, annog dewisiadau amgen i'r car a gwneud y defnydd gorau o'r seilwaith trafnidiaeth presennol. | X | O | O | + | + | + | O | + | + |
| Cynyddu cyfran yr ynni a ddaw o ffynonellau adnewyddadwy. | DNA | + | + | X | ++ | X | X | X | + |
| Gwella perfformiad asedau materol yn y bwrdeistref sirol | O | X | O | O | + | O | + | X | O |